



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 20 Ebrill 2010
Tuesday, 20 April 2010**

Cynnwys
Contents

- | | |
|----|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister |
| 27 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement |
| 36 | Pwynt o Drefn
Point of Order |
| 37 | Datganiad am Adroddiad ar y Cynnydd a Wnaed o ran Ymrwymïadau 'Cymru'n Un'
mewn cysylltiad â'r Celfyddydau
Statement on Progress Report on 'One Wales' Commitments relating to the Arts |
| 49 | Datganiad am y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
Statement on the Welsh-medium Education Strategy |
| 65 | Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008
(Cyfyngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010
Approval of the Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008 (Prescribed
Restrictions) (Wales) Order 2010 |
| 67 | Penderfyniad Ariannol yn ymwneud â'r Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol
Cymru (Taliadau)
Financial Resolution in relation to the Proposed National Assembly for Wales
(Remuneration) Measure |
| 68 | Cynhwysiant Ariannol
Financial Inclusion |
| 83 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 85 | Neges o Gydimdeimlad gan y Llywydd i Lysgennad Gwlad Pwyl
Message of Condolence from the Presiding Officer to the Polish Ambassador |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn yn y Cynulliad. Cyn i mi alw'r cwestiwn cyntaf, carwn dalu teyrnged i'r diweddar Tom Ellis. Yr oedd yn gyn-Aelod Seneddol dros Wrecsam, yn gyn-reolwr glofa a pheiriannydd glofaol, yn ddeallusyn gwleidyddol ac yn gefnogwr brwd a diysgog i ddatganioli. Heb bobl fel ef, ni fyddem yn eistedd yma heddiw. Diolch yn fawr i chi.

Eleanor Burnham: Diolch am y deyrnged addas honno, Lywydd.

The Presiding Officer: Order in the Assembly. Before I call the first question, I wish to pay tribute to the late Tom Ellis. He was a former Member of Parliament for Wrexham and a former mine manager and mining engineer, a political intellectual and a keen and unswerving supporter of devolution. Without people such as him, we would not be sitting here today. Thank you very much.

Eleanor Burnham: Thank you for that appropriate tribute, Presiding Officer.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Priorities

Q1 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on his priorities for youth services? OAQ(3)2785(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): We are committed to implementing the national youth service strategy and the 'One Wales' youth service fund to ensure a comprehensive network of fit-for-purpose services and facilities for young people across Wales.

Eleanor Burnham: The recent review of youth justice services by the Communities and Culture Committee clearly highlighted the severe lack of a joined-up approach to our vulnerable young people, whether they are, unfortunately, going in or coming out of our custodial centres, some of which are in Wales and some are in England. The review also highlighted the fact that too many young people are ending up in our criminal justice system because the support networks have failed, and they were not given proper attention at an earlier age.

Your leadership manifesto suggested a review of youth services across Wales to

Blaenoriaethau

C1 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid? OAQ(3)2785(FM)

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i roi'r strategaeth genedlaethol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru ar waith ynghyd â chronfa gwasanaeth ieuenctid 'Cymru'n Un' er mwyn sicrhau bod rhwydwaith cynhwysfawr o wasanaethau ac adnoddau sy'n addas i'r diben ar gael ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.

Eleanor Burnham: Yn yr adolygiad yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, pwysleisiwyd yn glir fod diffyg difrifol o ran gweithio mewn modd cydlynol ym maes ein pobl ifanc sy'n agored i niwed, boed y rheini, ysywaeth, yn mynd i mewn neu'n dod allan o'n canolfannau cadw, rhai ohonynt yng Nghymru a rhai yn Lloegr. Yn ogystal pwysleisiodd yr adolygiad fod llawer gormod o bobl ifanc yn cael eu dal yn ein system cyfiawnder ieuenctid am fod y rhwydweithiau cynnal wedi methu, ac na roddwyd sylw priodol iddynt pan oeddent yn iau.

Yr oedd eich manifesto ar gyfer yr arweinyddiaeth yn awgrymu adolygiad o

ensure that they are fit for purpose. First Minister, what assessment have you made of youth provision and what changes and improvements, if any, do you believe that we need in Wales?

The First Minister: That work is in hand, but I can tell you that the national youth service strategy provides a vision for youth services in Wales. Of course, we have the national youth service standards, which were developed by many stakeholders across Wales and include key performance indicators in many areas such as levels of engagement, accreditation, Welsh-language provision and so on. Also, £5 million in revenue funding is available to empower maintained youth services to work in partnership with the voluntary sector to increase the number of young people who are engaged in non-formal learning. There is a £9 million capital fund, which is also being made available to create fit-for-purpose, good-quality youth facilities. There are a number of areas that are being taken forward, but we are always looking to improve where improvements can be made.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): First Minister, you will be aware that one of the most important issues, if not the most important issue, for young people is getting a job. The latest youth unemployment statistics and official figures show that the number of people between the ages of 15 and 19 in Wales who are out of work is the highest of any country within the Organisation for Economic Co-operation and Development, and this presents severe challenges, as the report demonstrated. The number of people aged between 20 and 24 who are unemployed is also extremely high.

Given the high rates of unemployment among young people—we only have to look in the Valleys, to Merthyr Tydfil, for example, which I think has the highest rate of unemployment in the United Kingdom—there are massive challenges. What is the Welsh Assembly Government doing to tackle them?

The First Minister: As you will be aware,

wasanaethau ieuenctid ar draws Cymru i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Brif Weinidog, pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r ddarpariaeth i ieuenctid, a pha newidiadau a gwelliannau, os oes rhai, y mae arnom eu hangen yng Nghymru yn eich tyb chi?

Y Prif Weinidog: Mae'r gwaith hwnnw ar y gweill, ond gallaf ddweud wrthy ch fod strategaeth genedlaethol y gwasanaeth ieuenctid yn darparu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Wrth gwrs, mae gennym y safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, a ddatblygwyd gan lawer o randdeiliaid ar draws Cymru ac sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol mewn sawl maes megis lefelau ymgysylltu, achredu, darpariaeth Gymraeg ac yn y blaen. Hefyd, mae £5 miliwn mewn arian refeniw ar gael i alluogi gwasanaethau ieuenctid a gynhelir i weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n ymwneud â dysgu anffurfiol. Ceir cronfa gyfalaf o £9 miliwn, a ddarperir hefyd i greu cyfleusterau ieuenctid o ansawdd da, addas i'r diben. Mae camu ymlaen mewn sawl maes, ond yr ydym yn wastad yn ceisio gwella lle y gellir gwneud gwelliannau.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol mai un o'r materion pwysicaf, os nad y pwysicaf, i bobl ifanc yw cael gwaith. Mae'r ffigurau swyddogol a'r ystadegau diweddaraf ar ddiweithdra ieuenctid yn dangos mai nifer y bobl rhwng 15 a 19 oed yng Nghymru sy'n ddi-waith yw'r uchaf mewn unrhyw wlad o fewn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac mae hyn yn cynnig sawl her ddifrifol, fel y dangosodd yr adroddiad. Mae nifer y bobl rhwng 20 a 24 oed sy'n ddi-waith yn eithriadol o uchel hefyd.

O ystyried y cyfraddau diweithdra ymysg pobl ifanc—nid oes ond rhaid edrych yn y Cymoedd, ar Ferthyr Tudful, er enghraifft, lle y mae'r gyfradd diweithdra uchaf yn y Deyrnas Unedig, fe gredaf—mae'r her yn enfawr. Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael â hyn?

Y Prif Weinidog: Fel y gwyddoch, yr ydym

we have done a lot to ensure that people receive training in work. ProAct and ReAct have been exceptionally successful. We work with our colleges to ensure that the qualifications that we need for the future are in place for young people to take forward. The key to improving opportunities for young people is ensuring that we have the right mix of skills in place in our colleges, and indeed in our workplaces, to ensure that we are attractive to investors from outside Wales, and to ensure that those who wish to build businesses in Wales find the skills that they need. Developing that skills base will be crucial for the years to come.

Nick Bourne: I certainly do not disagree about the importance of ensuring that business has access to skills or the importance of business itself. I know that the First Minister has said that the private sector has to grow and he is right about that. Given that, should we not be doing more to help our small businesses? If you look at businesses in England, you will see that they are having transitional business rate relief. If you look at businesses in Northern Ireland, you will see that they are not facing an increase in business rates because of revaluation. If you look at businesses in Scotland, you will see that they are not facing any increase in business rates at all. We do not have any of those factors in Wales. Our small businesses are disadvantaged compared with small businesses in the other three home nations. Why are you not adopting any of those policies to help small businesses here?

The First Minister: As you know full well, small business rate relief was introduced in Wales. You are giving the impression that no relief was introduced at all. In order to help small businesses, as well as larger businesses in future, we are striving to ensure that we have the right skills mix in place to enable small businesses to grow. It would be quite wrong to infer that no small business rate relief has been made available in Wales.

Nick Bourne: That was not the inference. The inference was that we are not doing the same things that they are doing in other parts

wedi gwneud llawer i sicrhau bod pobl yn cael hyfforddiant yn y gwaith. Mae ProAct a ReAct wedi bod yn hynod lwyddiannus. Yr ydym yn gweithio gyda'n colegau i sicrhau bod y cymwysterau y mae eu hangen ar gyfer y dyfodol ar gael i bobl ifanc ymgymryd â hwy. Yr allwedd i wella cyfleon i bobl ifanc yw sicrhau bod gennym y cymysgedd iawn o sgiliau yn ein colegau, ac yn wir yn ein gweithleoedd, i sicrhau ein bod yn ddeniadol i fuddsoddwyr oddi allan i Gymru, ac i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno datblygu busnesau yng Nghymru'n canfod y sgiliau y mae arnynt eu hangen. Bydd datblygu'r sylfaen sgiliau honno'n hollbwysig i'r blynyddoedd sydd i ddod.

Nick Bourne: Yn sicr, nid wyf yn anghytuno ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod busnesau'n gallu cael sgiliau, na phwysigrwydd busnes ei hun. Gwn fod y Prif Weinidog wedi dweud bod yn rhaid i'r sector preifat dyfu ac mae'n iawn ynglŷn â hynny. O gofio hynny, oni ddylem fod yn gwneud mwy i helpu ein busnesau bach? Os edrychwch ar fusnesau yn Lloegr, gwelwch eu bod yn cael rhyddhad ardrethi busnes trosiannol. Os edrychwch ar fusnesau yng Ngogledd Iwerddon, gwelwch nad ydynt yn wynebu cynnydd mewn ardrethi busnes oherwydd ailbrisio. Os edrychwch ar fusnesau yn yr Alban, gwelwch nad ydynt yn wynebu dim cynnydd mewn ardrethi busnes o gwbl. Nid oes yr un o'r ffactorau hynny gennym yng Nghymru. Mae ein busnesau bach o dan anfantais o'u cymharu â busnesau bach yn y tair gwlad arall ym Mhrydain. Pam nad ydych yn mabwysiadu dim o'r polisïau hynny i helpu busnesau bach yma?

Y Prif Weinidog: Fel y gwyddoch yn iawn, cyflwynwyd rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru. Yr ydych yn rhoi'r argraff na chyflwynwyd dim rhyddhad o gwbl. Er mwyn helpu busnesau bach, yn ogystal â busnesau mwy yn y dyfodol, yr ydym yn ymdrechu i sicrhau bod gennym y cymysgedd sgiliau iawn i alluogi busnesau bach i dyfu. Cwbl anghywir fyddai awgrymu nad oes rhyddhad ardrethi i fusnesau bach wedi'i ddarparu yng Nghymru.

Nick Bourne: Nid hynny oedd yr awgrym. Yr awgrym oedd nad ydym yn gwneud yr un pethau ag y maent yn eu gwneud mewn

of the country. We are not helping our small businesses to the same extent as in England, Northern Ireland and Scotland. I do not think that there is any gainsaying in that. However, I will move on to another issue that is important in terms of the skills that you and I both think are vital: the spending gap in education.

According to official Government data, the average spend per pupil is £527 lower in Wales than it is in England. Local authority statistics make that very clear. The Minister for Children, Education and Lifelong Learning launched a review of education funding and told us that we could expect the early findings of that review by the end of March. We are now in the second half of April. When can we expect those findings? Are they going to come out before the general election or afterwards? What is the latest on that very important review, and what is your feeling about that education spending gap, which is very much to our disadvantage?

The First Minister: The results of the review are imminent. As I have said before in this Chamber, we recognise that there has been a historic gap between Wales and England, and that gap, in time, is something that we want to bridge.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, I will begin by asking what discussions you have had, and what involvement your Government may have had, with the COBRA meetings in London that have been looking at the effects of the volcanic ash cloud, and at how we can bring British—and Welsh—citizens home.

The First Minister: I struggle to see how that relates to youth services and question 1, Llywydd.

The Presiding Officer: It has been a convention, First Minister, that the leaders of parties can ask more open questions.

rhannau eraill o'r wlad. Nid ydym yn helpu ein busnesau bach i'r un graddau ag yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Nid wyf yn meddwl y gellir gwadu hynny. Fodd bynnag, symudaf ymlaen at fater arall sydd yn bwysig o ran y sgiliau yr ydych chi a minnau'n credu eu bod yn hollbwysig: y bwlch gwario mewn addysg.

Yn ôl data swyddogol y Llywodraeth, mae'r gwariant ar gyfartaledd fesul disgybl £527 yn is yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae ystadegau awdurdodau lleol yn dangos hynny'n eglur iawn. Lansiodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adolygiad o gyllid addysg a dywedodd wrthym y gallem ddisgwyl canfyddiadau cynnar yr adolygiad hwnnw erbyn diwedd mis Mawrth. Erbyn hyn yr ydym yn ail hanner mis Ebrill. Pryd y gallwn ddisgwyl y canfyddiadau hynny? A ddeuant allan cyn yr etholiad cyffredinol ynteu wedyn? Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr adolygiad tra phwysig hwnnw, a beth yw eich teimlad ynglŷn â'r bwlch hwnnw mewn gwariant ar addysg, sydd yn ein rhoi o dan anfantais bendant?

Y Prif Weinidog: Mae canlyniadau'r adolygiad ar gyrraedd. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr hon, yr ydym yn cydnabod bod bwlch wedi bod yn hanesyddol rhwng Cymru a Lloegr, a bod y bwlch hwnnw, o dipyn i beth, yn rhywbeth y mae arnom eisiau ei bontio.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, dechreuaf drwy ofyn pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda chyfarfodydd COBRA yn Llundain sydd wedi bod yn edrych ar effeithiau'r cwmwl llwch folcanig, ac ar sut y gallwn ddod â dinasyddion Prydain—a Chymru—adref, a pha ran a fu gan eich Llywodraeth yn y cyfarfodydd hynny.

Y Prif Weinidog: Mae'n anodd gennyf weld sut y mae hynny'n berthnasol i wasanaethau ieuencid a chwestiwn 1, Lywydd.

Y Llywydd: Mae wedi bod yn gonfensiwn, Brif Weinidog, fod arweinwyr pleidiau'n cael gofyn cwestiynau mwy agored.

The First Minister: I thought that they had to be related in some way to the original question, but I will answer this one anyway because it is important.

Our officials have been engaged in COBRA meetings on a daily basis. In terms of what is being done directly in Wales, Arriva Trains Wales has been laying on extra services to Fishguard and Holyhead in order to assist people who wish to cross on the ferries or high-speed sea service crossings from those ports. That is very much to be welcomed. We have played a role in terms of having an input into those COBRA meetings. The difficulty that we face is that the situation with the ash cloud, and the apparent second ash cloud that might be blown our way, is entirely unpredictable. As you know, the Prime Minister has taken steps to look to assist British citizens who are stranded abroad, and all is being done to try to assist them.

Kirsty Williams: Thank you very much for that answer, First Minister. I am sure that you would agree that many Welsh families have been affected by this situation. Indeed, I understand that some of your own colleagues are unable to get home.

However, maybe I can help you out now by going back to something on which you may have some notes in front of you that you can use to answer. On the television last night, we had a graphic illustration of the effects on children and families if services are not in place for them. We saw professionals talk about the effects of attention deficit disorder on individuals and their families. There were warnings that, if those children do not receive treatment at an appropriate time and in an appropriate way, it can cause problems in the future. Could you outline what steps your Government is taking to ensure that all children, wherever they are in Wales, have access to the treatment that they need?

The First Minister: I can assure you that the answer that I gave on volcanic ash was based on information that I was made aware of today, and that I have no notes in front of me

Y Prif Weinidog: Yr oeddwn yn meddwl bod yn rhaid iddynt fod yn gysylltiedig rywsut â'r cwestiwn gwreiddiol, ond atebaf hwn beth bynnag, oherwydd y mae'n bwysig.

Mae ein swyddogion wedi bod mewn cyfarfodydd COBRA yn ddyddiol. O ran yr hyn sydd yn cael ei wneud yn uniongyrchol yng Nghymru, mae Trenau Arriva Cymru wedi bod yn darparu gwasanaethau ychwanegol i Abergwaun a Chaergybi er mwyn helpu pobl sy'n dymuno croesi ar y llongau fferi neu'r gwasanaeth sy'n croesi'n gyflym iawn o'r porthladdoedd hynny. Croesewir hynny'n fawr. Yr ydym wedi chwarae rôl o ran ein bod wedi cyfrannu at y cyfarfodydd COBRA hynny. Yr anhawster a wynebwn yw bod y sefyllfa gyda'r cwmwl llwch, a'r ail gwmwl llwch a allai gael ei chwythu tuag atom yn ôl pob golwg, yn gwbl amhosibl ei rhagweld. Fel y gwyddoch, mae Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi cymryd camau i geisio helpu dinasyddion Prydain sydd yn gaeth dramor, ac mae popeth yn cael ei wneud i geisio'u cynorthwyo.

Kirsty Williams: Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr y cytunech fod y sefyllfa hon wedi effeithio ar lawer o deuluoedd o Gymru. Yn wir, deallaf fod rhai o'ch cyd-Aelodau chi'n methu dod adref.

Fodd bynnag, efallai y gallaf gynnig cymorth ichi'n awr drwy fynd yn ôl at rywbeth y mae gennych nodiadau yn ei gylch o'ch blaen efallai, y gallwch eu defnyddio i roi ateb. Ar y teledu neithiwr, gwelsom ddarlun graffig o'r effeithiau ar blant a theuluoedd os nad oes gwasanaethau wedi'u darparu iddynt. Gwelsom bobl broffesiynol yn siarad am effeithiau anhwylder diffyg canolbwyntio ar unigolion a'u teuluoedd. Rhybuddiwyd os na chaiff y plant hynny driniaeth ar adeg briodol ac mewn modd priodol, y gall achosi problemau yn y dyfodol. A allech amlinellu pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau y gall pob plentyn, lle bynnag y bo yng Nghymru, gael y driniaeth y mae arno ei hangen?

Y Prif Weinidog: Gallaf eich sicrhau bod yr ateb a roddais ynglŷn â'r llwch folcanig yn seiliedig ar wybodaeth y cefais wybod amdani heddiw, ac nad oes gennyf nodiadau

about it. I am fully capable of remembering these things.

1.40 p.m.

The difficulty with attention deficit disorder is that, first, it has to be recognised, and, secondly, there is an understandable reluctance among parents that their children should have to take drugs such as Ritalin, which has been used widely to treat the disorder in the past. I would certainly encourage local authorities and local health boards to work together to ensure that this condition is identified very quickly. It is something that schools and GP surgeries sometimes spot, and the condition is much more widely recognised than has been the case in the past. Children across Wales are now getting the right attention so that the condition is treated, although there will be circumstances where children slip through the net. We have to be careful that we ensure that parents and schools are in a position to access information to deal with children who have attention deficit disorder.

Kirsty Williams: From the comments of the experts who were speaking on last night's programme it seems that it is not a case of a single child falling through the net; it is a case of the failure of the system in that particular part of Wales to provide a comprehensive service for children who are suffering from this disorder. Children have access to medication, but the National Institute for Health and Clinical Excellence clearly states that they also need access to a range of talking therapies and support, and that simply is not being provided. The GP on television last night spoke of a potential disaster in our deprived communities, where services are unable to support parents who have children with behavioural difficulties. Is that GP wrong?

The First Minister: One GP is saying that; I am not aware of other GPs saying it. Nevertheless, this is a situation that we will study to see whether it can be improved.

Cynghorwyr Gofal

C2 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog

o'm blaen yn ei chylch. Yr wyf yn berffaith abl i gofio'r pethau hyn.

Yr anhawster gydag anhwylder diffyg canolbwyntio yw, yn gyntaf, fod yn rhaid ei adnabod, ac, yn ail, fod amharodrwydd dealladwy ymhlith rhieni i'w plant orfod cymryd cyffuriau fel Ritalin, sydd wedi'i ddefnyddio'n helaeth i drin yr anhwylder yn y gorffennol. Yn sicr hoffwn annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gydweithio i sicrhau bod y cyflwr hwn yn cael ei ganfod yn fuan iawn. Mae'n rhywbeth y sylwir arno weithiau gan ysgolion neu feddygfeydd, ac mae'r cyflwr yn llawer mwy adnabyddus nag a oedd yn y gorffennol. Mae plant ledled Cymru erbyn hyn yn cael y sylw iawn fel bod y cyflwr yn cael ei drin, er y bydd amgylchiadau lle y bydd plant yn llithro drwy'r rhwyd. Rhaid inni ofalu sicrhau bod rhieni ac ysgolion mewn sefyllfa i gael gwybodaeth i ddelio â phlant sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio.

Kirsty Williams: Yn ôl sylwadau'r arbenigwyr a oedd yn siarad ar y rhaglen neithiwr, mae'n ymddangos nad mater o un plentyn yn llithro drwy'r rhwyd ydyw; y system yn y rhan arbennig honno o Gymru sy'n methu darparu gwasanaeth cynhwysfawr i blant sydd â'r anhwylder hwn. Mae modd i blant gael meddyginiaeth, ond dywed y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yn glir fod angen iddynt hefyd allu cael amrediad o therapïau siarad a chefnogaeth, ac nad yw hynny'n cael ei ddarparu. Soniodd y meddyg teulu ar y teledu neithiwr am argyfwng a allai ddigwydd yn ein cymunedau difreintiedig, lle y mae gwasanaethau'n methu cynnal rhieni plant sydd ag anawsterau ymddygiadol. A ydyw'r meddyg hwnnw'n cyfeiliorni?

Y Prif Weinidog: Mae un meddyg teulu'n dweud hynny; nid wyf yn ymwybodol bod meddygon eraill yn ei ddweud. Serch hynny, mae hon yn sefyllfa y byddwn yn ei hastudio i weld a ellir ei gwella.

Care Advisers

Q2 David Lloyd: Will the First Minister

ddatganiad am y gwaith sydd wedi cael ei wneud i weithredu trefniadau ar gyfer cynghorwyr gofal nychdod cyhyrol ledled Cymru? OAQ(3)2788(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r byrddau iechyd lleol wedi cytuno ar y cyd y bydd dau gynghorydd gofal yn cael eu penodi, un yn y gogledd ac un yn y de. Yr ydym yn disgwyl i'r penodiadau hyn gael eu gwneud yn ystod y misoedd nesaf.

David Lloyd: Yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei gwaith ar y mater hwn. Mae'r Gweinidog wedi bod yn cyfarfod teuluoedd, cleifion ac aelodau o'r ymgyrch nychdod cyhyrol yn ystod y misoedd diwethaf. A allwch gadarnhau pryd yn union y disgwylir apwyntiad y cynghorwyr gofal cyntaf, a chadarnhau ble yn union y cânt eu lleoli?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn bwriadu sicrhau y bydd yr apwyntiadau yn cael eu gwneud yn ystod y misoedd nesaf, cyn gynted ag sy'n bosibl. Gwneir penderfyniad ar y pryd ynglŷn â phencadlys y bobl hyn. Lle bynnag y bydd y swyddog yn cael ei swyddfa, mae'n bwysig bod y swyddog hwnnw yn gallu mynd i bob rhan o'r ardal y mae'n gyfrifol amdani.

William Graham: You will agree that it is vital that action should be taken to fill the void in Wales's previous provision for muscular dystrophy sufferers, and that treatment can now be comprehensive. What steps are you taking to ensure that the provision is properly monitored so that care is given to people who need it most?

The First Minister: Whenever new advisers such as these are appointed, a system will be in place to ensure that they are reaching the people who need help most. There will inevitably be monitoring to ensure that the message is getting across that the care will be there and to ensure that the advisers are reaching the people who they need to reach.

make a statement about the work that has been undertaken to implement arrangements for muscular dystrophy care advisers across Wales? OAQ(3)2788(FM)

The First Minister: Local health boards have collectively agreed that two care advisers, one for north Wales and one for south Wales, will be appointed. These appointments will take place over the next few months.

David Lloyd: I congratulate the Minister for Health and Social Services on her work on this matter. The Minister has been meeting families, patients and members of the muscular dystrophy campaign over the past few months. Could you confirm when exactly you expect to appoint the first care advisers and where exactly they will be located?

The First Minister: We are looking to ensure that the appointments are made over the next few months, as soon as possible. A decision as to the headquarters for these people will be taken at that time. Wherever the official's office is located, it is important that that official is able to visit all parts of the region he or she is responsible for.

William Graham: Fe gytunwch ei bod yn hanfodol y dylid gweithredu i lenwi'r bwlch yn narpariaeth flaenorol Cymru ar gyfer dioddefwyr nychdod cyhyrol, ac y gall triniaeth fod yn gynhwysfawr erbyn hyn. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei monitro'n iawn er mwyn i ofal gael ei roi i'r bobl y mae mwyaf o'i angen arnynt?

Y Prif Weinidog: Pryd bynnag y penodir cynghorwyr newydd fel y rhain, sefydlir system i sicrhau eu bod yn cyrraedd y bobl y mae mwyaf o angen cymorth arnynt. Yn anochel gwneir gwaith monitro i sicrhau bod y neges yn cael ei chyfleu y bydd y gofal ar gael ac i sicrhau bod y cynghorwyr yn cyrraedd y bobl y mae angen iddynt eu cyrraedd.

Substance Misuse

Q3 Val Lloyd: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to tackle substance misuse among young people? OAQ(3)2771(FM)

The First Minister: Tackling substance misuse among young people is a key priority of the substance misuse strategy, entitled 'Working Together to Reduce Harm'. We have provided an additional £3 million for 2010-11 onwards to improve treatment services for children and young people.

Val Lloyd: You may be aware of a recent survey of Cardiff University students that showed that two thirds of them base their decisions about where to go on a night out on what drink offers a bar or club has that weekend. This result is not specific to Cardiff, and shows that young people are highly influenced by cut-price drinks promotions and marketing campaigns that promote a positive image of drinking. First Minister, with binge drinking putting considerable pressure on the NHS in Wales, as well as being damaging for individuals, would the Welsh Assembly Government consider calls for a ban on alcohol advertising?

The First Minister: As a Government, we have consistently called for a ban on alcohol advertising as there is already on tobacco advertising. That is the position that we have taken for some time.

Mohammad Asghar: First Minister, I raised this issue with you several weeks ago, when we both paid tribute to the hard work of Gwent Police. Through a series of operations, it has played a huge role in cutting the availability of illegal drugs on the streets of Gwent. However, there is still notable concern among many of my constituents about the level of substance misuse in South Wales East, and illegal drug abuse among our young people is a common worry. First Minister, when the average proportion of

Camddefnyddio sylweddau

C3 Val Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ymysg pobl ifanc? OAQ(3)2771(FM)

Y Prif Weinidog: Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ymysg pobl ifanc yn un o flaenoriaethau allweddol y strategaeth camddefnyddio sylweddau, o dan yr enw 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'. Yr ydym wedi darparu £3 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2010-11 ymlaen i wella gwasanaethau triniaeth i blant a phobl ifanc.

Val Lloyd: Efallai eich bod yn ymwybodol o arolwg a wnaed yn ddiweddar o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd a ddangosodd fod dwy ran o dair ohonynt yn seilio'u penderfyniadau ynghylch lle i fynd ar noson allan ar yr hyn sydd gan far neu glwb i'w gynnig o ran prisiau diodydd y penwythnos hwnnw. Nid canlyniad sy'n perthyn yn benodol i Gaerdydd yw hyn, ac mae'n dangos bod ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo diodydd rhad sy'n hyrwyddo delwedd gadarnhaol i yfed yn dylanwadu'n fawr ar bobl ifanc. Brif Weinidog, a goryfed mewn hyrddiau'n gosod pwysau sylweddol ar y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, yn ogystal â bod yn niweidiol i unigolion, a fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried galwadau am wahardd hysbysebu alcohol?

Y Prif Weinidog: Fel Llywodraeth, yr ydym wedi galw'n gyson am wahardd hysbysebu alcohol fel y gwneir eisoes gyda hysbysebu tybaco. Dyna'r safbwynt yr ydym yn ei arddel ers tro.

Mohammad Asghar: Brif Weinidog, codais y mater hwn gyda chi rai wythnosau'n ôl, pan fu inni'n dau dalu teyrnged i waith caled Heddlu Gwent. Drwy gyfres o weithrediadau, mae wedi chwarae rhan enfawr mewn lleihau'r cyffuriau anghyfreithlon sydd ar gael ar strydoedd Gwent. Fodd bynnag, ceir pryder sylweddol ymysg llawer o'm hetholwyr o hyd ynghylch lefel cam-drin sylweddau yn Nwyrain De Cymru, ac mae camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon ymysg ein pobl ifanc yn peri pryder i lawer.

young people using drugs in Wales is more than double that for adults, should the Welsh Assembly Government not be doing more to help to educate young people in Wales about the dangers of substance misuse?

The First Minister: I have referred to the substance misuse strategy, but we also have other schemes in place, such as the Turnaround programme, which provides intensive psychosocial support for young people who have significant substance misuse problems. It is currently operational in three areas, including South Wales East. A total of 128 places have been made available to deal with young people who are at the extreme end of drug misuse, if I may put it that way. Through the substance misuse strategy, we will continue to work to roll out programmes that deal with substance misuse and that cover the educational aspects, so that people are aware of the dangers of the misuse not only of illegal drugs but also of legal drugs such as alcohol.

Rhodri Morgan: Taking alcohol as one substance that is misused and given the recent adverse publicity on the *Today* programme on BBC Radio 4, in the *South Wales Echo* and in *The Wall Street Journal* about substance misuse in Cardiff, namely binge drinking on weekends, will you join me in commending the work of Professor Shepherd at Cardiff Medical School and Cardiff School of Dentistry? Nurses have been trained to speak to binge drinkers who have had to visit the accident and emergency department when they return a week or so later to have their stitches out. The nurses try to persuade them that their binge drinking may have something to do with the facial injuries that they have sustained. By doing these interviews at the right moment, when people come back for their stitches to be taken out or for their wounds to be dressed, they have secured a 24 per cent reduction in the binge-drinking pattern. Do you agree that that is the right way forward to deal with this curse on our city centres at weekends?

Brif Weinidog, gyda'r gyfran gyfartalog o bobl ifanc sy'n defnyddio cyffuriau yng Nghymru yn fwy na chymaint ddwywaith â'r ffigur i oedolion, oni ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn gwneud mwy i helpu addysgu pobl ifanc yng Nghymru am beryglon camddefnyddio sylweddau?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi cyfeirio at y strategaeth camddefnyddio sylweddau, ond mae gennym gynlluniau eraill hefyd, fel y rhaglen Turnaround, sy'n darparu cefnogaeth seicogymdeithasol ddwys i bobl ifanc sydd â phroblemau sylweddol o ran camddefnyddio sylweddau. Mae'n weithredol mewn tair ardal ar hyn o bryd, gan gynnwys Dwyrain De Cymru. Mae cyfanswm o 128 o leoedd wedi'u clustnodi i ddelio â phobl ifanc sydd yn y pen eithaf o ran camddefnyddio cyffuriau, os caf ei gyfleu felly. Drwy'r strategaeth camddefnyddio sylweddau, byddwn yn parhau i weithio i gyflwyno rhaglenni sy'n delio â chamddefnyddio sylweddau ac sy'n ymdrin â'r agweddau addysgol, er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o beryglon camddefnyddio nid yn unig cyffuriau anghyfreithlon ond cyffuriau cyfreithlon fel alcohol hefyd.

Rhodri Morgan: A chymryd alcohol fel un sylwedd a gamddefnyddir ac o gofio'r cyhoeddusrwydd anffafriol yn ddiweddar ar y rhaglen *Today* ar BBC Radio 4, yn y *South Wales Echo* ac yn y *Wall Street Journal* ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau yng Nghaerdydd, sef goryfed mewn pyllau ar benwythnosau, a ymunwch â mi i gymeradwyo gwaith yr Athro Shepherd yn Ysgol Feddygol Caerdydd ac Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd? Mae nyrsys wedi'u hyfforddi i siarad â rhai sy'n cael pyllau o oryfed sydd wedi gorfod mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys pan ddeuant yn ôl ymhen rhyw wythnos i dynnu eu pwythau. Bydd y nyrsys yn ceisio'u perswadio fod a wnelo'u goryfed efallai â'r anafiadau a gawsant ar eu hwyneb. Drwy gynnal y cyfweiliadau hyn ar yr adeg iawn, pan ddaw pobl yn ôl i dynnu eu pwythau neu i drin eu clwyfau, maent wedi sicrhau lleihad o 24 y cant ym mhatrwm y goryfed mewn pyllau. A ydych yn cytuno mai dyma'r ffordd iawn ymlaen i ddelio â'r felltith hon ar ganol ein dinasoedd ar benwythnosau?

The First Minister: Yes, I do. That is absolutely right. Another point to make is that a drink problem does not necessarily manifest itself as someone drinking each and every day. A drink problem is when someone ends up in an accident and emergency department because of their own actions. The work that Professor Shepherd has done, which you just mentioned, is essential, and the figures speak for themselves. By informing people that if they get drunk and end up in an accident and emergency department, they have a drink problem, they realise that and see that they need to deal with it. Making that point very clearly, as is done by the nurses, is very effective, and the reduction that you have talked about is evidence of that.

Peter Black: After talking to professionals in the Swansea area who deal with substance misuse, I learned that there has been a huge increase in the number of intravenous drug users suffering from hepatitis C, and the amount required to deal with the problem far exceeds the resources available to the local health board. Has your Government undertaken any study of the incidence of hepatitis C among intravenous drug users and others in Wales, and will you be looking to see whether more resources need to be made available to deal with that issue across Wales?

1.50 p.m.

The First Minister: Hepatitis C becomes more of a problem if there is more intravenous drug use. It is associated with drug use, as HIV has been in the past, as well as with other forms of hepatitis. You mentioned Swansea as an example, and I am aware of a high volume of heroin referrals in Swansea of late, and we have established a multi-agency task group to consider that issue. We are undertaking a mapping exercise to determine where we should target treatment and enforcement over the next 12 months. It is a worrying figure. I know that police in Swansea are liaising with colleagues in Cardiff and Newport on taking a co-ordinated approach to the problem in Swansea. There has clearly been an increase

Y Prif Weinidog: Ydwyf. Mae hynny'n berffaith iawn. Pwynt arall i'w wneud yw nad yw problem yfed o reidrwydd yn golygu bod rhywun yn yfed bob dydd yn ddi-ffael. Problem yfed yw pan fydd rhywrai'n cyrraedd adran damweiniau ac achosion brys oherwydd eu gweithredoedd eu hunain. Mae'r gwaith y mae'r Athro Shepherd wedi'i wneud, yr ydych newydd ei grybwyll, yn hanfodol, ac mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain. Drwy hysbysu pobl fod ganddynt broblem yfed os ydynt yn meddwi ac yn eu cael eu hunain mewn adran damweiniau ac achosion brys, maent yn sylweddoli hynny ac yn gweld bod angen iddynt ddelio â hi. Mae gwneud y pwynt hwnnw'n glir iawn, fel y gwna'r nyrsys, yn effeithiol dros ben, ac mae'r lleihad y soniasoch amdano'n dystiolaeth o hynny.

Peter Black: Wedi siarad â gweithwyr proffesiynol yn ardal Abertawe sy'n delio â chamddefnyddio sylweddau, cefais ar ddeall bod cynnydd enfawr wedi bod yn nifer defnyddwyr cyffuriau mewnwythiennol sy'n dioddef o hepatitis C, a bod y swm y mae ei angen i ddelio â'r broblem yn llawer mwy na'r adnoddau sydd ar gael i'r bwrdd iechyd lleol. A ydyw eich Llywodraeth wedi gwneud unrhyw astudiaeth o nifer yr achosion o hepatitis C ymysg chwistrellwyr cyffuriau ac eraill yng Nghymru, ac a fyddwch yn edrych i weld a oes angen darparu rhagor o adnoddau i ddelio â'r mater hwnnw ar draws Cymru?

Y Prif Weinidog: Aiff hepatitis C yn fwy o broblem os ceir mwy o chwistrellu cyffuriau. Mae'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau, fel y bu HIV yn y gorffennol, yn ogystal ag â ffurfiau eraill o hepatitis. Soniasoch am Abertawe fel enghraifft, ac yr wyf yn ymwybodol bod nifer uchel o achosion o heroin wedi'u hatgyfeirio yn Abertawe'n ddiweddar, ac yr ydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl aml-asiantaeth i ystyried y mater hwnnw. Yr ydym yn cynnal ymarferiad mapio i benderfynu lle y dylem dargedu triniaeth a gwaith gorfodi dros y 12 mis nesaf. Mae'r ffigur yn peri pryder. Gwn fod yr heddlu yn Abertawe'n cydweithio â chydweithwyr yng Nghaerdydd a Chasnewydd i ymdrin â'r broblem yn

in heroin misuse in Swansea, but it is a problem that we are determined to get to grips with.

Chris Franks: We have heard of the impact of binge drinking on many communities, and unfortunately our capital has figured in a number of disturbing reports in the past week or so. The availability of cheap alcohol is surely a factor in this growing problem. What is your reaction to reports on the BBC and in *The Wall Street Journal* that the situation in Cardiff has reached new depths? The adverse publicity is bound to have a serious impact on the image of Cardiff across the world. I was interested to learn that per capita consumption of alcohol in the UK has risen by 19 per cent since 1980 compared with a 13 per cent drop in similar countries. That increase is in part down to longer opening hours, cheap supermarket booze and the advent of alcopops. Is it now time to consider the reform of licensing laws?

The First Minister: I think that the problem is more deep-seated than that. There is a cultural problem across the UK—and it is not alone in this: the Scandinavian countries have the same problem. It is acceptable, or at least tolerated, that people walk the streets drunk by day or night. In southern Europe, it is not tolerated for people of whatever age to walk the streets drunk. That is just not in their culture or their way of thinking. It is seen as so anti-social that no-one does it, unless they are a serious alcoholic. We need to change people's attitude to drink—there is no question about that.

There have been changes over the past 20 years, particularly the advent of alcopops, which did not exist 20 years ago. There is no doubt that drink is far cheaper than it was, and far more available. However, we need to be careful about how we target alcohol misuse. For example, local village pubs tend not to be a source of anti-social behaviour. It can happen sometimes but, in the main, it does not, especially if they are well run. We know that some off-licences and city-centre

Abertawe mewn modd cydlynol. Mae'n amlwg bod camddefnyddio heroin wedi cynyddu yn Abertawe, ond mae'n broblem yr ydym yn benderfynol o fynd i'r afael â hi.

Chris Franks: Yr ydym wedi clywed am effaith goryfed mewn pyllau ar sawl cymuned, ac yn anffodus mae ein prifddinas wedi bod yn destun nifer o adroddiadau sy'n peri pryder ers rhyw wythnos bellach. Nid oes dwywaith nad yw'r ffaith bod alcohol ar gael yn rhad yn ffactor yn y broblem gynyddol hon. Beth yw eich ymateb i adroddiadau ar y BBC ac yn *The Wall Street Journal* fod y sefyllfa yng Nghaerdydd yn waeth nag y mae wedi bod erioed? Mae'r cyhoeddusrwydd anffafriol yn siŵr o gael effaith ddifrifol ar ddelwedd Caerdydd dros y byd i gyd. Diddorol oedd cael ar ddeall bod yfed alcohol yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu 19 y cant y pen ers 1980 o'i gymharu â gostyngiad o 13 y cant mewn gwledydd tebyg. Mae'r cynnydd hwnnw'n rhannol oherwydd oriau agor hwy, diod sy'n rhad mewn uwchfarchnadoedd a dyfodiad alcopops. A ydyw bellach yn bryd ystyried diwygio'r deddfau trwyddedu?

Y Prif Weinidog: Credaf fod gwreiddiau'r broblem yn ddyfnach na hynny. Ceir problem ddiwylliannol ar draws y Deyrnas Unedig—ac nid yw ar ei phen ei hun yn hyn o beth: mae gan wledydd Llychlyn yr un broblem. Mae'n dderbyniol, neu o leiaf mae'n cael ei oddef, fod pobl yn cerdded y strydoedd yn feddw ddydd neu nos. Yn ne Ewrop, ni oddefir i bobl o ba oedran bynnag gerdded y strydoedd yn feddw. Nid yw hynny yn eu diwylliant na'u ffordd o feddwl. Fe'i gwelir yn beth mor wrthgymdeithasol fel nad oes neb yn ei wneud, oni bai ei fod yn alcoholig difrifol. Mae angen inni newid agwedd pobl at yfed—nid oes amheuaeth am hynny.

Cafwyd newidiadau yn yr 20 mlynedd diwethaf, yn enwedig gyda dyfodiad alcopops, nad oeddent yn bodoli 20 mlynedd yn ôl. Nid oes dim dwywaith nad yw diod yn llawer rhatach nag a oedd, ac yn llawer haws ei chael. Fodd bynnag, mae angen inni fod yn ofalus ynghylch sut yr ydym yn targedu camddefnyddio alcohol. Er enghraifft, nid yw tafarnau pentref fel rheol yn ffynonellau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall ddigwydd weithiau ond, ar y cyfan, nid yw'n

premises can be a source of anti-social behaviour and substantial alcohol abuse, and it is those areas that we need to target—first, to change the culture and the way that people drink, but also to ensure that the owners of off-licences and city-centre premises are aware of their responsibilities to their customers. Many of them are but, unfortunately, others are not.

digwydd, yn enwedig os ydynt yn cael eu rhedeg yn dda. Gwyddom y gall rhai siopau diod a mannau yfed canol dinas fod yn ffynhonnell ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddol ar alcohol, a dyna'r mannau y mae angen inni eu targedu—yn gyntaf, i newid y diwylliant a'r ffordd y mae pobl yn yfed, ond hefyd i sicrhau bod perchenogion siopau diod a mannau yfed canol dinas yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau at eu cwsmeriaid. Mae llawer ohonynt yn ymwybodol ond, ysywaeth, nid yw rhai eraill.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 4, OAQ(3)2782(FM), i'w ateb yn ysgrifenedig, a thynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)2768(FM), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)2782(FM), has been transferred for written answer, and question 5, OAQ(3)2768(FM), is withdrawn.

Flood Resilience

Gwrthsefyll Llifogydd

Q6 Darren Millar: Will the First Minister make a statement on flood resilience in Wales? OAQ(3)2769(FM)

C6 Darren Millar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gallu i wrthsefyll llifogydd yng Nghymru? OAQ(3)2769(FM)

The First Minister: We have improved flood resilience in Wales by implementing the lessons identified by the Pitt review into the 2007 floods in England. We are funding improvements in flood forecasting, flood warnings and raising awareness to make sure that our communities will be better informed if flooding is imminent.

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi gwella gallu Cymru i wrthsefyll llifogydd drwy roi'r gwersi a ddaeth i'r amlwg yn sgîl adolygiad Pitt o'r llifogydd yn Lloegr yn 2007 ar waith. Yr ydym yn ariannu gwaith i wella'r gallu i ragweld llifogydd, i rybuddio am lifogydd ac i godi ymwybyddiaeth ohonynt, sy'n golygu y bydd ein cymunedau'n cael mwy o wybodaeth os oes perygl i lifogydd ddigwydd.

Darren Millar: As you will know, flooding is becoming a more regular problem here as a result of the wetter weather that we are having because of climate change and rising sea levels. Many homes and businesses in my constituency are at risk, including those in Llanddulas, an area flooded just a few days before Easter because the poorly maintained sea defences gave way during stormy weather. What action is the Welsh Assembly Government taking to ensure that local authorities, where they are responsible for sea defences, are adequately resourced to maintain and improve them, especially given the increased risk of flooding in Wales? Could you reassure my constituents in Llanddulas that the Welsh Assembly Government will do what it can to support the local authority to make the necessary

Darren Millar: Fel y gwyddoch, mae llifogydd yn mynd yn broblem fwy rheolaidd yma o ganlyniad i'r tywydd gwlypach yr ydym yn ei gael oherwydd y newid yn yr hinsawdd a bod lefelau'r môr yn codi. Mae llawer o gartrefi a busnesau yn fy etholaeth mewn perygl, gan gynnwys rhai yn Llanddulas, ardal a orlifwyd ychydig ddyddiau cyn y Pasg oherwydd i amddiffynfeydd môr a oedd heb eu cynnal yn ddigonol ildio yn ystod tywydd stormus. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i sicrhau y caiff awdurdodau lleol, lle y maent yn gyfrifol am amddiffynfeydd môr, adnoddau digonol i'w cynnal a'u gwella, yn enwedig yn wyneb y perygl cynyddol o ran llifogydd yng Nghymru? A allech roi sicrwydd i'm hetholwyr yn Llanddulas y gwnaiff

improvements to the defences that were breached?

The point, quite simply, is that the only way that you will get broadband coverage across Wales is for the Government to do it. It will never happen through the market. If you think that you will get competition in rural Ceredigion and Montgomeryshire and most of Wales, you are living in a fantasy world. It will not happen. It has not happened so far, and it will not happen in the future. The only way that it can be done is for there to be a levy of 50p on every phone bill, which is hardly an enormous amount of money, to ensure that everyone—particularly in rural Wales—gets access to broadband. The market will never deliver it. We cannot allow the people of rural Wales to fall behind. The Government will intervene in order to ensure that broadband is provided. The 50p levy is important for that to happen. Leaving it to the market would mean letting down many of the people whom you represent.

Y pwynt, yn syml iawn, yw mai'r unig ffordd y cewch ddarpariaeth band eang ledled Cymru yw i'r Llywodraeth ei wneud. Ni wnaiff fyth ddigwydd drwy'r farchnad. Os ydych yn meddwl y cewch gystadleuaeth yng nghefn gwlad Ceredigion a sir Drefaldwyn a'r rhan fwyaf o Gymru, yr ydych yn byw mewn byd ffantasi. Nid yw wedi digwydd hyd yma, ac ni wnaiff ddigwydd yn y dyfodol. Yr unig ffordd y gellir ei wneud yw codi ardoll o 50c ar bob bil ffôn, a go brin bod hynny'n swm enfawr, i sicrhau y bydd pawb—yn enwedig yn y Gymru wledig—yn gallu cael band eang. Ni wnaiff y farchnad byth sicrhau hynny. Ni allwn ganiatáu i bobl cefn gwlad Cymru fynd ar ei hôl hi. Fe wnaiff y Llywodraeth ymyrryd er mwyn sicrhau y darperir band eang. Mae'r ardoll o 50c yn bwysig er mwyn i hynny ddigwydd. Byddai ei adael i'r farchnad yn golygu siomi llawer o'r bobl yr ydych yn eu cynrychioli.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei atebion.

The Presiding Officer: I thank the First Minister for his answers.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): There are no changes to report to this week's planned Government business. Business for the next three weeks is as set out in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Nid oes newidiadau ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, a welir ym mhapurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Nick Bourne: I thank the Minister for Business and Budget for the business statement. I would like to raise three relatively brief items with the Minister. The first relates to former Allied Steel and Wire workers, whom the Minister will know are picketing the Assembly today over their lost pensions. Could we have a statement on what the Government is doing to ensure that these

Nick Bourne: Diolch i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb am y datganiad busnes. Hoffwn godi tair eitem gymharol fyr gyda'r Gweinidog. Mae a wnelo'r gyntaf â chyn weithwyr Allied Steel and Wire, sydd, fel y gŵyr y Gweinidog, yn picedu'r Cynulliad heddiw ynghylch eu pensiynau sydd wedi'u colli. A gaem ddatganiad ynghylch beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau y

people receive 100 per cent of their lost pensions, which is what we believe should happen? It is hard to see, for example, why those who invested in an Icelandic bank should have 100 per cent protection—although I am not necessarily against that—and these people should not. Why are we treating them differently? Could we have a statement on that issue, Minister?

The second point that I would like to raise is the vexed issue of the school closures process. I am far from saying that schools should never close, but I would like to discuss the process. Last week, I met representatives from Ysgol Gyfun Pantycelyn in Llandoverly. I know that other Assembly Members have also taken this up in relation to the conduct of Carmarthenshire authority. Could we have more detailed information on what is expected of local authorities in relation to consultation on school closures, because the process there has been deeply flawed? That is not just true of Carmarthenshire, although it is often true there. I would welcome something on that issue, as I know that it affects all Assembly Members across the parties. Will the Minister consider that?

The third issue is a matter about which I have written to the Minister for Environment, Sustainability and Housing and on which I am waiting for a response—I am not suggesting for a minute that the response is out of time—namely caravan rallies, particularly in Gilestone in the area which I represent, which are of massive concern. Could we have a more general statement about the process relating to caravan rallies, because it is a matter of concern throughout Wales? I am certainly not totally clear about how the process works and I wonder whether a statement on that might be forthcoming, Minister.

Jane Hutt: The first issue that you raised, the pension arrangements for the former workforce of Allied Steel and Wire, is not a devolved matter. You will remember that the current Secretary of State for Wales, when he was Secretary of State for Work and Pensions, secured a much improved deal for the workforce. Community, the union, was very engaged in that process. However, it is

caiff y bobl hyn 100 y cant o'u pensiynau coll, sef yr hyn a ddylai ddiwydd yn ein barn ni? Mae'n anodd gweld, er enghraifft, pam y dylai pobl a fuddsoddodd mewn banc yng Ngwlad yr Iâ gael gwarchodaeth 100 y cant—er nad wyf o reidwydd yn erbyn hynny—ac na ddylai'r bobl hyn. Pam yr ydym yn eu trin yn wahanol? A gaem ddatganiad ar y mater hwnnw, Weinidog?

Yr ail fater yr hoffwn ei godi yw mater poenus y broses cau ysgolion. Nid wyf am funud yn dweud na ddylid byth gau ysgolion, ond hoffwn drafod y broses. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â chynrychiolwyr o Ysgol Gyfun Pantycelyn yn Llanymddyfri. Gwn fod Aelodau eraill o'r Cynulliad wedi codi hyn hefyd mewn perthynas ag ymddygiad awdurdod sir Gaerfyrddin. A gaem wybodaeth fanylach am yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol o ran ymgynghori am gau ysgolion, oherwydd y mae'r broses yn y fan honno wedi bod yn ddiffygiol iawn? Nid am sir Gaerfyrddin yn unig y mae hynny'n wir, er ei bod yn wir yn aml yn y fan honno. Croesawn rywbeth am y mater hwnnw, gan y gwn ei fod yn effeithio ar holl Aelodau'r Cynulliad ar draws y pleidiau. A wnaiff y Gweinidog ystyried hynny?

Mae'r trydydd mater yn rhywbeth yr wyf wedi ysgrifennu amdano at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac yn dal i ddisgwyl ymateb amdano—nid wyf yn awgrymu am funud fod yr ymateb yn hwyr—sef raliau carafannau, yn enwedig yn Silstwn yn yr ardal yr wyf fi'n ei chynrychioli, sy'n destun pryder mawr. A gaem ddatganiad mwy cyffredinol am y broses ynglŷn â raliau carafannau, oherwydd y mae'n destun pryder drwy Gymru gyfan? Yn sicr nid wyf fi'n hollol glir ynghylch sut y mae'r broses yn gweithio, a thybed a ellid cael datganiad ar hynny, Weinidog?

Jane Hutt: Nid yw'r mater cyntaf a godwyd gennyh, sef trefniadau pensiwn cyn weithlu Allied Steel and Wire, yn fater datganoledig. Fe gofiwch i Ysgrifennydd Gwladol cyfredol Cymru, pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, sicrhau bargaen lawer gwell i'r gweithlu. Yr oedd gan Community, yr undeb, ran fawr yn y broses honno. Fodd bynnag, mater i'r rhai sy'n

for those who wish to do so to come to make representations to us as Assembly Members. We accept their right to do so.

Your second point on school closures is important in relation to addressing the challenges of surplus school places. You will be aware, Nick, that there was considerable consultation about reviewing the guidance for local education authorities and, indeed, for communities, school governors and all of those affected by this issue. There are excessive numbers of surplus places; local authorities have to review their provision and, where feasible, make proposals for their removal, particularly where a school has a significant level of surplus places. However, I draw your attention to the pioneering joint plans between the Assembly Government and Welsh local government to change the way in which school capital programmes are organised and funded in the future, which links directly to authorities addressing their surplus places in school planning arrangements.

On your third point about caravan rallies, I will have to seek guidance from the appropriate Minister, Nick.

Chris Franks: Minister, a new report, 'Silent Summer', details a decline in wildlife and plants that makes grim reading. Farmland birds, brown hares, water voles and many butterflies are suffering significant decline. That is often due to new farming practices and habitat degradation. However, as you know, there are also success stories: for example, red kites, otters and sea birds are all flourishing. However, it is of huge concern that at least half of the 220 bird species are of conservation concern. These problems are due to human activities, and, therefore, the solution is also in our hands. Can we have a debate on these vital matters, Minister?

Jane Hutt: Conservation, environmental sustainability, biodiversity and the love and protection of our wildlife in Wales are at the forefront of the Welsh Assembly Government's agenda, and I am sure that your contribution has added to that.

dymuno gwneud hynny yw dod i gyflwyno sylwadau i ni fel Aelodau'r Cynulliad. Yr ydym yn derbyn eu hawl i wneud hynny.

Mae eich ail bwynt ar gau ysgolion yn bwysig mewn perthynas ag ymateb i her lleoedd gwag mewn ysgolion. Byddwch yn ymwybodol, Nick, fod cryn ymgynghori wedi bod ynghylch adolygu'r canllawiau i awdurdodau addysg lleol ac, yn wir, i gymunedau, llywodraethwyr ysgolion a phawb y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt. Mae niferoedd gormodol o leoedd gwag; rhaid i awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a gwneud cynigion ar gyfer eu dileu, lle y bydd hynny'n ymarferol, yn enwedig lle y bydd gan ysgol lefel sylweddol o leoedd gwag. Fodd bynnag, tynnaf eich sylw at y cyd-gynlluniau arloesol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol Cymru i newid y modd y trefnir ac yr ariennir rhaglenni cyfalaf ysgolion yn y dyfodol, ac mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hynny ac awdurdodau'n mynd i'r afael â'u lleoedd gwag yn eu trefniadau cynllunio ysgolion.

Ynglŷn â'ch trydydd pwynt ynghylch raliau carafannau, bydd yn rhaid imi ofyn am arweiniad gan y Gweinidog priodol, Nick.

Chris Franks: Weinidog, mae adroddiad newydd, 'Silent Summer', yn rhoi manylion am ddirywiad ym myd natur sy'n annifyr i'w darllen. Ceir dirywiad sylweddol mewn adar tir fferm, ysgyfarnogod, llygod dŵr, a sawl glöyn byw. Achosir hynny'n aml gan arferion ffermio newydd ac am fod amharu ar gynefinoedd. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, ceir llwyddiannau hefyd: er enghraifft, mae'r barcud, y dyfrgi ac adar môr i gyd yn ffynnu. Fodd bynnag, testun pryder aruthrol yw bod o leiaf hanner y 220 rhywogaeth o adar yn destun pryder o safbwynt cadwraeth. Gweithgareddau dyn sy'n gyfrifol am y problemau hyn, ac, felly, mae'r ateb yn ein dwylo ni hefyd. A allwn gael dadl ar y materion hollbwysig hyn, Weinidog?

Jane Hutt: Mae cadwraeth, cynaliadwyedd amgylcheddol, bioamrywiaeth a charu a gwarchod ein bywyd gwyllt yng Nghymru yn flaenllaw yn agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yr wyf yn siŵr bod eich cyfraniad wedi ychwanegu at hynny.

Eleanor Burnham: Could we have a discussion or statement on the various Welsh Government announcements that are made when we are out of the Senedd or during recess? I value the fact that, as an opposition backbencher, I am able to question and scrutinise Ministers, but we are not able to do that adequately when we are out of the Chamber or during recess.

Jane Hutt: I am surprised, Eleanor, that you do not welcome announcements by the Welsh Assembly Government. This is a Government that means business and does business and to ensure that people will benefit from the business and the funding, they need to actually hear about it. That is key to any announcements that are made, and I would hope that you will welcome those announcements, particularly if they benefit your constituency. This is the Welsh Assembly Government in power and in business.

Mark Isherwood: I wish to raise two items. First, I call for a Government statement on the extension of the Llangollen railway to Corwen. When Llangollen Railway Trust Ltd submitted its application for a transport and works Order to enable it to extend the railway, there were two objections, from Welsh Water and the Countryside Council for Wales. I am advised that a satisfactory settlement has been achieved with the Countryside Council for Wales, and that an agreement with Welsh Water is imminent. So, with the opposition being removed, it was assumed that the Order would follow, but on 25 March a letter was received from the Department for Economy and Transport saying that Welsh Ministers had decided to require the trust to submit two supplementary reports for public consultation, despite them having had these reports for five months. I am told that further delays may result in the loss of the Welsh Government grant on which the railway extension depends. The Welsh Government has granted an extension until 31 August for the draw down of that grant, but the Welsh Ministers' decision has added six weeks to the process, and there is scant hope that the Order will be granted in time before 31 August. I am sure that Members in all parties in the Assembly would wish to see barriers to this long-awaited

Eleanor Burnham: A gaem drafodaeth neu ddatganiad ar yr amryfal gyhoeddiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru tra byddwn allan o'r Senedd neu yn ystod toriad? Yr wyf yn gwerthfawrogi'r ffaith fy mod, fel aelod o feinciau cefn y gwrthbleidiau, yn gallu holi a chraffu ar Weinidogion, ond nid ydym yn gallu gwneud hynny'n ddigonol pan fyddwn allan o'r Senedd neu yn ystod toriad.

Jane Hutt: Yr wyf yn synnu, Eleanor, nad ydych yn croesawu cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Llywodraeth yw hon sydd o ddifrif ynghylch busnes ac yn cyflawni busnes ac er mwyn sicrhau y bydd pobl yn elwa o'r busnes a'r cyllid, mae angen iddynt gael clywed amdano. Mae hynny'n allweddol i unrhyw gyhoeddiadau a wneir, a byddwn yn gobeithio y byddwch yn croesawu'r cyhoeddiadau hynny, yn enwedig os ydynt er budd eich etholaeth. Dyma Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn grym ac mewn busnes.

Mark Isherwood: Hoffwn godi dwy eitem. Yn gyntaf, galwaf am ddatganiad gan y Llywodraeth ynglŷn ag ymestyn rheilffordd Llangollen i Gorwen. Pan gyflwynodd Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen Cyf ei chais am Orchymyn trafndiaeth a gwaith i'w galluogi i ymestyn y rheilffordd, cafwyd dau wrthwynebiad, gan Dŵr Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Dywedir wrthyf fod setliad boddhaol wedi'i sicrhau gyda'r Cyngor Cefn Gwlad, a bod cytundeb gyda Dŵr Cymru ar fin dod. Felly, a'r gwrthwynebiad wedi mynd, tybid y byddai'r Gorchymyn yn dilyn, ond ar 25 Mawrth daeth llythyr oddi wrth Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn dweud bod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gofyn i'r ymddiriedolaeth gyflwyno dau adroddiad ategol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, er bod yr adroddiadau hyn ganddynt ers pum mis. Dywedir wrthyf y gall oedi pellach arwain at golli grant Llywodraeth Cymru, y mae'r estyniad i'r rheilffordd yn dibynnu arno. Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu estyniad hyd 31 Awst i'r grant hwnnw gael ei drosglwyddo, ond mae penderfyniad Gweinidogion Cymru wedi ychwanegu chwe wythnos at y broses, a phrin yw'r gobaidh y rhoddir y Gorchymyn mewn pryd cyn 31 Awst. Yr wyf yn siŵr y dymunai Aelodau ym mhob plaid yn y Cynulliad weld dileu'r

extension removed, and I would welcome a statement to that end.

Secondly, and finally, I again call for an independent inquiry on a very important matter, namely Communities First. In the last business statement, I called for a statement on the aftermath of the Wales Audit Office report on Plas Madoc Communities First, which showed that problems had been highlighted as long ago as 2003, and noted that the complaints flagged up related to, among others, the previous Ministers responsible, including two members of this Government. That report also referred to concerns raised by the Association of Voluntary Organisations Wrexham relating to wider Government issues and allegations about the conduct of the co-ordinator and other senior managers. We and the people of Wrexham more broadly need to know why the concerns raised by a professional local voluntary council were ignored and not acted on. What other inquiries are currently being carried out into Communities First by the Welsh Government? In a free society—

The Presiding Officer: Order. Not only is your contribution rather long but it also occurs to me that in the second case that has been mentioned there may be criminal proceedings pending.

2.30 p.m.

Mark Isherwood: I am not referring to the court case in any way whatsoever. I am referring purely to the conduct of, and allegations relating to, the Welsh Government solely and entirely in relation to the £0.25 billion spent by the Welsh Government. Notwithstanding some examples of good practice in the scheme, there must be no cover-up for any vested interests. This is public money and taxpayers' money—

The Presiding Officer: Order. Mark Isherwood, you know full well that where there are potential or actual criminal proceedings, any audit issue or response by Government must await the completion of the

rhwystrau i'r estyniad hirddisgwyliedig hwn, a chroesawn ddatganiad i'r perwyl hwnnw.

Yn ail, ac yn olaf, galwaf eto am ymchwiliad annibynnol ar fater pwysig iawn, sef Cymunedau yn Gyntaf. Yn y datganiad busnes diwethaf, gelwais am ddatganiad ar ganlyniad adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog, a ddangosodd fod tynnu sylw wedi bod at broblemau mor bell yn ôl â 2003, ac a nododd fod y cwynion a wnaed yn ymwneud â'r Gweinidogion a oedd yn gyfrifol yn flaenorol—ymysg eraill—gan gynnwys dau aelod o'r Llywodraeth hon. Cyfeiriodd yr adroddiad hwnnw hefyd at bryderon a godwyd gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam ynglŷn â materion mwy cyffredinol yn ymwneud â'r Llywodraeth a honiadau ynghylch ymddygiad y cydlynnydd ac uwch reolwyr eraill. Mae arnom ni a phobl Wrecsam yn fwy cyffredinol eisiau gwybod pam yr anwybyddwyd y pryderon a godwyd gan gyngor gwirfoddol lleol proffesiynol ac na weithredwyd arnynt. Pa ymchwiliadau eraill sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru? Mewn cymdeithas rydd—

Y Llywydd: Trefn. Nid yn unig y mae eich cyfraniad braidd yn faith ond yr wyf yn tybio hefyd y gall y bydd achos troseddol yn yr ail achos a grybwyllwyd.

Mark Isherwood: Nid wyf yn cyfeirio at yr achos llys mewn modd yn y byd. Dim ond cyfeirio yr wyf at ymddygiad Llywodraeth Cymru a honiadau ynghylch Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r £0.25 biliwn a wariwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ynglŷn â hynny'n unig. Er gwaethaf rhai enghreifftiau o arferion da yn y cynllun, rhaid peidio â chuddio unrhyw ddiddordebau personol. Arian cyhoeddus ac arian y trethdalwyr yw hyn—

Y Llywydd: Trefn. Mark Isherwood, gwyddoch yn iawn, pan fydd achos troseddol yn bosibilrwydd neu'n ffaith, fod yn rhaid i unrhyw broblem neu ymateb ynglŷn ag archwiliad gan y Llywodraeth aros nes

relevant criminal proceedings, therefore, I must stop you there.

Jane Hutt: In response to your first point, Mark, I am sure that we would all welcome the extension of the railway from Llangollen to Corwen, but we must ensure that every eventuality is covered in consultation. You will have the opportunity to raise this, if you so wish, with the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport during questions to him tomorrow afternoon.

I thank the Llywydd for making clear the boundaries for the comments that I can make on Communities First. I will say that the Assembly Government's internal audit service, jointly with the WAO, has undertaken a detailed investigation into the affairs of the Plas Madoc Communities First partnership in Wrexham. As you know, that joint report was published on 17 March.

Kirsty Williams: I return to the issue of the licensing of caravan rallies, which a great many people in Wales enjoy and which are perfectly appropriate in the right locations. You said that you would seek further guidance from the relevant Minister. Can you ask that Minister what timescale she works to with regard to the decisions on article 4 directions? The Brecon Beacons National Park made an application for an article 4 direction in spring 2009. A year later, no decision has been taken by that particular Minister on this matter. Could you also look into the issue of correspondence with community councils? Talybont-on-Usk Community Council has written to the Minister on six occasions with regard to this point, and none of those letters have been answered. I am sure that you will agree that relations with grass-roots community councils are important to the National Assembly for Wales and to the Welsh Assembly Government and that it should not be necessary for a community council to write on six occasions to a Minister before receiving a reply.

Jane Hutt: I am sure that the Minister will now be aware of those further points, and I add to my assurances to Nick Bourne that I

cwblheir yr achos troseddol perthnasol, felly, mae'n rhaid imi roi taw arnoch yn y fan honno.

Jane Hutt: Mewn ymateb i'ch pwynt cyntaf, Mark, yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn croesawu estyniad y rheilffordd o Langollen i Gorwen, ond rhaid inni sicrhau y trafodir pob posibilrwydd wrth ymgynghori. Cewch y cyfle i godi hyn, os dymunwch, gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn ystod cwestiynau iddo ef brynhawn yfory.

Diolch i'r Llywydd am egluro'r terfynau ar gyfer y sylwadau y gallaf eu gwneud ynglŷn â Cymunedau yn Gyntaf. Fe ddywedaf fod gwasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, wedi cynnal ymchwiliad manwl i faterion partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog yn Wrecsam. Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd y cyd-adroddiad hwnnw ar 17 Mawrth.

Kirsty Williams: Dychwelaf at fater trwyddedu raliau carafannau, a fwynheir gan lawer iawn o bobl yng Nghymru ac sydd yn berffaith briodol yn y lleoliadau iawn. Dywedasoeh y ceisiech arweiniad pellach gan y Gweinidog perthnasol. A allwch ofyn i'r Gweinidog yn ôl pa amserlen y mae'n gweithio o ran y penderfyniadau ar gyfarwyddiadau erthygl 4? Gwnaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gais am gyfarwyddyd erthygl 4 yng ngwanwyn 2009. Flwyddyn yn ddiweddarach, nid oes penderfyniad wedi'i wneud gan y Gweinidog arbennig hwnnw ar y mater hwn. A allech hefyd ystyried mater gohebiaeth â chynghorau cymuned? Mae Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg wedi ysgrifennu at y Gweinidog chwe gwaith ynglŷn â'r pwynt hwn, ac nid atebwyd yr un o'r llythyrau hynny. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod perthynas â chynghorau cymuned llawr gwlad yn bwysig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac na ddylai fod angen i gyngor cymuned ysgrifennu chwe gwaith at Weinidog cyn cael ateb.

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog bellach yn ymwybodol o'r pwyntiau pellach hynny, ac ychwanegaf at y

will follow this up appropriately.

Darren Millar: During First Minister's questions, I raised the issue of the flooding that occurred in north Wales as a result of stormy weather over the Easter period. Several homes and businesses were flooded and promenades damaged when the sea defences were overcome. The Environment Agency is responsible for issuing flood warnings, and yet none were issued to the communities that were affected by those particular storms on the day in question, 31 March, because, apparently, the trigger for a warning is a gale force 8 wind rather than the gale force 7 wind that had been forecast. Do you agree that this means that the trigger for a flood warning needs to be looked at? May I request an urgent statement by the Minister for environment to address this important issue and to ensure that she has this matter in hand, so that where there is an imminent risk of flooding, those communities will receive an adequate warning?

Jane Hutt: It is important that you bring these items to the attention of Government Ministers. I am sure that you also welcome the written statement by the Minister for Environment, Sustainability and Housing this week on the Flood and Water Management Act 2010. I would advise you to draw the Minister's attention to the particular issues that arose in terms of the warning arrangements for that unexpected flooding.

Andrew R.T. Davies: I wonder whether we might have a statement from the Minister with responsibility for enterprise in connection with the suspension or current withdrawal of the Anglesey air link. While our position on this is clear, one thing that needs to be clarified is Cardiff international airport's ability to develop routes and, in particular, use the money that might be used to sustain the air link to develop more attractive commercial propositions. When the service was withdrawn, we were told that an announcement was imminent. However, to date, I have yet to see what that announcement is. It is only fair that, given the considerable sums of public money at stake, a

sicrwydd a roddais i Nick Bourne yr af ar drywydd hyn mewn modd priodol.

Darren Millar: Yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog, codais fater y llifogydd a ddigwyddodd yn y gogledd o ganlyniad i'r tywydd stormus dros gyfnod y Pasg. Cafwyd llifogydd mewn amryw o dai a busnesau a niweidiwyd promenadau pan dorwyd amddiffynfeydd y môr. Asiantaeth yr Amgylchedd sydd yn gyfrifol am gyhoeddi rhybuddion llifogydd, ac eto ni roddwyd dim rhybudd i'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan y stormydd penodol hynny ar y diwrnod dan sylw, 31 Mawrth, oherwydd, mae'n debyg, mai'r hyn sy'n sbarduno rhybudd yw gwynt grym 8 yn hytrach na'r gwynt grym 7 a ragwelwyd. A ydych yn cytuno bod hyn yn golygu bod angen edrych ar y sbardun ar gyfer rhybudd llifogydd? A gaf ofyn am ddatganiad brys gan y Gweinidog amgylchedd i roi sylw i'r mater pwysig hwn ac i sicrhau bod y mater hwn ar y gweill ganddi, er mwyn i gymunedau gael rhybudd digonol pan fydd perygl i lifogydd ddigwydd?

Jane Hutt: Mae'n bwysig eich bod yn dod â'r eitemau hyn i sylw Gweinidogion y Llywodraeth. Yr wyf yn siŵr eich bod hefyd yn croesawu'r datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yr wythnos hon ynglŷn â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Fe'ch cynghorwn i dynnu sylw'r Gweinidog at y materion penodol a gododd o ran y trefniadau rhybudd gyda'r llifogydd annisgwyl hynny.

Andrew R.T. Davies: Tybed a gaem ddatganiad gan y Gweinidog â chyfrifoldeb dros fenter ynglŷn ag atal neu ddiddymu cyswllt awyr Ynys Môn ar hyn o bryd? Er bod ein safbwynt ni ynglŷn â hyn yn glir, un peth y mae angen ei gael yn glir yw gallu maes awyr rhyngwladol Caerdydd i ddatblygu llwybrau ac, yn arbennig, i ddefnyddio'r arian y gellid ei ddefnyddio i gynnal y cyswllt awyr i ddatblygu cynigion masnachol mwy deniadol. Pan dynnwyd y gwasanaeth yn ôl, dywedwyd wrthym fod cyhoeddiad ar fin dod. Fodd bynnag, hyd yma, nid wyf byth wedi gweld beth yw'r cyhoeddiad hwnnw. Mae'n hollol deg, o ystyried y symiau sylweddol o arian

formal statement is made so that Assembly Members can understand what is going on. Above all, as a regional Member for South Wales Central, I would like to know what ability the Welsh Assembly Government will have to engage with the operators of Cardiff airport to establish more attractive commercial routes.

Regarding Glastir, I would like a statement from the Minister for Rural Affairs. I met farmers from Glamorgan today in connection with the Glastir proposals. They addressed to me their particular concerns over prescriptions under the Glastir environmental programme and the Minister's ability to bring forward information so that farmers can make informed choices. I believe that, as the Minister indicated in a debate at the end of March, she will be making the prescriptions available through April. It is therefore pertinent that a statement be made in the Chamber so that Members can scrutinise the Minister on this issue. We are talking about considerable sums of public money here, to the tune of £80 million, so I think that it is only fair to our constituents that we, and the industry, have confidence in the Glastir scheme.

Finally, I would seek a statement on cancer services. I questioned the Minister for Health and Social Services in the last session of health questions in March over standards in Wales. She indicated that she would write to Members on the current state of play for cancer services, as the Government has undertaken an internal review of services in Wales. To date, such correspondence has not been entered into by the Minister. As the many Members who attended the cancer forum at City Hall last week would have heard at first hand from many experts in the field, there are some glaring inadequacies in service provision here in Wales. Therefore, it is pertinent that the Minister for health should make a statement in this Chamber on the provision of cancer services in Wales.

Jane Hutt: Thank you very much, Andrew. In relation to the situation for the essential link between Anglesey and Cardiff, you will know that, as a result of the demise of the

cyhoeddus sydd yn y fantol, i ddatganiad ffurfiol gael ei wneud er mwyn i Aelodau'r Cynulliad allu deall beth sy'n digwydd. Yn anad dim, fel Aelod rhanbarthol dros Ganol De Cymru, hoffwn wybod pa allu fydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydweithio â gweithredwyr maes awyr Caerdydd i sefydlu llwybrau masnachol mwy deniadol.

Ynglŷn â Glastir, hoffwn gael datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Cwrddais ag amaethwyr o Forgannwg heddiw ynglŷn â'r cynigion ar gyfer Glastir. Cyfleasant i mi eu pryderon arbennig ynghylch amodau o dan raglen amgylcheddol Glastir a gallu'r Gweinidog i gyflwyno gwybodaeth er mwyn i ffermwyr allu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Credaf, fel y nododd y Gweinidog mewn dadl ddiwedd mis Mawrth, y bydd yn sicrhau bod yr amodau ar gael ym mis Ebrill. Cymwys felly fyddai gwneud datganiad yn y Siambr er mwyn i Aelodau allu craffu ar y Gweinidog ynglŷn â'r mater hwn. Yr ydym yn siarad am symiau sylweddol o arian cyhoeddus yma, sef £80 miliwn, felly credaf ei bod yn hollol deg i'n hetholwyr fod gennym ni, a'r diwydiant, hyder yn y cynllun Glastir.

Yn olaf, gofynnaf am ddatganiad ar wasanaethau canser. Holais y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y sesiwn diwethaf o gwestiynau iechyd ym mis Mawrth ynghylch safonau yng Nghymru. Dywedodd hithau yr ysgrifennai at Aelodau am y sefyllfa ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau canser, gan fod y Llywodraeth wedi cynnal adolygiad mewnol o wasanaethau yng Nghymru. Hyd yma, nid yw'r Gweinidog wedi anfon gohebiaeth o'r fath. Fel y clywodd y nifer fawr o Aelodau a aeth i'r fforwm canser yn Neuadd y Ddinas yr wythnos diwethaf yn uniongyrchol gan sawl arbenigwr yn y maes, mae diffygion amlwg iawn yn y ddarpariaeth gwasanaethau yma yng Nghymru. Felly, mae'n gymwys i'r Gweinidog iechyd wneud datganiad yn y Siambr hon ar ddarpariaeth gwasanaethau canser yng Nghymru.

Jane Hutt: Diolch yn fawr, Andrew. Ynglŷn â'r sefyllfa ar gyfer y cyswllt hanfodol rhwng Ynys Môn a Chaerdydd, byddwch yn gwybod, oherwydd bod contract Highland

Highland Airways contract and the fact that a new contract is being developed through a further tendering process, work is being done, and that the Assembly Government remains committed to maintaining this essential service. We are currently seeking a new airline operator to deliver the service on a short-term basis, and I am sure that a statement will be forthcoming shortly.

On the issue that you raised about Glastir, I am sure that the Minister for Rural Affairs will be aware of feedback from across Wales on the interests of the farming community. I will certainly draw your feedback to her attention.

Regarding cancer services, you will know, Andrew, that our plan to tackle cancer in Wales recognises the particular importance of education, support and ongoing care in the treatment and care of cancer patients. Our national cancer standards lay out the level of care and support that patients can expect to receive in Wales. You have the opportunity to raise this issue with the Minister tomorrow afternoon during her question time.

Jonathan Morgan: Minister, I wish to return to the decision by Cardiff and Vale University Health Board to stop the rebuild of Whitchurch Hospital. I want to return to it because I think that people outside this Chamber, in my constituency and beyond, need to understand the role that the Assembly Government played throughout this entire process. As I understand it, at some point, the Assembly Government would have agreed to the principle of rebuilding Whitchurch Hospital, the Minister for health would have signed off the outline business plan, and she would then have agreed to the full business case. After the Assembly Government gave the go-ahead for the rebuilding of Whitchurch Hospital to proceed—something that was supported by Members of all parties in the Chamber—the health board spent £6 million on the preparatory work. As you know, those plans have now been altered, £6 million has been wasted, and we are no further forward in understanding what has happened—and what will happen—to the provision of acute mental health facilities in my constituency. The Assembly Government

Airways wedi dod i ben a'r ffaith bod contract newydd yn cael ei ddatblygu drwy broses dendro arall, fod gwaith ar y gweill, a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo o hyd i gynnal y gwasanaeth hanfodol hwn. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn chwilio am gwmni awyrennau newydd i gyflwyno'r gwasanaeth am dymor byr, ac yr wyf yn siŵr y bydd datganiad cyn bo hir.

O ran y mater a godasoch ynglŷn â Glastir, yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn ymwybodol o'r sylwadau o bob rhan o Gymru ynglŷn â buddiannau'r gymuned ffermio. Yn sicr, cyflwynaf eich sylwadau chi i'w sylw.

Ynglŷn â gwasanaethau canser, fe wyddoch, Andrew, fod ein cynllun i fynd i'r afael â chanser yng Nghymru'n cydnabod pwysigrwydd arbennig addysg, cymorth a gofalu parhaus o ran trin cleifion canser a gofalu amdanynt. Mae ein safonau canser cenedlaethol yn amlinellu lefel y gofalu a'r chymorth y gall cleifion ddisgwyl ei chael yng Nghymru. Cewch gyfle i godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog brynhawn fory yn ystod y cwestiynau iddi hi.

Jonathan Morgan: Weinidog, hoffwn ddychwelyd at benderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro i atal gwaith ailadeiladu ysbyty'r Eglwys Newydd. Mae arnaf eisiau dod yn ôl ato oherwydd credaf fod ar bobl y tu allan i'r Siambr hon, yn fy etholaeth i a'r tu hwnt, eisiau deall y rôl a chwaraeodd Llywodraeth y Cynulliad drwy gydol yr holl broses hon. Yn ôl a ddeallaf, ar ryw adeg, byddai Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno â'r egwyddor o ailadeiladu Ysbyty'r Eglwys Newydd, byddai'r Gweinidog iechyd wedi cymeradwyo'r cynllun busnes amlinellol, ac wedyn byddai wedi derbyn yr achos busnes llawn. Wedi i Lywodraeth y Cynulliad gytuno y dylid bwrw ati i ailadeiladu Ysbyty'r Eglwys Newydd—rhywbeth a gefnogwyd gan Aelodau pob plaid yn y Siambr—gwariodd y bwrdd iechyd £6 miliwn ar y gwaith paratoi. Fel y gwyddoch, mae'r cynlluniau hynny bellach wedi'u newid, mae £6 miliwn wedi'i wastraffu, ac nid ydym gam pellach ymlaen at ddeall beth sydd wedi digwydd—a beth a wnaiff ddigwydd—i ddarpariaeth cyfleusterau iechyd meddwl aciwt yn fy

has been involved in this process from the start, and at no point has the Minister for health explained to us what it is about the scheme that means that it has to be halted. The Assembly Government needs to explain what has happened. It is important that the Minister for Health and Social Services should come here to make a statement so that people, not only in this Chamber, but in my constituency and the rest of Cardiff, can understand the process more fully. It is not fair of the Assembly Government to wash its hands of the matter and say that it has nothing to do with it; the Government was clearly involved at every stage. It is important that the Minister for health is upfront with me and Members on this side of the Chamber about what the Assembly Government agreed to, and why we are now in this position where £6 million has been wasted.

etholaeth. Bu gan Lywodraeth y Cynulliad ran yn y broses hon o'r cychwyn cyntaf, ac nid yw'r Gweinidog iechyd wedi esbonio inni o gwbl beth yn y cynllun sydd wedi golygu bod yn rhaid ei atal. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad esbonio beth sydd wedi digwydd. Mae'n bwysig i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddod yma i wneud datganiad er mwyn i bobl, nid dim ond yn y Siambr hon, ond yn fy etholaeth i a gweddill Caerdydd, allu deall y broses yn llawnach. Nid yw'n deg i Lywodraeth y Cynulliad ymwrthod â'i chyfrifoldeb am y mater a dweud nad oes a wnelo hi ddim ag ef; yr oedd y Llywodraeth yn amlwg yn rhan o hyn ym mhob cam. Mae'n bwysig i'r Gweinidog iechyd fod yn onest gyda mi ac Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr ynghylch beth y cytunodd Llywodraeth y Cynulliad arno, a pham yr ydym bellach yn y sefyllfa hon lle y mae £6 miliwn wedi'i wastraffu.

2.40 p.m.

Jane Hutt: I advise you to bring this matter to the Minister for Health and Social Services in her question time tomorrow afternoon.

Jane Hutt: Fe'ch cynghoraf i ddod â'r mater hwn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod amser y cwestiynau iddi hi brynhawn yfory.

Pwynt o Drefn Point of Order

Andrew R.T. Davies: Point of order. Presiding Officer, I seek your interpretation of Members' roles in public bodies during the general election campaign. I am a relatively new Member of this institution, and this is the first general election since I became a Member. Many public bodies in Wales are accountable to this institution rather than Westminster, via the devolved settlement, such as the Care and Social Services Directorate Wales and similar organisations. Could you give your interpretation of the engagement that these bodies can have with Assembly Members in the legitimate execution of their roles during an election?

Andrew R.T. Davies: Pwynt o drefn. Lywydd, yr wyf yn gofyn am eich dehongliad o rolau Aelodau mewn cyrff cyhoeddus yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol. Yr wyf yn Aelod cymharol newydd o'r sefydliad hwn, a dyma'r etholiad cyffredinol cyntaf ers imi ddod yn Aelod. Mae llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru'n atebol i'r sefydliad hwn yn hytrach nag i San Steffan, drwy'r setliad datganoledig, fel Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru a chyrrff tebyg. A allech roi eich dehongliad o'r ymgysylltiad y gall y cyrff hyn ei gael ag Aelodau'r Cynulliad wrth weithredu eu rolau, a hynny'n gyfreithlon, yn ystod etholiad?

The Presiding Officer: I am happy to do so. The first obvious statement is that there is no election here. I have no direct jurisdiction in the relationships that Members make with public bodies in pursuit of their activities

Y Llywydd: Gwnaf yn llawen. Y datganiad amlwg cyntaf yw nad oes etholiad yma. Nid oes gennyf awdurdodaeth uniongyrchol yn y berthynas sydd rhwng Aelodau a chyrrff cyhoeddus yn rhinwedd eu gweithgareddau y

outside this Chamber, but I expect all those officials who are accountable to Welsh Ministers to be accountable in the normal way to Assembly Members at all times when the Assembly is meeting. The fact that there is an election for the United Kingdom Parliament does not affect the direct day-to-day administration of duties by Welsh Ministers, or the right of Assembly Members to scrutinise them. I am aware of the details in one case, and I will pursue that matter.

Eleanor Burnham: Further to that point of order, I took the opportunity to phone the chief operating manager, who referred a matter in a similar vein that I brought forward involving one of the local authorities in my region of North Wales. I had a conversation with the leader of another council who had taken it on himself to do exactly as you have said, because we are not now being elected. Will you be writing to local authorities to give them your words of wisdom?

The Presiding Officer: I am not in the habit of writing to local authorities, except as a constituency Member. Local authorities would probably tell you that they get too much correspondence from me in that context. If there are issues, I am happy to discuss them through our very close relationship with the Welsh Local Government Association, which I think is the appropriate framework to deal with this matter. As those of you in this Chamber know, I am always keen to ensure that the democratic rights of local authorities and local elected Members are not infringed by any activity here, and the same would apply the other way around in terms of the position of local government in relation to Assembly Members. I think that that deals with the issue.

Datganiad am Adroddiad ar y Cynnydd a Wnaed o ran Ymrwymiadau 'Cymru'n Un' mewn cysylltiad â'r Celfyddydau Statement on Progress Report on 'One Wales' Commitments relating to the Arts

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): Chapter 9 of 'One Wales' sets out the Government's agenda for promoting a rich and diverse culture. It envisages high quality cultural experiences being available to all,

tu allan i'r Siambr hon, ond disgwyliaf i bob swyddog sy'n atebol i Weinidogion Cymru fod yn atebol yn y ffordd arferol i Aelodau'r Cynulliad bob amser pan fydd y Cynulliad yn cyfarfod. Nid yw'r ffaith bod etholiad ar droed i Senedd y Deyrnas Unedig yn effeithio ar weinyddiad beunyddiol uniongyrchol dyletswyddau Gweinidogion Cymru, nac ar hawl Aelodau'r Cynulliad i graffu arnynt. Yr wyf yn ymwybodol o'r manylion mewn un achos, ac af ar drywydd y mater hwnnw.

Eleanor Burnham: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, achubais y cyfle i ffonio'r prif reolwr gweithredu, a gyfeiriodd fater ar drywydd tebyg a gyflwynais ynglŷn ag un o'r awdurdodau lleol yn fy rhanbarth, Gogledd Cymru. Cefais sgwrs ag arweinydd cyngor arall a oedd wedi mynd ati i wneud yn union fel yr ydych wedi dweud, gan nad ydym ni'n cael ein hethol yn awr. A fyddwch yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i roi eich geiriau doeth iddynt?

Y Llywydd: Nid wyf yn arfer ysgrifennu at awdurdodau lleol, ac eithrio fel Aelod etholaeth. Mae'n debyg y dywedai awdurdodau lleol wrthyf eu bod yn cael gormod o ohebiaeth oddi wrthyf yn y cyddestun hwnnw. Os oes cwestiynau, yr wyf yn fodlon eu trafod drwy ein perthynas agos iawn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef y fframwaith priodol yn fy marn i i ddelio â'r mater hwn. Fel y gwyddoch chi sydd yn y Siambr hon, yr wyf bob amser yn awyddus i sicrhau nad yw gweithgarwch yma'n tarfu ar hawliau democrataidd awdurdodau lleol ac Aelodau etholedig lleol, a byddai'r un peth yn wir i'r gwrthwyneb o safbwynt sefyllfa llywodraeth leol mewn perthynas ag Aelodau'r Cynulliad. Credaf fod hynny'n delio â'r mater.

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Mae pennod 9 yn 'Cymru'n Un' yn esbonio agenda'r Llywodraeth ar gyfer hybu diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Mae'n rhagweld darparu profiadau

regardless of domicile or background. By 'experiences', we mean participation in, and attendance at, arts events.

The establishment of a national English-language theatre for Wales was, I remind Members, a 'One Wales' commitment. The company has put the spotlight on Wales in a way that can only enhance our reputation as a place where culture matters.

I am delighted with this promising beginning. Some Assembly Members would have liked the new company to have a theatre building in their constituency. The decision has been that National Theatre Wales will exist without a production house. Instead, it will collaborate with existing theatre companies. In the first year, that includes the Welsh National Opera and the Sherman, Torch and Riverfront theatres. I am pleased with this collaborative spirit. We already had a successful national theatre, Theatr Genedlaethol Cymru, as well as the much-praised Clwyd Theatr Cymru.

The Sherman theatre has begun to modernise its premises. As with the Chapter Arts Centre, the Sherman is vigorously fund raising for this project, although the Arts Council of Wales has been able to provide support. It is good news that, notwithstanding the diversion of lottery resources to the Olympic Games, capital investment in key strategic projects continues. I recently visited the Glynn Vivian Art Gallery to hear about its redevelopment that will make use of an allocation from the strategic capital investment fund.

Mae buddsoddi yn y celfyddydau yn helpu gyda'r newid trawiadol sydd ar y gweill yn y maes yng Nghymru. Gallaf dynnu eich sylw, er enghraifft, at y gwaith o ailddatblygu Canolfan Gelfyddydau'r Chapter yng Nghaerdydd, Galeri yng Nghaernarfon, canolfan grefft drawiadol Rhuthun ac Oriol Mostyn yn Llandudno, heb sôn am safleoedd llai o faint fel Theatr Twm o'r Nant yn Ninbych. Yr wyf yn parhau i lywio'r broses o roi adolygiad celfyddydau Cymru Elan Closs

diwylliannol o safon uchel i bawb, ni waeth ymhle y maent yn byw na beth yw eu cefndir. Wrth sôn am 'brofiadau', yr ydym yn golygu cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a mynd iddynt.

Atgoffaf yr Aelodau fod sefydlu theatr genedlaethol Saesneg ei hiaith i Gymru yn un o ymrwmiadau 'Cymru'n Un'. Mae'r cwmni wedi hoelio sylw ar Gymru mewn modd sy'n sicr o gryfhau ein henw da fel rhywle lle y mae diwylliant o bwys.

Yr wyf wrth fy modd o weld y cychwyn addawol hwn. Byddai rhai o Aelodau'r Cynulliad wedi hoffi i gwmi newydd gael adeilad theatr yn eu hetholaeth. Penderfynwyd y bydd National Theatre Wales yn bodoli heb ganolfan cynhyrchu. Yn hytrach, bydd yn cydweithredu â chwmnïau theatr sy'n bodoli eisoes. Yn y flwyddyn gyntaf, mae hynny'n cynnwys Opera Cenedlaethol Cymru a theatr y Sherman, theatr Torch a theatr Glan yr Afon. Yr wyf yn falch o'r ysbryd cydweithredol hwn. Yr oedd gennym theatr genedlaethol lwyddiannus eisoes, Theatr Genedlaethol Cymru, yn ogystal â'r cwmni sydd wedi cael cryn glod, Clwyd Theatr Cymru.

Mae theatr y Sherman wedi dechrau moderneiddio'i hadeiladau. Fel sy'n wir am Ganolfan Gelfyddydau'r Chapter, mae'r Sherman wrthi'n frwd yn codi arian ar gyfer y prosiect hwn, er bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gallu bod o gymorth. Mae'n newydd da, er bod adnoddau'r loteri wedi'u troi i felin y Gemau Olympaidd, fod buddsoddi cyfalaf mewn prosiectau strategol allweddol yn parhau. Ymwelais ag Oriol Gelf Glynn Vivian yn ddiweddar i glywed am ei hailddatblygu. Defnyddir dyraniad o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol ar gyfer hynny.

Investment in the arts helps underpin the remarkable transformation that is taking place in the field in Wales. One could cite here the redevelopment of Chapter Arts in Cardiff, of Galeri in Caernarfon, the striking Ruthin craft centre building and Oriol Mostyn in Llandudno, not to mention smaller venues such as Theatr Twm o'r Nant in Denbigh. I continue to steer the implementation of Elan Closs Stephens' Wales arts review. The arts strategy board will meet this June to discuss

Stephens ar waith. Bydd bwrdd strategaeth y celfyddydau yn cyfarfod ym mis Mehefin i drafod y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau yn fyd eang. Wrth reswm, mae rhoi llwyfan byd eang i gynhyrchwyr artistig yn ymrwymiad 'Cymru'n Un', ac fe'i trafodwyd gennym fis Hydref diwethaf yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn.

Yn ddiweddar, yn unol â'n hymrwymiad yn 'Cymru'n Un', ystyriais a ddylid sefydlu'r syniad o ryddid artistig yng nghyfraith Cymru. Ar hyn o bryd, credaf na ddylem ddatblygu deddfwriaeth i Gymru a fyddai'n ddiangen yng nghyd-destun y fframwaith cyfreithiol cynhwysfawr presennol. Galwodd adolygiad Stephens ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi ei hymrwymiad i ryddid artistig, ac yr wyf yn fwy na bodlon gwneud hynny heddiw.

Yr wyf yn parhau i oruchwylio gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru o ddatblygu a chyflenwi polisi ar gyfer y celfyddydau. Yr wyf wedi gofyn iddo gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i fodel cyllid refeniw presennol, a chyn bo hir bydd bwrdd y cyngor yn penderfynu pa fudiadau fydd yn derbyn cyllid refeniw yn 2011-12. Mae'r adolygiad wedi bod yn orchwyl mawr i'r cyngor, a'r bwriad yw y bydd yn arwain at bortffolio o fudiadau sy'n derbyn cymorth grant ac sy'n ariannol gynaliadwy, ac a fydd yn cynhyrchu celfyddydau o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd lleol a rhyngwladol.

Yn ystod y dirwasgiad, yr her i mi fel y Gweinidog dros Dreftadaeth yw cynrychioli'r celfyddydau mewn ffordd sy'n dwyn perswâd ar eraill bod y celfyddydau'n bwysig. Yr wyf yn gyfrifol am geisio'r setliad gorau posibl i'r celfyddydau, fel eu bod ar gael yn lleol i'r gynulleidfa ehangaf posibl, p'un a ydynt yn gallu talu ai peidio. Mae'n newyddion gwyach i nifer y tocynnau a werthwyd gynyddu o 7.6 y cant y llynedd. Mae ymchwil gan gyngor y celfyddydau'n cadarnhau bod bron i 90 y cant o bobl Cymru yn cytuno y dylai'r celfyddydau gael cyllid cyhoeddus.

Edrychodd adolygiad Stephens ar y rhan y gallai'r celfyddydau ei chwarae wrth ddatblygu polisiau trawsbynciol.

the creative industries and the arts on the world stage. Supporting opportunities for artistic producers on the world stage is, of course, a 'One Wales' commitment and one that we considered during a Plenary debate last autumn.

In line with our 'One Wales' commitment, I have recently considered the question of enshrining the concept of artistic freedom in Welsh law. I have taken the view that we should not, at this stage, pursue the development of Welsh legislation, which would be superfluous in the context of an existing comprehensive legal framework. The Stephens review called on the Welsh Assembly Government to make public its commitment to artistic freedom. I am happy to do that today.

I continue to oversee the work of the Arts Council of Wales on the development and delivery of policy for the arts. I have asked it to conduct a root-and-branch review of its current revenue funding model and the board of the arts council will be taking decisions shortly about the organisations that will receive revenue funding in 2011-12. The review has been a major piece of work for the council and is intended to lead to a portfolio of grant-aided, financially sustainable organisations that will produce high-quality arts for both local and international audiences.

The challenge for me, as Minister for Heritage, is to make the case for the arts during the recession in a way that convinces others that the arts matter. My job is to seek the best possible settlement for the arts, so that, regardless of ability to pay, the arts are available, close to home, to the widest possible audience. It is great news that there was a 7.6 per cent increase in ticket sales last year. Arts council research confirms that almost 90 per cent of the people of Wales agree that it is right that there is public funding of the arts.

The Stephens review looked at the role the arts could play in the development of cross-cutting policies. It recommended that the Arts

Argymhellodd y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru fod yn fwy effeithiol fel asiantaeth i ddatblygu'r celfyddydau. Mae'r cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid Ewropeaidd gwerth £5 miliwn ar gyfer y rhaglen Cyrraedd y Nod, sy'n ymdrin â phobl ifanc heb y sgiliau angenrheidiol i ganfod gwaith neu gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Yr ydym hefyd yn cydweithio gyda llywodraeth leol, a hynny nid yn unig drwy'r ddyletswydd statudol. Yr ydym ni a chyngor y celfyddydau hefyd yn rhan o bartneriaeth Arts Connect yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r mudiad hwn wrthi'n ffurfio partneriaeth arloesol sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Mae cymunedau lleol yn bwysig, ac mae'n hanfodol rhoi'r cyfle i bobl Cymru wyllo neu gymryd rhan yn y celfyddydau ble bynnag maent yn byw.

2.50 p.m.

Drwy osod sylfeini cadarn yma yng Nghymru, yr ydym hefyd yn sicrhau fod gennym gelfyddydau uchel eu hansawdd i'w harddangos dramor fel rhan o'n gwaith i hyrwyddo ein henw da yn rhyngwladol.

Yr wyf yn hynod falch, felly, o fod yn chwarae fy rhan yn llwyddiant y Llywodraeth i gyflawni ymrwymadau 'Cymru'n Un' ar gyfer y celfyddydau, ac o gydnabod rhan fy rhagflaenwyr yn y broses hon. Mae'r parch hwn tuag at y celfyddydau wedi'i feithrin gan nifer o Weinidogion blaenorol dros ddiwylliant, ac mae'n deillio o fisoedd a blynyddoedd cyntaf y Cynulliad. Un o'r rhesymau i mi a'm rhagflaenwyr wneud hyn yw am fod y celfyddydau—fel y dywedodd yr Athro Hargreaves yn ddiweddar—wrth galon yr economi. Ar hyn o bryd, mae dros 6,500 o bobl wedi'u cyflogi gan ein portffolio o fudiadau sy'n derbyn cyllid referniw. Amcangyfrifir fod y diwydiannau creadigol yng Nghymru'n cyflogi hyd at 30,000 o bobl. Mae buddsoddiad cyfalaf yn arwain at greu swyddi newydd ledled Cymru, er enghraifft yn Aberystwyth, lle cafodd 80 o swyddi newydd eu creu yn sgîl ymestyn canolfan y celfyddydau.

Our artists and artistic premises are award winners. They are also leveraging in funding from elsewhere; for example, the Welsh

Council of Wales should become a more effective arts development agency. The council has been successful in securing £5 million in European funding for the Reach the Heights programme, which tackles the issue of young people lacking the necessary skills to find work or education and training opportunities.

We are also working with local government, and not only via the statutory duty. With the arts council, we are part of the Arts Connect partnership in south-east Wales. That body is preparing an innovative partnership crossing local authority boundaries. Local communities matter and it is essential that we provide arts for the people of Wales to watch or participate in, wherever they live.

By laying excellent foundations here in Wales, we also ensure that we have high-quality arts to take abroad as part of our work to promote our reputation overseas.

I am exceptionally proud, therefore, to be playing my own part in achieving the Government's 'One Wales' commitments on the arts, as well as acknowledging the role of my predecessors. This respect for the arts has been nurtured by successive culture Ministers and goes back to the earliest months and years of the Welsh Assembly. My predecessors and I have done this in part because the arts—as Professor Hargreaves has recently stated—are at the heart of the economy. At present, over 6,500 people are employed by the current portfolio of revenue-funded organisations. It is estimated that the creative industries in Wales account for up to 30,000 jobs. Capital investment is resulting in new jobs being created across Wales, for example in Aberystwyth, where the arts centre's expansion has generated 80 new posts.

Mae ein hartistiaid a'n hadeiladau artistig wedi ennill gwobrau. Maent hefyd yn denu arian o fannau eraill; er enghraifft mae Opera

National Opera receives support from the Arts Council of England. Our arts are bringing in audiences: over the past 3 years, attendances have increased year on year to record levels. The Wales Millennium Centre, for example, in 2009—its fifth anniversary year—generated a total audience of over 370,000. It was its most successful year ever. The birthday celebrations in November were highly successful and included a memorable concert of Karl Jenkins's music, conducted by the composer himself. I had the privilege of attending.

I am grateful to have had this opportunity to update Assembly Members on the Government's progress against its 'One Wales' commitments for the arts.

Nick Ramsay: I welcome the statement on the arts by the Minister for Heritage. I agree with the opening paragraph of the statement that says that the 'One Wales' agreement sets out the agenda for promoting a rich and diverse culture. I think that there are very few people here who would disagree with that noble sentiment, but the question is whether that is being achieved. With your permission, Presiding Officer, I would like to ask a few questions further to that in the context of the statement.

You mentioned, Minister, the National Lottery, and the availability of its funds during the recession. We are in a difficult economic situation, both nationally and within Wales itself, and, as you said, that will have implications for the arts. What discussions have you had with your ministerial colleagues and representatives of the National Lottery about Wales's share of the funds? Are you confident that the amount of lottery funding that comes to Wales for arts projects is adequate?

You mentioned the notion of artistic freedom, and from what I heard, you seem willing on behalf of your Government to acknowledge the need to protect that. However, you stopped short of seeking to legislate for that and to enshrine that principle in law. I hope that we would all agree that artistic freedom

Cenedlaethol Cymru yn cael cymorth gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Mae ein celfyddydau'n denu cynulleidfaoedd; dros y 3 blynedd diwethaf, mae'r niferoedd wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall nes cyraedd lefelau uwch nag erioed. Denodd Canolfan Mileniwm Cymru, er enghraifft, yn 2009—yn ei phumed flwyddyn—gynulleidfa o dros 370,000 i gyd. Dyna'i blwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed. Yr oedd y dathliadau pen-blwydd ym mis Tachwedd yn llwyddiannus iawn, gan gynnwys cyngerdd cofiadwy o gerddoriaeth Karl Jenkins, a'r cyfansoddwr ei hun yn arwain. Cefais y fraint o fod yno.

Yr wyf yn ddiolchgar imi gael y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad am gynnydd y Llywodraeth o ran ei hymrwymiaidau i'r celfyddydau yn 'Cymru'n Un'.

Nick Ramsay: Yr wyf yn croesawu'r datganiad am y celfyddydau gan y Gweinidog dros Dreftadaeth. Cytnaf â pharagraff agoriadol y datganiad sy'n dweud bod cytundeb 'Cymru'n Un' yn gosod yr agenda ar gyfer hybu diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Credaf mai ychydig iawn o bobl yma a fyddai'n anghytuno â'r nod clodwiw hwnnw, ond tybed a yw hynny'n cael ei gyflawni? Gyda'ch caniatâd, Lywydd, hoffwn ofyn ambell gwestiwn ynglŷn â hynny yng nghyd-destun y datganiad.

Weinidog, soniasoch am y Loteri Genedlaethol, a'r cronfeydd sydd ar gael ganddi yn ystod y dirwasgiad. Mae'n sefyllfa economaidd anodd, yn genedlaethol ac yng Nghymru ei hun, ac, fel y dywedaso, bydd goblygiadau i'r celfyddydau yn sgîl hynny. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'ch cyd-Weinidogion a chyda chynrychiolwyr y Loteri Genedlaethol ynglŷn â chyfran Cymru o'r cronfeydd? A ydych yn ffyddiog bod yr arian loteri a ddaw i Gymru ar gyfer prosiectau celfyddydol yn ddigonol?

Soniasoch am ryddid artistig, ac yn ôl yr hyn a glywais, yr ydych yn barod, i bob golwg, ar ran eich Llywodraeth, i gydnabod bod angen gwarchod hynny. Fodd bynnag, nid aethoch cyn belled â cheisio deddfu ar gyfer hynny a chynnwys yr egwyddor honno mewn deddfwriaeth. Yr wyf yn gobeithio y byddem

is an important principle, and I am curious as to why you say that legislation in this regard would not be helpful—I think that the expression that you used was that it would be ‘superfluous’ in the existing legal framework. Could you explain that in a little more detail, in either Welsh or English, but in a clearer way than that?

You mentioned the Arts Council of Wales, and the suggestion, from the Stephens review, that perhaps we should look at it as an arts development council, in the same way that we had a Welsh Development Agency. I am reminded of the former Minister, Alun Pugh, who at one point suggested bringing the arts council in-house. I would be interested to hear your further thoughts on how the arts council might become more of a development council. That is an interesting idea. My party is committed to the non-politicisation of the arts and an arm’s-length approach. I wonder whether you agree with that sentiment. Do you feel that the Stephens review supports that idea?

A further question is the issue of stability in funding. I think that, again, we would all agree that a certain level of stability is required for the arts. I am not entirely sure that that has been there until now. I would like to hear your comments on how you think stability can be achieved, particularly given the fact that there is not the same degree of public funding across all sectors of the arts at this time.

You mentioned the strategic capital investment fund, which is something that I have often referred to as something of a TARDIS of the finance brief. It seems to fund a wealth of projects. There is always money coming out of the SCIF for different projects and different Assembly portfolios. Museums and performance venues have the ability to build up endowments. Perhaps the Arts Council of Wales could have a role in encouraging endowments so that we would see more finance coming from that aspect of the arts, rather than relying on limited funding from this place.

i gyd yn cytuno bod rhyddid artistig yn egwyddor bwysig, a hoffwn glywed pam yr ydych yn dweud na fyddai deddfu’n gymorth yn y cyswllt hwn—credaf mai’r ymadrodd a ddefnyddiwyd gennych oedd y byddai’n ‘ddiangen’ yn y fframwaith cyfreithiol presennol. A allech esbonio hynny ychydig yn fwy manwl, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, ond mewn ffordd eglurach na hynny?

Soniasoch am Gyngor Celfyddydau Cymru, a’r awgrym, yn adolygiad Stephens, y dylem efallai ei ystyried yn gyngor ar gyfer datblygu’r celfyddydau, yn yr un ffordd ag yr oedd gennym Awdurdod Datblygu Cymru. Yr wyf yn cofio am y cyn weinidog, Alun Pugh, yn awgrymu ryw dro y dylid dod â chyngor y celfyddydau o dan adain y Llywodraeth. Byddai’n dda gennyf glywed mwy gennych am sut y gallai cyngor y celfyddydau ddod yn fwy o gyngor datblygu. Mae hwnnw’n syniad diddorol. Mae fy mhlaid wedi ymrwymo i sicrhau nad yw’r celfyddydau’n cael eu troi’n rhywbeth gwleidyddol ac am eu gweld yn cael eu cadw hyd braich. Tybed a ydych yn cytuno â hynny. A ydych yn teimlo bod adolygiad Stephens yn cefnogi’r syniad hwnnw?

Cwestiwn arall yw sefydlogrwydd yr ariannu. Credaf y byddem i gyd, unwaith eto, yn cytuno bod angen rhywfaint o sefydlogrwydd ar gyfer y celfyddydau. Nid wyf yn gwbl sicr bod hynny wedi bodoli hyd yn hyn. Hoffwn glywed eich sylwadau ynglŷn â sut y tybiwch y gellid sicrhau sefydlogrwydd, yn enwedig o gofio nad yw’r un lefel o ariannu cyhoeddus ar gael ar draws pob un o sectorau’r celfyddydau ar hyn o bryd.

Soniasoch am y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Yr wyf yn aml wedi galw hon yn TARDIS o gronfa o fewn y briff cyllid. I bob golwg, mae’n ariannu lluo o brosiectau. Mae arian yn dod o’r gronfa hon byth a beunydd ar gyfer gwahanol brosiectau a gwahanol bortffolios y Cynulliad. Mae amgueddfeydd a lleoliadau perfformio’n gallu datblygu gwaddolion. Efallai y gallai Cyngor Celfyddydau Cymru gyfrannu drwy hybu gwaddolion, er mwyn inni weld mwy o arian yn dod o’r agwedd honno ar y celfyddydau, yn hytrach na dibynnu ar arian prin gan y lle hwn.

To conclude, I hope that we can see public money being used to encourage artistic expression. As with other areas of financing, it is not enough simply to throw money at things and hope that they work. We have to set up bodies and support them in a way that means that they are capable of supporting artistic expression and generating more money than has been the case in the past. Finally, you mentioned Hargreaves and his work in this area. I note that, back in 2004, Hargreaves was not entirely complimentary about the Assembly Government's strategy. I know that that was prior to the existing coalition agreement, but Hargreaves said that there had been a failure to establish a sufficiently coherent approach to the creative sector in Wales for a significant length of time. Do you feel that you are addressing that adequately? If not, how do you as the Minister propose that we, as an Assembly, and your Assembly Government can do more in this area to ensure that the efforts of individual businesses are supported by Government and not directed by it, so that the artistic sector in Wales flourishes in the way that we would all like to see?

Alun Ffred Jones: I will try to address most of your points. You mentioned the lottery fund, and you asked whether the level of funding was adequate. Of course, we could always do with more, and the fact that some of the funds have been siphoned off for the Olympic Games has had an effect. However, Wales is certainly getting its fair share in percentage terms. Due to the fact that ticket sales have borne up very well, more money is available than was originally envisaged, which is good news for everybody. However, it has not made up the shortfall, of course.

With regard to artistic freedom, having looked at the case, we could not find any firm evidence to prove that we needed to put this into legislation. That is why we have not taken that route. With regard to the arts council being a strategic body or a development body, I certainly believe in the arm's-length approach, but there must be close interaction between Government and the arts council. It cannot be otherwise,

I gloi, yr wyf yn gobeithio y gallwn weld arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i hybu mynegiant artistig. Fel sy'n wir am feysydd ariannu eraill, nid yw'n ddigon taflu arian yn unig at bethau a gobeithio y byddant yn gweithio. Rhaid inni sefydlu cyrff a'u cefnogi mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn gallu cefnogi mynegiant artistig a chynhyrchu mwy o arian nag sydd wedi bod yn wir yn y gorffennol. Yn olaf, soniasoch am Hargreaves a'i waith yn y maes hwn. Yr wyf yn sylwi nad oedd Hargreaves, yn 2004, yn hael ei ganmoliaeth i strategaeth Llywodraeth y Cynulliad. Gwn fod hynny cyn cytundeb y glymblaid bresennol, ond dywedodd Hargreaves na lwyddwyd ers cryn amser i sefydlu ymagwedd ddigon cydlynol at y sector creadigol yng Nghymru. A ydych yn teimlo'ch bod yn mynd i'r afael yn ddigonol â hynny? Os nad ydych, sut yr ydych chi fel y Gweinidog yn awgrymu y gallwn ni, y Cynulliad, a'ch Llywodraeth chi, wneud rhagor yn y maes hwn i sicrhau bod ymdrechion busnesau unigol yn cael cymorth gan y Llywodraeth yn hytrach na'u bod yn cael eu cyfarwyddo ganddi, er mwyn i sector y celfyddydau yng Nghymru ffynnu fel y byddem i gyd yn dymuno iddo wneud?

Alun Ffred Jones: Ceisiaf ymateb i'r rhan fwyaf o'ch pwyntiau. Soniasoch am gronfa'r loteri, gan ofyn a oedd lefel yr ariannu'n ddigonol. Wrth gwrs, byddem bob amser yn falch o gael rhagor, ac mae'r ffaith bod rhywfaint o'r arian wedi'i droi i felin y Gemau Olympaidd wedi cael effaith. Serch hynny, mae Cymru'n sicr yn cael ei chyfran deg o ran canran. Oherwydd bod gwerthiant y tocynnau wedi dal ei dir yn dda, mae rhagor o arian ar gael nag a ragwelwyd yn wreiddiol, sy'n newydd da i bawb. Fodd bynnag, wrth gwrs, nid yw wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y diffyg.

O ran rhyddid artistig, ar ôl edrych ar y ddadl, ni allem ganfod dim tystiolaeth gadarn i brofi bod angen inni gynnwys hyn mewn deddfwriaeth. Dyna pam nad ydym wedi dilyn y trywydd hwnnw. O ran a yw cyngor y celfyddydau'n gorff strategol ynteu'n gorff datblygu, yr wyf fi'n sicr o blaid yr ymagwedd hyd braich, ond rhaid cael rhyngweithio clòs rhwng y Llywodraeth a chyngor y celfyddydau. Rhaid i hynny

because we are the funders and the democratically elected body that represents the people. So, there should be close interaction and a close relationship, and that is the case. However, the individual decisions are down to the arts council itself.

You mentioned the issue of the stability of funding at a time when public money is becoming much tighter. That is why the arts council is conducting the current review. It will not be bloodless; it will be painful—I have no doubt about that.

3.00 p.m.

However, there should be a sustainable portfolio of companies at the end, which is what we are aiming for. As you mentioned, the problem with companies looking elsewhere for funding, from endowments, for example, is that many of the trusts that supported artistic activity in the past have found themselves getting very poor returns, and therefore that source of money is also drying up. These are challenging times. Everyone will have to maximise their efforts to get funding from alternative sources, but that will not be easy.

On Hargreaves, all that I can say is that, to be fair, he said that the Government at the time did adopt the right approach and policy but that there were weaknesses in carrying out the policy. We hope to address that by following his recommendations, as we are doing.

Lorraine Barrett: Thank you for the statement, Minister. An important part of the arts landscape in Wales is just across the road: Craft in the Bay, home to the Makers Guild in Wales. We have makers there from across Wales. As the newly elected chair of the trustees, I invite you to come over to see an exhibition at some point. As you probably know, Craft in the Bay was constructed during the time of the Cardiff Bay Development Corporation using the old D shed, which is a grade II listed maritime warehouse. In fact, it is the last remaining mid-nineteenth century building in Cardiff

ddigwydd, oherwydd ni yw'r arianwyr a'r corff a etholwyd yn ddemocrataidd sy'n cynrychioli'r bobl. Felly, dylid cael rhyngweithio a pherthynas glòs, a dyna sut y mae pethau. Fodd bynnag, cyngor y celfyddydau ei hun fydd yn gwneud y penderfyniadau unigol.

Soniasoch am sefydlogrwydd yr ariannu, a hithau'n adeg pan yw arian cyhoeddus yn prinhaus'n sylweddol. Dyna pam mae cyngor y celfyddydau'n cynnal yr adolygiad presennol. Bydd yn broses waedlyd; bydd yn boenus—nid oes gennyf amheuaeth ynglŷn â hynny.

Fodd bynnag, dylai fod gennym bortffolio cynaliadwy o gwmnïau yn y pen draw, a dyna'r nod. Fel y soniasoch, problem cwmnïau'n chwilio am arian mewn mannau eraill, drwy waddolion, er enghraifft, yw bod llawer o'r ymddiriedolaethau sydd wedi cefnogi gweithgarwch artistig yn y gorffennol heb wneud yn dda o gwbl yn sgîl hynny, ac felly, mae'r ffynhonnell ariannol honno'n sychu hefyd. Mae'n gyfnod anodd. Bydd yn rhaid i bawb wneud ei orau glas i gael arian o ffynonellau amgen, ond ni fydd hynny'n hawdd.

O ran Hargreaves, y cyfan y gallaf ei ddweud yw iddo ddweud, a bod yn deg, fod y Llywodraeth ar y pryd wedi mabwysiadu'r ymagwedd a'r polisi iawn ond bod gwendidau o ran gwireddu'r polisi hwnnw. Yr ydym yn gobeithio mynd i'r afael â hynny drwy ddilyn ei argymhellion, ac yr ydym yn gwneud hynny.

Lorraine Barrett: Diolch ichi am y datganiad, Weinidog. Mae rhan bwysig o dirwedd y celfyddydau yng Nghymru i'w gweld gyferbyn â ni: Crefft yn y Bae, cartref Urdd Gwneuthurwyr Cymru. Mae gwneuthurwyr yno o bob rhan o Gymru. A minnau newydd fy ethol yn gadeirydd yr ymddiriedolwyr, fe'ch gwahoddaf draw i weld arddangosfa rywbryd. Fel y gwyddoch, mae'n debyg, adeiladwyd Crefft yn y Bae adeg Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, gan ddefnyddio'r hen gwt D, sef warws morwrol rhestredig gradd II. A dweud y gwir, dyna'r adeilad olaf o ganol y bedwaredd

bay. At the time, Craft in the Bay had no choice, as it was a matter of saving itself by using the D shed or not getting the money. The D shed needs regular maintenance, which is costly. We are grateful for the funding from the arts council generally for the work that goes on there, although that money has decreased over time. We could not get financial help from Cadw this year to maintain the D shed, which needs painting and the metal part needs to be cleaned. Will you look into this particular issue, because the buildings that house the arts and cultural activities in Wales are important? This is a particularly important building and yet we could not get any help from public funds. I do not know whether you would be prepared to sit down with me at some point and go through the issue, Minister, because although I know that you do not give out the funds from Cadw any support that you could give us would be gratefully received.

Alun Ffred Jones: As you quite rightly point out, I do not dish out the grants personally, but I would be more than happy to discuss the issue with you. I am sure that there are alternative possibilities that we could explore.

Eleanor Burnham: Croesawaf y cyfle i archwilio a chwestiynu'r Gweinidog am y datganiad hwn, ac yr wyf yn ddiolchgar iddo amdano. Yr wyf yn cydnabod ei ymrwymiad personol i'w bortffolio sydd, yn y fy marn i, yn hollbwysig ac yn allweddol.

Hoffwn grybwyll arian y loteri. Yn anffodus, mae'r pafiliwn yng Nghorwen mewn sefyllfa fregus. Hwn oedd y pafiliwn cyntaf o'i fath yn y 1920au, felly yr wyf yn annog y Gweinidog i wneud unrhyw beth sy'n bosibl i'w helpu. Mae cynllun ar y gweill gan berson profiadol lleol i'w ailadeiladu dros dro, felly yr ydym yn croesi ein bysedd ac yn gobeithio yr aiff pethau'n dda. Byddwn yn ddiolchgar dros ben pe bai'r Gweinidog yn gallu gwneud unrhyw beth i helpu.

We are all familiar with the issue of the lack of lottery funding. Before I forget, I want to ask when exactly Wales might get improved access to lottery funding, which has gone

ganrif ar bymtheg sydd ar ôl ym mae Caerdydd. Ar y pryd, nid oedd gan Crefft yn y Bae ddewis, oherwydd naill ai yr oedd yn rhaid iddo'i achub ei hun drwy ddefnyddio cwt D neu ni fyddai'n cael yr arian. Mae angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar gwt D, sy'n gostus. Yr ydym yn ddiolchgar am yr arian gan gyngor y celfyddydau'n gyffredinol ar gyfer y gwaith sy'n mynd rhagddo yno, er bod yr arian hwnnw wedi crebachu wrth i amser fynd heibio. Ni allem gael cymorth ariannol gan Cadw eleni i gynnal cwt D. Mae angen paentio'r lle a glanhau'r rhan fetel. A wnewch edrych ar y mater arbennig hwn, oherwydd y mae'r adeiladau sy'n gartref i'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yng Nghymru'n bwysig? Mae'r adeilad hwn yn arbennig o bwysig ac eto ni allem gael cymorth o gwbl gan gronfeydd cyhoeddus. Ni wn a fyddech yn barod i eistedd i lawr gyda mi rywbryd a thrafod y mater, Weinidog, oherwydd er fy mod yn gwybod nad chi sy'n rhannu arian Cadw, byddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw gefnogaeth y gallech ei rhoi inni.

Alun Ffred Jones: Yr ydych yn llygad eich lle'n dweud nad fi sy'n rhannu'r grantiau'n bersonol, ond byddwn yn fwy na bodlon trafod y mater gyda chi. Yr wyf yn siŵr bod posibiliadau eraill y gallem eu hystyried.

Eleanor Burnham: I welcome the opportunity to scrutinise and question the Minister about this statement, and I am grateful to him for it. I acknowledge his personal commitment to his portfolio, which, in my opinion, is a crucial one and is key.

I want to raise the issue of lottery funding. Unfortunately, the pavilion in Corwen is in a fragile state. It was the first pavilion of its kind to be built in the 1920s, and so I urge the Minister to do whatever he can to help. A scheme is in the pipeline by an experienced local person to rebuild it temporarily, and so we are crossing our fingers and hoping that things go well. I would be extremely grateful for anything that the Minister could do to help.

Yr ydym i gyd yn gyfarwydd â diffyg arian gan y loteri. Cyn imi anghofio, yr wyf am ofyn pryd yn union y gall Cymru ddisgwyl cael gafael ar fwy o arian y loteri, sydd wedi

predominantly to the London Olympics in recent times, as the Minister mentioned. We are all waiting with bated breath. So many small community projects across my region of North Wales have had to fall by the wayside, which is tragic.

I also wish to ask a question about the arts strategy board, which was set up following the Stephens review. I see that the frequency of its meetings has not been great. What impact, if any, has the cancellation of the last meeting had on the effectiveness of the board? I am interested in the issue of the statutory duty on local authorities to promote culture being included in the draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Culture and Other Fields) Order 2010. When will funds be made available for local authorities to fully implement the scheme, bearing in mind that we all understand that every area of Wales will be subject to huge pressures? What incentives or sanctions will be applied to ensure that local authorities fulfil these duties?

I am interested in why you considered that it was not necessary to enshrine artistic freedom in Welsh law, as others have asked. As you have not considered it necessary, when might you review your decision? Apart from that, after the success—it is hoped—of the London Olympic Games, we look forward to being able to access a little more money in Wales. I fear that many community projects across my region of North Wales and in other parts of Wales will continue to be strapped for cash for some time. I am hoping for some optimism in answer to those varied questions.

Alun Ffred Jones: Parthed pafiliwn Corwen—ac mae gennyf atgofion melys iawn ohono o ddyddiau fy ieuenctid—bydd yn rhaid i unrhyw gynllun fod yn gynaliadwy a chael ei weld yn rhan o rwydwaith o ganolfannau. Dymunaf yn dda i'r sawl sy'n ymwneud â hynny.

O ran arian y loteri, yr ydym yn gobeithio y bydd yr arian hwnnw ar gael eto ar ôl y Gemau Olympaidd yn 2012. Mae Pwyllgor

mynd yn bennaf at y Gemau Olympaidd yn Llundain yn ddiweddar, fel y crybwyllodd y Gweinidog. Yr ydym i gyd yn dal ein gwynt. Bu'n rhaid rhoi'r gorau i gynifer o brosiectau cymunedol bach ym mhob cwr o'm rhanbarth, sef Gogledd Cymru, ac mae hynny'n bechod mawr.

Hoffwn ofyn cwestiwn hefyd am fwrdd strategaeth y celfyddydau, a sefydlwyd ar ôl adolygiad Stephens. Gwelaf nad yw wedi cyfarfod yn aml iawn. Pa ddylanwad, os cafodd ddylanwad o gwbl, y mae canslo'r cyfarfod diwethaf wedi'i gael ar effeithiolrwydd y bwrdd? Mae gennyf ddiddordeb mewn cynnwys y ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i hybu diwylliant yng Ngorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwylliant a Meysydd Eraill) 2010. Pryd y bydd arian ar gael i awdurdodau lleol roi'r cynllun ar waith yn llwyr, gan gofio ein bod i gyd yn deall y bydd pob ardal yng Nghymru'n dod o dan bwysau enfawr? Pa gymhellion neu sancsiynau a roddir ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni'r dyletswyddau hyn?

Hoffwn innau hefyd wybod pam yr oeddech yn meddwl nad oedd angen cynnwys rhyddid artistig yng nghyfraith Cymru. Gan nad ydych wedi'i ystyried yn angenrheidiol, pryd y byddwch o bosibl yn adolygu'ch penderfyniad? Ar wahân i hynny, ar ôl llwyddiant—gobeithio—Gemau Olympaidd Llundain, edrychwn ymlaen at allu cael gafael ar ychydig mwy o arian yng Nghymru. Mae arnaf ofn y bydd llawer o brosiectau cymunedol ledled fy rhanbarth, Gogledd Cymru, ac mewn rhannau eraill o Gymru'n dal yn brin o arian am gryn amser. Yr wyf yn gobeithio clywed rhywfaint o atebion gobeithiol i'r cwestiynau amrywiol hynny.

Alun Ffred Jones: Regarding the pavilion at Corwen—and I have very fond memories of the pavilion from the days of my youth—any scheme will have to be sustainable and will have to be seen as a part of a network of centres. I wish those involved in that project well.

On the lottery funding, we hope that that funding will become available once again after the Olympic Games in 2012. The

Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd hefyd wedi dweud y bydd yn gwerthu rhai o'r asedau ar ôl y Gemau, a dylai canran o werth yr asedau hynny ddod i Gymru drwy gronfeydd y loteri. Fel y dywedais, mae tocynnau'r loteri yn dal i werthu'n dda iawn ac, oherwydd hynny, mae ychydig mwy o arian ar gael drwy gronfeydd y loteri yn gyffredinol. Mae hynny'n newyddion calonogol.

O ran bwrdd strategol y celfyddydau ac amllder y cyfarfodydd, mae'n cyfarfod yn ôl yr angen. Rhaid inni gofio nad oeddem yn ceisio creu ail Gyngor Celfyddydau Cymru. Felly, nid pwrpas y bwrdd na'i ddyletswydd yw monitro cyngor y celfyddydau, ond rhoi cyfeiriad mwy cyffredinol i ddatblygiad y celfyddydau yng Nghymru.

Y rheswm nad ydym wedi mynd ar ôl cael deddfwriaeth ynghylch ryddid artistig yw nad ydym yn credu bod tystiolaeth o'r angen i wneud hynny ar hyn o bryd. Nid oes achosion wedi codi i beri inni ddilyn y trywydd hwnnw.

O ran y ddyletswydd statudol ddiwylliannol ar lywodraeth leol, mae pawb yn deall y cyddestun ariannol, ac wrth inni lunio'r ddyletswydd honno, rhaid inni fod yn ofalus iawn nad ydym yn gofyn i lywodraeth leol wneud yr amhosibl. Rhaid inni fod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sydd ar bob corff cyhoeddus.

David Lloyd: Croesawaf y datganiad hwn am ymrwymadau Llywodraeth Cymru'n Un mewn perthynas â'r celfyddydau. Yr wyf yn falch o weld yr ystod eang o weithgareddau sy'n mynd rhagddynt ledled Cymru, a llongyfarchaf y Gweinidog ar ei arweiniad yn y maes hwn. Yn ei ddatganiad, mae'n sôn am ei ymweliad i Abertawe—neu 'dinas yr heulwen tragwyddol', fel y mae rhai ohonom yn ei galw—a'i ymweliad i Oriol Glynn Vivian. Weinidog, yn dilyn hynny, a allwch olrhain pwysigrwydd y buddsoddiad yn yr oriel honno yn Abertawe fel modd o hybu'r economi ac adfywio lleol yng nghanol dinas Abertawe?

3.10 p.m.

London Organising Committee of the Olympic Games and Paralympic Games has also stated that it will be selling some of the assets after the Games, and a proportion of the value of those assets should come to Wales via lottery funds. As I said, lottery tickets continue to sell very well and, because of that, there is a little more money available via lottery funding generally. That is encouraging news.

On the strategic board for the arts and the frequency of its meetings, it meets as often as is required. We must remember that we were not trying to create a second Arts Council of Wales. Therefore, it is neither the purpose nor the duty of the board to monitor the arts council, rather to give a more general direction to the development of the arts in Wales.

The reason we have not pursued any legislation on artistic freedom is that we do not believe that there is any evidence of the need to do so at the moment. No such cases have arisen that would cause us to take that option.

On the cultural statutory duty on local authorities, everyone appreciates the financial context currently and, as we formulate that duty, we must be very careful that we do not ask local government to achieve the impossible. We must bear in mind the financial pressures that are on every public body.

David Lloyd: I welcome this statement on the One Wales Government's commitments in relation to the arts. I am pleased to see the wide range of activities taking place throughout Wales, and I congratulate the Minister on his leadership in this context. In his statement, he talks of his visit to Swansea—or 'the city of eternal sunshine', as some of us call it—and his visit to the Glynn Vivian Gallery. Minister, following on from that, could you outline the importance of the investment in that gallery in Swansea as a means of promoting the economy and local regeneration in Swansea city centre?

Alun Ffred Jones: Do, mi fûm yn Oriol Glynn Vivian, a chefais y cyfle i ryfeddu unwaith eto ar gyfoeth casgliad yr oriel a gweld y gwaith da a wneir ac a wnaed yno o safbwynt ei chysylltiad ag ysgolion lleol. Yn sicr, bu ymdrech fawr i wneud yr oriel yn berthnasol i brofiad plant a phobl ifanc yr ardal.

Pwynt pwysig o safbwynt adfywio—ac mae pobl yn sylweddoli hyn yn fwy—yw y dylem gael adnoddau fel Oriol Glynn Vivian, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, ac enghreifftiau eraill ar hyd a lled Cymru, oherwydd maent yn gwella ansawdd bywyd pobl yr ardal honno, ac maent yn gallu rhoi hyder a gwneud ardal yn fwy deniadol i deuluoedd fyw ynddi ac i bobl sefydlu busnesau ynddi. Mae cael adnodd o ansawdd a safon fel Oriol Glynn Vivian yn rhoi hwb ychwanegol i'r datblygiadau eraill yn ardal Abertawe. Mae'r fath ganolfannau yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau o'r newydd i bobl ifanc na fyddent yn eu cael fel arall. Dyna arwyddocâd y datblygiad yn yr oriel honno ac mewn lleoedd tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae enghraifft dda arall yng Nghaernarfon, sef Galeri, lle bu datblygiad diweddar. Mewn adroddiad diweddar gan ymgynghorwyr, profwyd iddi gael effaith gadarnhaol ar agweddau pobl y dref yn ogystal â phobl o'r tu allan am y dref ei hun.

Andrew Davies: I am grateful to you, Minister, for making this statement. Like Dai Lloyd, I am delighted to see that the Assembly Government has given £3.5 million to the Glynn Vivian Gallery, which is a regional centre of excellence. However, I wish to question you about the creative industries review. I am grateful to you and to the Deputy First Minister for appointing Ian Hargreaves to undertake it, and you summarised the conclusions appropriately when you said that the strategy is good—and I am delighted about that because I set it up in 2004—but the issue is with its implementation. Reports are usually crafted in such a way as to address the most trenchant criticisms in fairly ameliorative language. However, my impression was: strategy, good; implementation, poor. I would like an assurance from you and the Deputy

Alun Ffred Jones: Yes, I did visit the Glynn Vivian Gallery, and I had the opportunity to marvel once again at the wealth of the gallery's collection and to see the good work that is being and has been done there on its links with local schools. Certainly, great efforts have been made to make the gallery relevant to the experiences of the children and young people of the area.

An important point on regeneration—and people now realise this more—is that we should have resources such as the Glynn Vivian Gallery, the Aberystwyth Arts Centre, and other examples the length and breadth of Wales, because they improve the quality of life of people in the area, and can give confidence and make an area more attractive for families to live there and for people to set up businesses there. Having a resource of quality such as the Glynn Vivian Gallery gives other developments in the Swansea area a boost. Such centres offer new opportunities and experiences to young people, which they would not otherwise get. That is the significance of the development in that gallery and in similar locations throughout Wales. There is another good example in Caernarfon, in Galeri, which has seen recent developments. In a recent report by consultants, it has been proven that it has had a positive impact on the attitudes of the people of the town, as well as people from outside, about the town itself.

Andrew Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Weinidog, am wneud y datganiad hwn. Yr wyf finnau, fel Dai Lloyd, wrth fy modd o weld bod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi £3.5 miliwn i Oriol Glynn Vivian, sy'n ganolfan rhagoriaeth ranbarthol. Fodd bynnag, yr wyf am eich holi ynglŷn â'r adolygiad o'r diwydiannau creadigol. Yr wyf yn ddiolchgar ichi ac i'r Dirprwy Brif Weinidog am benodi Ian Hargreaves i'w gynnal, a chrynowyd y casgliadau'n briodol gennych wrth ichi ddweud bod y strategaeth yn dda—ac yr wyf yn falch iawn ynglŷn â hynny oherwydd fi a'i sefydlodd yn 2004—ond mai ei rhoi ar waith yw'r broblem. Fel rheol, wrth lunio adroddiadau, ceisir defnyddio ieithwedd garedig wrth gyfleu'r feirniadaeth fwyaf llym. Serch hynny, yr argraff a gefais i oedd: strategaeth, da; gweithredu, gwael. Hoffwn gael sicrwydd

First Minister on how the recommendations by Professor Ian Hargreaves are to be implemented and to what extent, because this is quite a significant criticism of the civil service in delivering the strategy. What assurances can we, as Members, have that the conclusions and recommendations of Ian Hargreaves will be implemented? In addition, to what extent will a sectoral approach, as recommended by him and the economy and transport ministerial advisory group, be adopted to ensure that we make a success of our creative industries in Wales through real sectoral expertise?

Alun Ffred Jones: I will address my remarks to the review. Ian Hargreaves certainly applauded the strategy that was adopted back in 2004, although there is criticism in the report about its implementation and it states that there is certainly room for improvement. You asked for assurances on adopting some of the measures suggested by Professor Hargreaves. That is happening: a creative industries board is being set up and sectoral expertise will be included on that board. It is not easy, but it is important for Government to involve the people in the know who have the relevant expertise at this sort of level, to maximise the impact that this sector can have on jobs and developing skills, and making this part of the world a centre of excellence. Therefore, although this will be led by the Deputy First Minister, we have already had meetings and are fully committed to implementing the main recommendations by Professor Hargreaves as soon as possible.

gennyh chi a'r Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â sut y rhoddir argymhellion yr Athro Ian Hargreaves ar waith ac i ba raddau, oherwydd y mae'r feirniadaeth hon ynglŷn â'r ffordd y mae'r gwasanaeth sifil wedi rhoi'r strategaeth hon ar waith yn feirniadaeth eithaf sylweddol. Pa sicrwydd y gallwn ni'r Aelodau ei gael y rhoddir casgliadau ac argymhellion Ian Hargreaves ar waith? Yn ogystal â hynny, i ba raddau y mabwysiedir yr ymagwedd sectoraidd, sef yr hyn a argymhellwyd ganddo a chan grŵp cynghori'r Gweinidog ar ddatblygu economaidd a thrafnidiaeth, er mwyn sicrhau bod ein diwydiannau creadigol yn llwyddo yng Nghymru drwy gyfrwng arbenigedd sectoraidd go iawn?

Alun Ffred Jones: Canolbwyntiaf ar yr adolygiad yn fy sylwadau. Yr oedd Ian Hargreaves yn sicr yn cymeradwyo'r strategaeth a fabwysiadwyd yn 2004, er bod yr adroddiad yn beirniadu'r ffordd y cafodd ei rhoi ar waith ac yn dweud bod lle i wella'n sicr. Gofynasoch imi am sicrwydd y caiff rhai o'r mesurau a awgrymwyd gan yr Athro Hargreaves eu mabwysiadu. Mae hynny'n digwydd; mae bwrdd diwydiannau creadigol wrthi'n cael ei sefydlu a bydd arbenigedd sectoraidd yn rhan o'r bwrdd hwnnw. Nid yw'n rhwydd, ond mae'n bwysig i'r Llywodraeth gynnwys y bobl sy'n gwybod am y pethau hyn a chanddynt yr arbenigedd perthnasol ar y math hwn o lefel, i sicrhau bod y sector hwn yn gallu cael yr effaith fwyaf posibl ar swyddi ac ar ddatblygu sgiliau, gan wneud y rhan hon o'r byd yn ganolfan rhagoriaeth. Felly, er mai'r Dirprwy Brif Weinidog a fydd yn arwain hyn, yr ydym eisoes wedi cynnal cyfarfodydd ac wedi ymrwymo'n llwyr i roi prif argymhellion yr Athro Hargreaves ar waith cyn gynted ag sy'n bosibl.

Datganiad am y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Statement on the Welsh-medium Education Strategy

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg i'r Cynulliad. Dyma gyflawni ymrwymiad pwysig o raglen 'Cymru'n Un', sef yr ymrwymiad i greu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Leighton Andrews): I have pleasure in presenting to the Assembly the Welsh-medium education strategy. This represents the fulfilment of an important 'One Wales' commitment to create a national Welsh-medium education strategy to develop

genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu.

Am y tro cyntaf, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu ymhellach y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer dysgu'r iaith yn ein system addysg a hyfforddiant.

Hoffwn eich atgoffa o'r camau mae fy adran wedi'u cymryd i gyrraedd y pwynt hwn. Mae sylfaen dystiolaeth gadarn i'r strategaeth sydd wedi'i hegluro'n llawn yn nogfen strategaeth ddrafft 2009. Cafodd y strategaeth ddrafft honno ei llunio ar ôl ymgynghori'n anffurfiol â llawer o bobl, a chafwyd arweiniad gan banel ymgynghorol ar y prif faterion i'w hystyried. Cafwyd dros 150 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2009 oddi wrth ystod eang o randdeiliaid. Ar y cyfan, yr oedd yr ymatebion yn adeiladol iawn a chrosawyd y strategaeth ddrafft fel carreg filltir hanesyddol yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg. Erbyn hyn, mae newidiadau wedi'u gwneud i gynnwys y strategaeth a'r rhaglen weithredu o ganlyniad i'r sylwadau adeiladol a ddaeth o'r ymatebion.

Y dogfennau yr wyf yn eu cyflwyno ichi heddiw yw'r strategaeth a'r rhaglen weithredu fanwl sy'n nodi disgwyliadau nid yn unig Llywodraeth y Cynulliad, ond hefyd ein partneriaid a rhanddeiliaid ym mhob sector ac ym mhob rhan o addysg a hyfforddiant. Er mai Llywodraeth y Cynulliad sy'n gosod y cyfeiriad, yr ydym yn disgwyl i'n partneriaid ymrwymo'n llawn a chydweithio â ni i wella a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru.

Ni fydd yr agenda uchelgeisiol hon yn cael ei chyflawni o fewn ychydig flynyddoedd. Mae'n galw am ddatblygiad tymor canolig a hirdymor i adeiladu ar y fframwaith a'r ddarpariaeth bresennol. Mae ein cynllun monitro yn seiliedig ar hyn drwy bennu targedau pum mlynedd a 10 mlynedd, gyda'r targedau ar gyfer 2020 yn cael eu hadolygu yn 2015. Bydd y cynnydd tuag at y targedau hyn yn cael ei fonitro a'i grynhoi mewn adroddiadau blynyddol a fydd ar gael yn

effective provision from nursery through to further and higher education, backed up by an implementation programme.

For the first time, the Government is issuing a national strategy for further development of Welsh-medium provision and for learning the language in our education and training system.

I would like to remind you of the steps my department has taken to reach this stage. The strategy is based on a firm evidence base, which was set out in the draft strategy document of 2009. That draft strategy was informed by extensive informal consultation, and an advisory panel provided guidance on the main issues to be addressed. The formal public consultation in 2009 drew over 150 responses from a wide range of stakeholders. Overall, the response was very positive and the draft strategy was welcomed as a historic milestone in the development of Welsh-medium education. The contents of the strategy and implementation programme have now been refined in the light of the constructive comments in the consultation responses.

The documents that I present to you today comprise the strategy with a detailed implementation programme setting out the expectations that we will have, not only of the Welsh Assembly Government, but also of our partners and stakeholders in all sectors and phases of education and training. While the Welsh Assembly Government sets the direction, we expect that our partners will commit fully and work with us to improve and develop Welsh-medium and Welsh-language education in all parts of Wales.

This ambitious agenda is not going to be completed in the space of a few years. It requires medium-term to long-term development to build on current infrastructure and provision. Our monitoring reflects this by setting five-year and 10-year targets, with the targets for 2020 to be reviewed in 2015. Progress against these targets will be monitored and summarised in annual reports that will be made available publicly.

gyhoeddus.

Mae'r ffaith fy mod, ar adeg heriol yn ariannol, wedi ymrwymo i gynnal y gyllideb uwch a gynigiwyd gan y Gweinidog blaenorol ar gyfer gweithredu'r strategaeth yn dangos pa mor bwysig yw'r agenda hon imi. Bydd £1.725 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer dechrau gweithredu'r strategaeth yn 2010-11.

The importance that I attach to this agenda is reflected in the fact that, at a time of fiscal challenge, I have made the commitment to retaining the increase in budget for the implementation of this strategy proposed by my predecessor as Minister. An extra £1.725 million will be available for implementing the strategy in 2010-11.

3.20 p.m.

Pa wahaniaeth fydd y strategaeth hon yn ei wneud? Mae addysg cyfrwng Cymraeg mewn sawl ardal wedi datblygu'n raddol ac yn llwyddiannus, ond mewn ffyrdd tameidiog, yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Mae angen cynllunio strategol gwell ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth hon yn cryfhau disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad o ran awdurdodau lleol mewn nifer o ffyrdd. Yn gyntaf, dylai'r broses o asesu'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg gael ei gwella mewn rhai ardaloedd. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol sy'n cynnig dewis rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ddangos sut maent yn bwriadu darparu digon o leoedd priodol i blant y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd disgwyl iddynt ddangos eu bod yn cynnal asesiad cynnar o'r galw ac yn cynllunio ar sail yr asesiad hwn. Byddwn yn eu hannog i ddefnyddio dulliau sydd wedi'u safoni ar gyfer asesu'r galw. Yr ydym hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth fanwl gywir i rieni am natur ieithyddol gwahanol ysgolion.

What difference will this strategy make? Welsh-medium education in many areas has developed gradually and successfully but in piecemeal fashion during the last 50 years. We need improved strategic planning for Welsh-medium provision. This strategy strengthens the Welsh Assembly Government's expectations of local authorities in a number of ways. First, there should be improvement in the processes for assessing parental demand for Welsh-medium education in some areas. We expect local authorities that offer a choice between Welsh-medium and English-medium provision to identify how they will provide sufficient and appropriate places for children whose parents seek Welsh-medium education. They will need to show that they are carrying out early assessment of demand so that they can plan accordingly. We will encourage them to use standardised methods for assessing demand. We also expect local authorities to present accurate information to parents about the linguistic nature of different schools.

Mae'r strategaeth yn hybu cydweithio rhwng awdurdodau lleol ar lefel consortiwm rhanbarthol er mwyn cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n fwriad gennym sefydlu uned cyngor a chymorth i hwyluso gwell cynllunio cyfrwng Cymraeg ar lefel ranbarthol ac awdurdod.

The strategy encourages joint working between local authorities on a regional consortium basis for planning Welsh-medium provision. We intend to set up an advice and support unit to facilitate improved regional and authority Welsh-medium planning.

O ran y cyfnod ôl-14, mae'r strategaeth yn dangos sut i wella'r lefel isel bresennol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach ac yn y sector dysgu seiliedig ar waith. Mae hyn yn cynnwys gwella amrywiaeth ac ystod y cyfleoedd dysgu drwy'r Gymraeg yn y

For the post-14 phase, the strategy sets out how to improve the current low base of Welsh-medium or bilingual provision in further education and the work-based learning sector. This includes improving the range and extent of learning opportunities through the medium of Welsh in the 14-19

cyfnod 14 i 19 oed ac mewn addysg uwch.

Mae dilyniant ieithyddol yn faes arall lle yr ydym yn disgwyl gwelliannau, sef datblygiad parhaus o ran dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf a drwy gyfrwng y Gymraeg o un cyfnod addysg i'r nesaf. Dylai ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr eraill gynllunio'n strategol i hwyluso datblygiad ieithyddol fel bod mwy o bobl ifanc yn dod yn fwy rhugl yn y Gymraeg.

Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys datblygu sgiliau Cymraeg ymhellach drwy ddysgu Cymraeg fel pwnc, yn y cyfnod gorfodol, mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 a hefyd drwy Gymraeg i oedolion. Yn benodol, mae angen gwella safonau addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae adroddiadau Estyn yn dangos bod canlyniadau Cymraeg ail iaith yn parhau i fod yn wael. Mae gan ein pobl ifanc yr hawl i ddisgwyl y byddant yn gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol ar ôl dysgu'r pwnc am 11 mlynedd. Mae gwella'r sefyllfa bresennol yn flaenoriaeth.

Mae ansawdd yr addysgu yn allweddol. Felly, mae hyfforddi a datblygu ymarferwyr o bob math yn y system addysg yn sylfaenol i lwyddiant y strategaeth hon. Mae angen mwy o ymarferwyr arnom ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, gyda sgiliau uchel yn y Gymraeg a'r gallu i addysgu'n effeithiol. Mae angen hyfforddi'r gweithlu i fynd i'r afael ag anghenion penodol y sector cyfrwng Cymraeg o ran sgiliau iaith a sgiliau addysgu drwy'r Gymraeg neu yn ddwyieithog, yn ogystal ag addysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

Mae angen inni gysoni ansawdd y ddarpariaeth a'r hyn sydd ar gael. Er mwyn gwneud hyn, bydd y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn gweithio ochr yn ochr â chynlluniau eraill yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn benodol y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, llwybrau dysgu 14-19 a'r agenda trawsnewid. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys cymorth canolog ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac er mwyn dysgu'r iaith drwy sicrhau bod amrywiaeth ehangach o gymwysterau ac adnoddau addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gael.

phase and in higher education.

Another area where we expect improvements is in linguistic progression, that is, continued progression in learning Welsh first language and through the medium of Welsh from one phase of education to the next. Schools, local authorities and other providers should plan strategically to facilitate linguistic progression so that more young people achieve greater fluency in Welsh.

The strategy also covers the further development of Welsh-language skills through learning Welsh as a subject, in the compulsory phase, in post-16 education and training and also through Welsh for adults. In particular, we need to improve standards in the teaching and learning of Welsh second language. Estyn reports show that Welsh second language remains a poorly performing subject. Our young people have the right to expect that they will be able to speak and use Welsh effectively after learning the subject for 11 years. This is a priority for improvement.

The quality of teaching is key. Hence, practitioner training and development are fundamental to the success of this strategy. We need increased numbers of practitioners for all phases of education and training, with high-quality Welsh-language skills and competence in teaching methodologies. Workforce training needs to address the specific needs of the Welsh-medium sector in terms of language skills and skills for teaching through the medium of Welsh or bilingually or teaching Welsh second language.

We need to reduce variability in the quality and availability of provision. To that end, the Welsh Medium Education Strategy will work alongside other Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills initiatives, in particular the school effectiveness framework, 14-19 learning pathways, and the transformation agenda. The strategy also covers central support for Welsh-medium and Welsh-language provision through ensuring that a wider range of qualifications and high quality teaching and learning resources are made available.

Mae rhan derfynol y strategaeth yn delio â dysgu anffurfiol. Byddwn yn datblygu'r elfen hon ochr yn ochr â'r strategaeth arfaethedig ar y Gymraeg a Mesur arfaethedig y Gweinidog dros Dreftadaeth. Gyda'i gilydd, bydd y strategaethau hyn yn cynnig cyfeiriad a chyd-destun newydd ar gyfer gwireddu amcanion 'Iaith Pawb' yn y blynyddoedd sydd i ddod. Yn olaf, Lywydd, yr oedd y datganiad hwn yn arbrawf mewn dysgu gydol oes.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac am ansawdd ieithyddol ei gyflwyniad.

Paul Davies: First of all, I thank the Minister for his statement today and I very much welcome this strategy. Naturally, I am delighted that the strategy aims to build on the considerable successes of the past. However, I also agree that this strategy is necessary, because some aspects of the Welsh language in education require further attention. I am sure that we are all united in the belief that teaching children to speak Welsh is crucial to creating a truly bilingual Wales. By teaching our children through the medium of Welsh, we are strengthening their academic, economic and educational assets. It is, therefore, crucial that this strategy is delivered in a timely, appropriate and effective manner. I welcome the extra £1.725 million that will be available for implementing the strategy in this financial year. Given that this is a long-term strategy, does the Minister envisage that additional funding will be made available in future financial years to ensure its success?

One of the key aims of this strategy is to ensure that there is a planned, highly skilled Welsh-medium education workforce to meet the demand for provision. Given that financial resources will be under pressure over the next few years, will the Minister tell us what steps he is taking to address the need for more teachers and education professionals able to teach all subjects through the medium of Welsh?

I note that the strategy wants to ensure that

The final part of the strategy deals with informal learning. This will be taken forward alongside the forthcoming strategy on the Welsh language and the proposed Measure of the Minister for Heritage. Together, these strategies will provide a new direction and context for achieving the vision of 'Iaith Pawb' in the years to come. Finally, Presiding Officer, this statement has been an experiment in lifelong learning.

The Presiding Officer: I thank the Minister for his statement and for the linguistic quality of his presentation.

Paul Davies: Yn gyntaf oll, yr wyf am ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw ac yn croesawu'r strategaeth hon yn fawr. Yn naturiol, yr wyf wrth fy modd bod y strategaeth yn ceisio adeiladu ar lwyddiannau sylweddol y gorffennol. Fodd bynnag, cytunaf hefyd fod angen y strategaeth hon, oherwydd bod angen mwy o sylw ar rai agweddau ar y Gymraeg mewn addysg. Yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn cytuno bod dysgu plant i siarad Cymraeg yn hanfodol er mwyn creu Cymru wirioneddol ddwyieithog. Drwy ddysgu ein plant drwy gyfrwng y Gymraeg, yr ydym yn cryfhau eu hasedau academiaidd, economaidd ac addysgol. Felly, mae'n hollbwysig gwireddu'r strategaeth hon yn ddi-oed mewn ffordd briodol ac effeithiol. Yr wyf yn croesawu'r £1.725 miliwn ychwanegol a fydd ar gael i roi'r strategaeth ar waith yn y flwyddyn ariannol hon. O gofio mai strategaeth hirdymor yw hon, a yw'r Gweinidog yn rhagweld y bydd arian ychwanegol ar gael mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei llwyddiant?

Un o nodau allweddol y strategaeth hon yw sicrhau cynllunio ar gyfer gweithlu cyfrwng Cymraeg medrus iawn i ateb y galw am ddarpariaeth. O gofio y bydd adnoddau ariannol dan bwysau yn ystod y blynyddoedd nesaf, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r angen am ragor o athrawon a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg sy'n gallu dysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg?

Sylwaf fod y strategaeth am sicrhau bod

opportunities are available in response to the requirements of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009, approved by the Assembly last year. It is also clear from the strategy that the Welsh Assembly Government wants to ensure that this strategy works alongside the transformation agenda, the school effectiveness framework and the 14-19 learning pathways. Will the Minister explain to us how this new strategy will fit in with the transformation agenda, the school effectiveness framework and with the learning and skills Measure for 14-19 learning pathways, given that, according to the strategy, the range of options in the 14-19 learning pathways programme still needs significant development to meet the requirements of the learning and skills Measure?

We all want to create a truly bilingual Wales, and this new strategy will contribute to that. Creating a global workforce will support that objective. I understand that the strategy aims to contribute to bilingual workplaces by making opportunities to learn Welsh more accessible. It is clear that more and more workplaces are looking for bilingual skills, in both the public and the private sectors. The private sector is increasingly looking for bilingual skills in order to enhance its customer service. Will the Minister tell us how the strategy will ensure that the needs of the private sector are met, given that it aims to contribute to bilingual workplaces by making opportunities to learn Welsh more accessible?

I note from the Minister's statement today that he will set up an advice and support unit to facilitate improved regional and authority Welsh-medium planning. Perhaps the Minister would be kind enough to expand on that in his response by telling us how it will work and what the responsibilities of this new unit will be.

3.30 p.m.

It is very important that this strategy helps to develop more opportunities for young people

cyfleoedd ar gael i ymateb i ofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, a gymeradwywyd gan y Cynulliad y llynedd. Mae'n amlwg hefyd yn ôl y strategaeth fod Llywodraeth y Cynulliad am sicrhau bod y strategaeth hon yn gweithio ochr yn ochr â'r agenda trawsnewid, y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a llwybrau dysgu 14-19. A wnaiff y Gweinidog esbonio inni sut y bydd y strategaeth newydd hon yn cydweddu â'r agenda trawsnewid, y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a'r Mesur dysgu a sgiliau ar gyfer llwybrau dysgu 14-19, o gofio, yn ôl y strategaeth, ei bod yn dal yn ofynnol datblygu'n sylweddol yr ystod o ddewisiadau yn y rhaglen llwybrau dysgu 14-19 er mwyn cyflawni gofynion y Mesur dysgu a sgiliau?

Yr ydym i gyd am greu Cymru wirioneddol ddwyieithog, a bydd y strategaeth newydd hon yn cyfrannu at hynny. Bydd creu gweithlu byd-eang yn cefnogi'r amcan hwnnw. Yr wyf yn deall mai nod y strategaeth fydd cyfrannu at weithleoedd dwyieithog drwy sicrhau ei bod yn haws manteisio ar gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg. Mae'n amlwg bod mwy a mwy o weithleoedd yn chwilio am sgiliau dwyieithog, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r sector preifat yn chwilio fwyfwy am sgiliau dwyieithog er mwyn cryfhau ei wasanaeth i gwsmeriaid. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym sut y bydd y strategaeth yn sicrhau bod anghenion y sector preifat yn cael eu diwallu, o gofio mai ei nod yw cyfrannu at weithleoedd dwyieithog drwy sicrhau ei bod yn haws manteisio ar gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg?

Sylwaf yn ôl datganiad y Gweinidog heddiw y bydd yn sefydlu uned cyngor a chymorth i hwyluso gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhanbarthol ac mewn awdurdodau. Efallai y byddai'r Gweinidog mor garedig ag ymhelaethu ar hynny yn ei ymateb drwy ddweud wrthym sut y bydd yn gweithio a beth fydd cyfrifoldebau'r uned newydd hon.

Mae'n bwysig iawn i'r strategaeth hon helpu i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc

to reinforce their Welsh-language skills outside school and outside educational institutions. I note that this could be achieved through informal learning and through partnerships with other bodies. Could the Minister tell us what specific partnerships will be formed and how they will work? I believe that the strategy document seeks to address the special needs of the Welsh-medium sector, particularly in respect of Welsh-medium qualifications. In the circumstances, does the Minister envisage the creation of any additional or new qualifications as a result of this new strategy? Finally, I thank the Minister for the statement, and I hope very much that the strategy helps to develop effective Welsh-medium education provision from nursery through to further and higher education. I also hope that it will contribute significantly to creating a truly bilingual Wales.

Leighton Andrews: I am grateful to Paul Davies for his comments and for ensuring that we establish this Welsh-medium education strategy on the basis of cross-party consensus in the Chamber. It is the first published Welsh-medium education strategy of the Assembly Government, and it is important that it proceeds on the basis of consensus across the Chamber.

In launching a strategy and putting in new money, it would not be my intention to then roll that strategy out and reduce the funding that we have made available. This is a new strategy; it needs to be embedded and it needs to be developed. However, I cannot predict what the future overall budgets for the education department will be, and you would not expect me to do that.

Paul has put his finger on one of the issues facing us, which is, as I said in my statement, the training of the workforce. Clearly, we need a workforce that is trained to a high standard and that is able to teach subjects through the medium of Welsh across the piece. There are significant gaps at present. We understand that, and the strategy makes that clear. There is some way to go in developing the range of choices that we would like to see for young people, and that

atgyfnerthu eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ysgol a'r tu allan i sefydliadau addysgol. Sylwaf y gellid gwneud hyn drwy ddysgu anffurfiol a thrwy bartneriaethau â chyrff eraill. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym pa bartneriaethau penodol a ffurfir a sut y bydd y rhain yn gweithio? Credaf fod y ddogfen strategaeth yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion arbennig y sector cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yng nghyswllt cymwysterau cyfrwng Cymraeg. O dan yr amgylchiadau, a yw'r Gweinidog yn rhagweld creu unrhyw gymwysterau ychwanegol neu newydd yn sgîl y strategaeth newydd hon? Yn olaf, diolch i'r Gweinidog am y datganiad, gan obeithio'n fawr iawn y bydd y strategaeth o gymorth i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg effeithiol o'r cyfnod meithrin hyd at addysg bellach ac uwch. Yr wyf hefyd yn gobeithio y bydd yn cyfrannu'n sylweddol at greu Cymru wirioneddol ddwyieithog.

Leighton Andrews: Yr wyf yn ddiolchgar i Paul Davies am ei sylwadau ac am sicrhau ein bod yn sefydlu'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg hon ar sail consensws trawsbleidiol yn y Siambr. Dyma'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyntaf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n bwysig iddi fynd rhagddi ar sail consensws yn y Siambr drwyddi draw.

Wrth lansio'r strategaeth a darparu arian newydd ar ei chyfer, nid fy mwriad fyddai rhoi'r strategaeth honno ar waith wedyn a lleihau'r arian yr ydym wedi'i ddarparu. Strategaeth newydd yw hon; mae angen iddi fwrw gwreiddiau ac mae angen ei datblygu. Fodd bynnag, ni allaf ragweld beth fydd cyllidebau cyffredinol yr adran addysg yn y dyfodol, ac ni fydddech yn disgwyl imi wneud hynny.

Mae Paul wedi rhoi ei fys ar un o'r problemau sy'n ein hwynebu, sef, fel y dywedais yn fy natganiad, hyfforddi'r gweithlu. Mae'n amlwg bod angen gweithlu arnom sydd wedi'i hyfforddi hyd at safon uchel ac sy'n gallu dysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r gyfundrefn i gyd. Ceir bylchau sylweddol ar hyn o bryd. Yr ydym yn deall hynny, ac mae'r strategaeth yn gwneud hynny'n glir. Mae angen gwneud tipyn eto i ddatblygu'r ystod o ddewisiadau

is clearly an area that will develop over the medium and longer terms. That is why we have set targets for 2015 and 2020.

In terms of the strategy's relationship with other strategies and plans within the department, I have already made a statement on the transformation agenda and the Welsh language, in January. I would certainly expect that the development of Welsh-medium education would be incorporated and integrated fully within the school effectiveness framework and within the development of the 14-19 learning pathways. I would also expect my officials, on a cross-departmental basis, to discuss how best to take that forward in conjunction with local authorities and the relevant learning consortia where they apply.

Paul made an important point about the use of people with Welsh-language skills and the increasing demand among employers for them. One issue, particularly in relation to informal learning, is that we often have people in communities who have pretty good Welsh, but who do not see their Welsh-language ability necessarily as a skill that can help them into employment. That is why, for example, an initiative that we embarked on when I was in my previous ministerial post was to develop the scheme of language brokers, with a pilot in Peblig, which we developed along with the Welsh Language Board. We had a workforce there with many people who had Welsh-language skills, but who did not necessarily see them as a passport into employment, and the role of the broker was to work with those people and to understand what the local employment options might be in the private sector for people with those skills. That is an example of some of the things that we are doing.

As we go forward in developing our priorities, we need to expand the range of choices that are available to people. However, choices will always be limited by resources, whether those are financial resources or the resource of a trained workforce. We have to recognise that. I will end by welcoming Paul's support and endorsement of the strategy. It is a stronger

yr hoffem ei gweld ar gyfer pobl ifanc, ac mae hynny'n amlwg yn faes a fydd yn datblygu dros y tymor canolig a'r tymor hwy. Dyna pam yr ydym wedi pennu targedau ar gyfer 2015 a 2020.

O ran perthynas y strategaeth â strategaethau a chynlluniau eraill yn yr adran, yr wyf eisoes wedi rhoi datganiad am yr agenda trawsnewid a'r Gymraeg, ym mis Ionawr. Byddwn yn sicr yn disgwyl gweld cynnwys ac integreiddio datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn llawn yn y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion ac wrth ddatblygu llwybrau dysgu 14-19. Byddwn hefyd yn disgwyl i'm swyddogion, a hynny'n drawsadrannol, drafod beth yw'r ffordd orau o fwrw ymlaen â hynny ar y cyd ag awdurdodau lleol a'r consortia dysgu perthnasol lle bydd y rheini ar waith.

Gwnaeth Paul bwynt pwysig am ddefnyddio pobl sy'n medru'r Gymraeg a'r cynnydd yn y galw am y sgiliau hynny gan gyflogwyr. Un ystyriaeth, yn enwedig yng nghyswllt dysgu anffurfiol, yw bod gennym bobl yn aml mewn cymunedau sy'n medru'r Gymraeg yn eithaf da, ond nad ydynt o anghenraid yn gweld eu gallu yn y Gymraeg yn sgil a all eu cynorthwyo i gael gwaith. Dyna pam, er enghraifft, inni gychwyn ar fenter pan oeddwn yn fy swydd weinidogol flaenorol, i ddatblygu cynllun broceriaid iaith, gan dreialu'r cynllun ym Mheblig. Fe'i datblygwyd ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yr oedd gennym weithlu yno lle yr oedd gan lawer o bobl sgiliau Cymraeg, ond nad oeddent o anghenraid yn eu gweld yn docyn ar gyfer cael gwaith. Rôl y brocer oedd gweithio gyda'r bobl hyn a deall pa ddewisiadau o ran gwaith yn lleol a allai fod yn y sector preifat i bobl a chanddynt y sgiliau hyn. Dyna enghraifft o rai o'r pethau yr ydym yn eu gwneud.

Wrth inni fwrw ymlaen i ddatblygu ein blaenoriaethau, mae angen inni ehangu'r ystod o ddewisiadau sydd ar gael i bobl. Serch hynny, bydd adnoddau bob amser yn cyfyngu ar ddewisiadau, boed yr adnoddau hynny'n rhai ariannol neu'n adnoddau gweithlu sydd wedi'i hyfforddi. Rhaid inni gydnabod hynny. Tynnaf i ben drwy groesawu cefnogaeth Paul a'i

strategy for having cross-party support.

gymeradwyaeth i'r strategaeth. Mae'n strategaeth gryfach o gael cefnogaeth drawsbleidiol.

Nerys Evans: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei strategaeth. Mae Plaid Cymru yn amlwg yn croesawu datblygiad y strategaeth hon yn fawr iawn. Mae'n gam hynod o bwysig a hanesyddol ymlaen—y tro cyntaf inni erioed gael strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg; mae'n ddiwrnod pwysig iawn. Diolchaf i'r Llywodraeth, i'r Gweinidog presennol a hefyd i'r Gweinidog blaenorol a ddechreuodd y gwaith pwysig hwn.

Nerys Evans: I thank the Minister for the strategy. Plaid Cymru obviously greatly welcomes the development of this strategy. It is a very important and historic step forward—the first time that we have ever had a national strategy for the development of Welsh-medium education; it is a very important day. I thank the Government, the present Minister and the previous Minister, who began this important work.

Fel y dywedais, mae'r strategaeth a gyflwynwyd yn gam sylweddol ymlaen ers yr ymgynghoriad, ac yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi gwrandao ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Un o'r pethau mwyaf sylfaenol yw'r diffiniad o addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog, sef darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau eraill, wrth gwrs. Defnyddiodd drafft cyntaf yr ymgynghoriad 'addysg cyfrwng Cymraeg' ac 'addysg ddwyieithog' drwyddi draw fel pe bai'r ddau'n golygu'r un peth. Yr oedd y map ar ddiwedd y ddogfen ymgynghorol hefyd yn galw ysgolion dwyieithog yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yr wyf yn falch bod y mater hwn wedi cael ei gywiro yn y strategaeth.

As I said, the strategy presented is a significant step forward since the consultation, and I am pleased that the Government has listened to the consultation responses. One of the most fundamental things is the definition of Welsh-medium education and bilingual education, that is, Welsh-medium provision in other institutions, of course. The first draft of the consultation used 'Welsh-medium education' and 'bilingual education' throughout as if they meant the same thing. The map at the end of the consultation document also called bilingual schools Welsh-medium schools. I am pleased that this has been corrected in the strategy.

Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog, ac mae sawl adroddiad a sawl arbenigwr yn dweud mai addysg cyfrwng Cymraeg yw'r ffordd orau i greu a datblygu siaradwyr dwyieithog. Mewn llawer achos, mae addysg Gymraeg wedi datblygu oherwydd ymrwymadau a phrotestiadau gan rieni. Yr wyf, felly, yn croesawu'r ymrwymiad yn y strategaeth i asesu'r angen am addysg Gymraeg a'r ffaith ei bod yn tanlinellu'r angen i awdurdodau addysg ymateb yn rhagweithiol i'r galw am wybodaeth ymhlith rhieni. Gan fod y strategaeth yn sôn am yr angen i'r awdurdodau addysg ddefnyddio dulliau sydd wedi eu safoni er mwyn asesu'r angen, sut caiff y broses hon ei monitro? Beth fydd yn digwydd pe na bai awdurdod arbennig yn gwneud asesiad, neu pe bai'r awdurdod yn defnyddio modd amgen o wneud asesiad? Mae cael y wybodaeth gywir

There is a fundamental difference between Welsh-medium education and bilingual education, and a number of reports and experts have stated that Welsh-medium education is the most effective means of creating and developing bilingual speakers. In many cases, Welsh-language education has developed because of commitments and protests by parents. I therefore welcome the commitment in the strategy to assess the demand for Welsh-medium education and the fact that it underlines the need for education authorities to respond proactively to the demand for information among parents. As the strategy mentions the need for education authorities to use standardised methods of assessing demand, how will this process be monitored? What will happen if a particular authority does not do an assessment, or if the authority uses an alternative means of doing an assessment? Getting accurate and standard

a safonol oddi wrth y rhieni a'r darpar rieni yn hollbwysig i'r broses.

Pan fydd angen am addysg Gymraeg wedi cael ei gydnabod, a phan fydd awdurdod lleol wedi ymateb yn bositif i hynny, a allwch gadarnhau bod disgwyl iddo ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, ac nid addysg ddwyieithog? Mae sawl amcan strategol yn y strategaeth yn sôn am hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg. Mae'r drafodaeth am ddyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn mynd yn ei blaen, felly pwy fyddai'n cyflawni'r rôl o hyrwyddo, gan ei fod yn elfen hynod bwysig wrth i'r strategaeth gael ei datblygu?

Mae'r strategaeth hefyd yn sôn am fonitro targedau. Wrth i'r strategaeth gael ei datblygu, bydd modd i'r targedau pwysig hyn gael eu cyflawni mewn ffyrdd gwahanol. Gan feddwl am yr agendâu gwahanol, fel y crybwyllodd Paul Davies, mae strategaethau yn cael eu datblygu yn fisol neu wythnosol ar lefel leol. Sut mae modd sicrhau bod y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hintegreiddio i'r strategaethau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd?

Yr wyf yn falch o weld bod y Llywodraeth yn bwriadu monitro'n rheolaidd. Pa mor aml yr ydych yn bwriadu adrodd yn ôl i'r Cynulliad fel bod modd inni edrych ar ddatblygiad a llwyddiant y strategaeth? Mae'r broses yn un gymhleth iawn; mae darpariaeth addysg wedi cael ei ddatganoli i'r awdurdodau lleol, a cheir disgwyliadau a thargedau cenedlaethol yn y strategaeth hon, felly bydd yn rhaid i'r Llywodraeth fod yn rhagweithiol wrth i'r awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau i gyrraedd y targedau. Sonioch am yr angen i'n hawdurdodau lleol gyflwyno hyn fel rhan o'u cynlluniau strategol Cymraeg i APADGOS. A fydd y wybodaeth hon yn gyhoeddus i Aelodau er mwyn i ni gael monitro'r gwaith?

I gloi, hoffwn ategu'r llongyfarchiadau i'r Gweinidog am gryfhau'r strategaeth hon. Hoffwn weld strategaeth a thargedau mwy uchelgeisiol, ond mae hwn yn gam hynod o bwysig ymlaen. Gan fod hon yn strategaeth bellgyrhaeddol, sy'n ymwneud â phob elfen o waith eich adran—ac yn ymwneud â phob elfen o waith ein hawdurdodau addysg—sut mae modd sicrhau bod y strategaeth hon yn

information from parents and prospective parents is crucial to the process.

When the demand for Welsh-language education is recognised, and when a local authority responds positively to that, can you confirm that it will be expected to provide Welsh-medium education, not bilingual education? There are several strategic objectives that refer to promoting access to Welsh-language education. The future of the Welsh Language Board is under discussion, therefore, who will deliver on this role of promotion, as it is a very important element as the strategy is developed?

The strategy also refers to monitoring targets. As the strategy is developed, these important targets can be achieved in a number of different ways. Thinking about the different agendas, as Paul Davies mentioned, strategies are being developed monthly or weekly at a local level. How can we ensure that the Welsh-medium education strategy is integrated into the strategies that are being developed at the moment?

I am pleased to see that the Government intends to monitor regularly. How often do you intend to report back to the Assembly so that we can look at the development and success of the strategy? The process is very complex; education provision is devolved to the local authority, and there are expectations and national targets in this strategy, therefore the Government will have to be proactive as the local authorities develop strategies to achieve the targets. You mentioned the need for our local authorities to present this as part of their strategic Welsh-language plans to DCELLS. Will this information be made public to Members so that we can monitor the work?

To close, I would like to echo the congratulations to the Minister on strengthening this strategy. I would like to see a more ambitious strategy and targets, but this is a very important step forward. As this is a far-reaching strategy, which deals with all elements of your department's work—and which deals with all elements of our local education authorities' work—how can we

cael ei hintegreiddio ar draws y portffolio, yn hytrach na chael ei thrin fel rhywbeth ychwanegol? Dyna allwedd llwyddiant y strategaeth, ac mae'n bwysig iawn bod hyn yn cael ei wireddu.

3.40 p.m.

Leighton Andrews: Diolch am y geiriau caredig, ac am y croeso. Codwyd llawer o gwestiynau, ac yr wyf yn gobeithio fy mod i'n cofio popeth. Dywedais yn y datganiad ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth fanwl gywir i rieni am natur ieithyddol gwahanol ysgolion. Credaf ein bod yn deall beth yw addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog a'r gwahaniaeth rhyngddynt. Byddwn yn sefydlu system fonitro yn y Cynulliad ac esboniwn yn y strategaeth y byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol i fonitro'r targedau.

Mae'r rhaglen weithredu yn bwysig, gyda thargedau a nodau strategol. Disgwyliaf y bydd swyddogion y Llywodraeth yn trafod y polisi ar sail drawsadrannol a hefyd gydag awdurdodau lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Disgwyliaf y bydd pob polisi yn gweithio gyda'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Diolchaf eto i Nerys am y croeso a roddodd i'r strategaeth hon.

Jenny Randerson: I very much welcome this statement. I have had an energetic exercise in speed reading this strategy this afternoon, and I think that I have got the basic facts as a result. I welcome this statement because I was conscious when I produced 'Iaith Pawb' that the weaker part of it was a lack of detail, rather than a lack of ambition with regard to the education system. That was necessarily so, of course, because I was not the Minister for education. However, that was an important development that needed to take place and it is rather a pity that it has taken this long, but I am glad that it has now been done.

Minister, I know that it takes a long time to turn around the supertanker of language

ensure that this strategy is integrated across the portfolio, and is not seen as a bolt-on? That is the key to the success of the strategy, and it is very important that that is achieved.

Leighton Andrews: Thank you for those kind words, and for the welcome. Many questions were raised, and I hope that I remember everything. I said in the statement that we expect local authorities to present detailed and accurate information to parents about the linguistic nature of different schools. I think that we understand what Welsh-medium education is and what bilingual education is and the difference between them. We will establish a monitoring system in the Assembly and we explain in the strategy that we will publish annual reports to monitor the targets.

The implementation programme is important, with strategic targets and aims. I expect that Government officials will discuss the policy across departments and with local authorities and regional consortia. I expect that every policy will work with the Welsh-medium education strategy.

I thank Nerys once again for the welcome that she has given to the strategy.

Jenny Randerson: Yr wyf yn croesawu'r datganiad hwn yn fawr. Yr wyf wedi mynd ati fel lladd nadroedd i frysddarllen y strategaeth hon y prynhawn yma, ac yn meddwl imi ddirnad y ffeithiau sylfaenol yn sgil hynny. Yr wyf yn croesawu'r datganiad hwn oherwydd fy mod yn sylweddol wrth imi gynhyrchu 'Iaith Pawb' mai'r rhan wannaf ohoni oedd ei diffyg manylion, yn hytrach na'i diffyg uchelgais o ran y gyfundrefn addysg. Yr oedd hynny'n anochel, wrth gwrs, oherwydd nad fi oedd y Gweinidog dros addysg. Serch hynny, yr oedd hwnnw'n ddatblygiad pwysig yr oedd ei angen ac mae'n bechod braidd iddo gymryd cyhyd, ond yr wyf yn falch ei fod wedi'i wneud yn awr.

Weinidog, gwn fod angen cryn amser i droi tancer enfawr y ddarpariaeth iaith, ond, i bob

provision, but some of your targets appear to be relatively modest. I refer in particular to the target in relation to outcome 4, on bilingual provision. Bilingual provision is a term that is used in a number of ways in this document and the document also states that bilingual provision can be provided in a number of ways.

I draw your attention to the progress in the Basque country with regard to the education provision through the Basque language. There are three types of school in the Basque country: Spanish, Basque and bilingual. Bilingual provision has moved towards Basque-language provision over time, and it is a useful stepping stone. Within your definition of 'bilingual', there could be a school that teaches Welsh as a second language, but bolsters that provision by having one or two other subjects, for instance, history or sport, taught through the medium of Welsh. That appears to fall within the scope of your definition of 'bilingual'. It therefore surprises me that you have a target of 6 per cent for schools; the current target is 5.3 per cent. It is surprising that you do not hope that more schools will move towards bilingual provision.

My second question relates to the welcome commitment in this strategy to ensure that local authorities plan ahead for Welsh-medium provision. The crushing weakness of such provision so far is that many local authorities have simply failed to plan ahead and anticipate demand. There is a considerable time lag in provision, and I ask you to provide me with further information on how you will deal with that. To give you the example of Cardiff, the council announced back in 2006 a radical programme for the expansion of Welsh-medium education, but so far, relatively little expansion has taken place, because of the considerable time lag caused by having to find the buildings. This often involves 'under-studented'—I have made up a word there. It involves schools with a large number of surplus places being replaced by Welsh-medium schools, which is hugely controversial. It obviously cannot be done quickly or without considerable planning and thought. I would like some further detail on the planning process as you envisage it—how

golwg, mae rhai o'ch targedau'n brin o uchelgais braidd. Cyfeiriaf yn benodol at y targed ar gyfer canlyniad 4, ynglŷn â darpariaeth ddwyieithog. Defnyddir y term darpariaeth ddwyieithog mewn sawl ffordd yn y ddogfen hon ac mae'r ddogfen yn nodi hefyd y gellir darparu darpariaeth ddwyieithog mewn sawl ffordd.

Tynnaf eich sylw at y cynnydd yng ngwlad y Basg o ran darparu addysg drwy gyfrwng y Fasgeg. Mae tri math o ysgol yng ngwlad y Basg: rhai sy'n dysgu drwy'r Sbaeneg, drwy'r Fasgeg a rhai dwyieithog. Mae darpariaeth ddwyieithog dros gyfnod wedi symud tuag at ddarpariaeth drwy'r Fasgeg ac mae'n garreg gamu fuddiol. O fewn eich diffiniad o 'ddwyieithog' gallai ysgol fod yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, ond yn ategu'r ddarpariaeth honno drwy ddysgu un neu ddau bwnc arall, er enghraifft, hanes neu chwaraeon, drwy gyfrwng y Gymraeg. I bob golwg mae hynny'n dod o fewn cwmpas eich diffiniad o 'ddwyieithog'. Felly, yr wyf yn synnu bod gennych darged o 6 y cant ar gyfer ysgolion; y targed ar hyn o bryd yw 5.3 y cant. Mae'n syndod nad ydych yn gobeithio y bydd mwy o ysgolion yn symud tuag at ddarpariaeth ddwyieithog.

Mae a wnelo fy ail gwestiwn â'r ymrwymiad sydd i'w groesawu yn y strategaeth hon i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gwendid ofnadwy darpariaeth o'r fath hyd yn hyn yw bod llawer o awdurdodau lleol wedi methu cynllunio ymlaen llaw a rhagweld y galw. Mae bwlch amser sylweddol yn y ddarpariaeth, a gofynnaf ichi roi rhagor o wybodaeth imi ynglŷn â sut yr ewch i'r afael â hynny. A rhoi Caerdydd yn enghraifft ichi, yn 2006 cyhoeddodd y cyngor raglen radical i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ond hyd yn hyn, cymharol ychydig o ehangu sydd wedi bod, oherwydd y bwlch amser sylweddol wrth iddynt orfod dod o hyd i'r adeiladau. Yn aml iawn, bydd hyn yn golygu disodli ysgolion a chanddynt nifer fawr o leoedd gweigion ag ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn bwnc llosg ofnadwy. Mae'n amlwg nad oes modd ei wneud yn gyflym na heb waith cynllunio a meddwl sylweddol. Hoffwn gael rhagor o fanylion am y broses gynllunio fel yr ydych yn ei rhagweld—sut yr anogir awdurdodau lleol i

will local authorities be encouraged to plan enough places for the next batch of five-year-olds?

I am pleased that the document includes a section on the advantages of bilingualism, which range from being able to learn other languages more easily to apparently fending off the onset of dementia; I know that some interesting research has been done on that. One of the real issues, therefore, has to be how we promote bilingualism, and how you as a Government promote it, so that people see the concept of bilingualism as an asset in life rather than Welsh being just another lesson in school. Often, parents who are monolingual consider the acquisition of Welsh to be a burden on their children rather than a skill to be welcomed with open arms.

Your document refers to the importance of equal opportunities, and I would like to address the issue of ethnic minority groups learning through the medium of Welsh. The numbers are relatively low, but within those communities, which are largely bilingual already—if not trilingual, in some cases—the concept of promoting Welsh-medium education would have great advantages, as it would ensure a diverse approach to the future of Welsh society.

Finally, I am a member of the Enterprise and Learning Committee and its rapporteur group, and we have concerns about the teaching of Welsh as a second language, as you will be aware. What are your plans for the slimmed-down GSCE, which is proving increasingly popular in some schools? It is a kind of half-GCSE that is taken as an alternative in schools where Welsh is taught as a second language. How will you develop the late immersion programmes that you referred to? They are so important, particularly in areas where, despite a high number of Welsh speakers, a small number of immigrants who speak only English can in some cases change the linguistic balance of a whole village. Late immersion programmes offer a really good opportunity, but there is no detail that I can see in the document on how you plan to do it.

3.50 p.m.

gynllunio digon o leoedd ar gyfer y criw nesaf o blant pum mlwydd oed?

Yr wyf yn falch bod y ddogfen yn cynnwys adran am fanteision dwyieithrwydd, sy'n amrywio o allu dysgu ieithoedd eraill yn haws i gadw demensia draw i bob golwg; gwn fod rhywfaint o waith ymchwil diddorol wedi'i wneud am hynny. Un o'r problemau go iawn, felly, yw sut y mae hyrwyddo dwyieithrwydd, a sut y byddwch chi'r Llywodraeth yn ei hyrwyddo, er mwyn i bobl weld dwyieithrwydd yn rhywbeth sy'n gaffaeliad mewn bywyd, yn hytrach na bod y Gymraeg yn wers arall yn yr ysgol a dim mwy na hynny. Yn aml, bydd rhieni uniaith yn ystyried dysgu'r Gymraeg yn faich ar eu plant yn hytrach nag yn sgil sydd i'w chrosawu â breichiau agored.

Mae eich dogfen yn cyfeirio at bwysigrwydd cyfleoedd cyfartal, a hoffwn fynd i'r afael â mater grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r niferoedd yn gymharol isel, ond o fewn y cymunedau hynny sy'n ddwyieithog eisoes i raddau helaeth—os nad yn dairieithog, mewn ambell achos—byddai manteision mawr i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai'n sicrhau ymagwedd amrywiol at ddyfodol cymdeithas Cymru.

Yn olaf, yr wyf yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu a'i grŵp adrodd, ac yr ydym yn poeni am ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith, fel y gwyddoch. Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y TGAU wedi'i gwtogi, sy'n fwyfwy poblogaidd mewn ambell ysgol? Rhyw fath o hanner TGAU ydyw ac fe'i cynigir yn ddewis mewn ysgolion lle y dysgir y Gymraeg fel ail iaith. Sut y byddwch yn datblygu'r rhaglenni dwys ar gyfer newydd-ddyfodiaid y soniasoch amdanynt? Maent mor bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd lle y gall nifer fach o fewnfudwyr uniaith Saesneg, er bod nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn byw yno, mewn ambell achos newid cydbwysedd ieithyddol pentref cyfan. Mae rhaglenni dwys i newydd-ddyfodiaid yn cynnig cyfle gwirioneddol dda, ond ni allaf weld manylion yn y ddogfen ynglŷn â sut y bwriadwch wneud hyn.

Leighton Andrews: I wish to start by welcoming your support for the strategy. That means that we have an all-party consensus in the Chamber on this. I wish to pay tribute to the work you have done in the past on the development of 'Iaith Pawb'. When the draft strategy was published, some people said that the targets were modest and some people said that they were too challenging. Having worked for the BBC, may I say, in a traditional BBC way, that that suggests that, somewhere in between, we may have got it right. We are quite clear in the strategy, and we include definitions, about what constitutes a bilingual education and what constitutes a Welsh-medium education. The notion of a bilingual education in an area that is predominantly Welsh-speaking is rather different from the concept of a bilingual education in an area that is predominantly English-speaking. We need to bear that in mind as we look at the planning of education provision in future. That is one of the reasons why I issued a statement earlier in the year on the Welsh language and the transformation agenda.

I am not going to get into any individual local authority's discussions about progress in the development of more Welsh-medium schools in its area for obvious reasons. However, I think that we are seeing local authorities across Wales being quite creative by, for example, introducing starter classes through the medium of Welsh in existing primary schools and then expanding provision until they reach a position of stability or sustainability for the development of a fully Welsh-medium school. That sort of development is very much to be encouraged. We know that Welsh-medium education is popular and that a higher proportion of parents are now seeking it for their children, and we want to encourage that development in as many ways as we can.

With regard to long-term planning on the part of local authorities, it is not rocket science, to be honest. People are clear about the data they have on the birth rate in their communities, and they have a clear understanding of the progression in and balance of the choices that people are making

Leighton Andrews: Dymunaf ddechrau drwy groesawu'ch cefnogaeth i'r strategaeth. Mae hynny'n golygu bod gennym gonsensws trawsbleidiol yn y Siambr ynglŷn â hyn. Hoffwn roi teyrnged i'ch gwaith yn y gorffennol yn datblygu 'Iaith Pawb'. Pan gyhoeddwyd y strategaeth ddrafft, dywedodd rhai pobl fod y targedau'n brin o uchelgais a dywedodd eraill eu bod yn rhy uchelgeisiol. A minnau wedi gweithio i'r BBC, a gaf ddweud, yn null traddodiadol y BBC, ein bod efallai wedi taro deuddeg, rywle tua'r canol. Yr ydym yn eithaf clir yn y strategaeth, ac yr ydym yn cynnwys diffiniadau, ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn addysg ddwyieithog a'r hyn sy'n cael ei ystyried yn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae addysg ddwyieithog mewn ardal sy'n ardal Gymraeg ei hiaith yn bennaf yn eithaf gwahanol i addysg ddwyieithog mewn ardal sy'n ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf. Mae angen inni gofio hynny wrth inni edrych ar gynllunio'r ddarpariaeth addysg yn y dyfodol. Dyna un o'r rhesymau dros gyhoeddi datganiad yn gynharach yn y flwyddyn am y Gymraeg a'r agenda trawsnewid.

Nid wyf am ddechrau sôn am benderfyniadau unrhyw awdurdod lleol unigol ynglŷn â'r cynnydd wrth ddatblygu rhagor o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei ardal a hynny am resymau amlwg. Fodd bynnag, credaf ein bod yn gweld awdurdodau lleol ledled Cymru'n bod yn eithaf creadigol, drwy gyflwyno dosbarthiadau cychwyn, er enghraifft, drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd sy'n bodoli eisoes ac wedyn yn ehangu'r ddarpariaeth nes iddynt gyrraedd sefyllfa sefydlog neu gynaliadwy ar gyfer datblygu ysgol cyfrwng Cymraeg lawn. Dylid annog y math hwnnw o ddatblygu'n fawr iawn. Gwyddom fod addysg cyfrwng Cymraeg yn boblogaidd a bod cyfran uwch o rieni'n ei cheisio ar gyfer eu plant erbyn hyn, ac yr ydym am annog y datblygiad hwn mewn cynifer o ffyrdd ag y gallwn.

O ran cynllunio hirdymor ar ran awdurdodau lleol, nid oes angen bod yn athrylith a dweud y gwir. Mae'r data sydd gan bobl am y gyfradd genedigaethau yn eu cymunedau yn glir, ac maent yn deall yn glir batrwm y cynnydd a'r cydbwysedd rhwng y dewisiadau y bydd pobl yn eu gwneud rhwng addysg

between Welsh-medium education and English-medium education. Therefore, it is perfectly possible for local authorities to plan on a medium to long-term basis for the provision that they will need.

What we are trying to do here is to start a process. As I said in an earlier answer, one of the most important parts of this is that we are developing an implementation plan to support the strategy. We can revise those targets. We will evaluate them annually, and we can make changes to those if we need to do so. There are further developments in relation to the promotion of the Welsh language, and this is one of the areas on which I forgot to respond to Nerys. We will continue to work alongside bodies such as the Welsh Language Board and Mudiad Ysgolion Meithrin on the promotion of Welsh-medium education. That will be an important part of the development.

I agree that late immersion can be very valuable. Again, it is down to local authorities to plan that. They will get support for that. With regard to the development of Welsh-medium education in the ethnic minority communities in Wales, I think that we are starting to see that happening in any case. However, we know that we have good role models in ethnic minority communities. People such as Ali Yassine and many others are Welsh speakers who are proud to demonstrate their facility in the language.

With regard to the issue of the teaching of Welsh as a second language, I said in the statement, and Estyn has said, that there are weaknesses. That is something that we are going to have to get to grips with, and I said that that would be a priority.

Gareth Jones: Diolch am y cyfle i ymateb i'r datganiad ar strategaeth sy'n gam sylweddol ac, o bosibl, hanesyddol ymlaen. Hoffwn ddiolch i chi, Weinidog, am yr ymrwymiad personol yr ydych wedi ei roi i'r strategaeth; mae hynny'n ddigon amlwg. Yr ydych wedi rhoi'r iaith ar waith y prynhawn yma, ac fe'ch llongyfarchaf ar wneud eich cyflwyniad mewn Cymraeg graenus.

Croesawaf lawer o bethau yn y strategaeth

cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg. Felly, mae'n hollol bosibl i awdurdodau lleol gynllunio ar sail tymor canolig neu hirdymor ar gyfer y ddarpariaeth y bydd ei hangen arnynt.

Ceisio rhoi cychwyn ar broses yr ydym yma. Fel y dywedais wrth ateb yn gynharach, un o'r rhannau pwysicaf o hyn yw ein bod yn datblygu cynllun gweithredu a fydd yn cefnogi'r strategaeth. Gallwn ddiwygio'r targedau hynny. Byddwn yn eu pwyso a'u mesur bob blwyddyn, a gallwn newid y rheini os bydd angen. Mae rhagor o ddatblygiadau yng nghyswllt hyrwyddo'r Gymraeg, a dyma un o'r meysydd yr anghofiais ymateb i Nerys yn ei gylch. Byddwn yn dal i weithio ochr yn ochr â chyrrff megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Mudiad Ysgolion Meithrin i hybu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hynny'n rhan bwysig o'r datblygiad.

Cytunaf y gall rhaglenni dwys i newydd-ddyfodiaid fod yn werthfawr iawn. Unwaith eto, gwaith awdurdodau lleol yw cynllunio hynny. Cânt gefnogaeth ar gyfer hynny. O ran datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yng nghymunedau lleiafrifoedd ethnig Cymru, credaf ein bod yn dechrau gweld hynny'n digwydd beth bynnag. Serch hynny, gwyddom fod gennym fodolau rôl da mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae pobl megis Ali Yassine a llawer o rai eraill yn siarad yr iaith ac yn falch o arddel eu bod yn rhugl.

O ran addysgu'r Gymraeg fel ail iaith, dywedais yn y datganiad, ac mae Estyn wedi dweud, fod gwendidau yn y maes hwn. Mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni fynd i'r afael ag ef, a dywedais y byddai hynny'n flaenoriaeth.

Gareth Jones: Thank you for the opportunity to respond to the statement on a strategy that is a significant and perhaps historic step forward. I would like to thank you, Minister, for your personal commitment to the strategy; it is quite apparent. You have ensured that the Welsh language has been at the forefront this afternoon, and I congratulate you on making your presentation in such polished Welsh.

I welcome much of what is in this strategy,

hon, sydd yn cynnwys y pwyslais ar gynllunio effeithiol, gosod targedau, a monitro. Nodir gennych eich bod am sefydlu uned a fydd yn monitro hynt y strategaeth. Mawr obeithiaf y gall yr uned honno, a sefydlir o fewn eich adran, fod yn rhagweithiol yn hytrach nag un na fydd ond yn gweld gwendidau a rhagoriaethau. Hynny yw, lle bo gwendidau, gobeithiaf y gall yr uned fod yn adeiladol a chreadigol, gan ymateb i'r gofynion yn hytrach na gadael i bethau sefyll cyn, ymhen amser, ceisio gwneud rhywbeth yn eu cylch, fel y bydd yn gwbl weithredol a rhagweithiol yn y broses. Hoffwn feddwl y byddai hynny'n rhan annatod o'r strategaeth.

Croesawaf hefyd y ffaith bod angen i awdurdodau lleol gynllunio yn ofalus. Mae'n amlwg bod y Llywodraeth, a chithau, o ddifrif yn hyn o beth, gan eich bod yn fodlon ystyried defnyddio mesurau pellach, gan gynnwys deddfwriaeth, i sicrhau cynnydd yn y maes hwnnw. Mae hynny'n osodiad cryf. Gwn nad ydyw yn eich natur chi na'r un ohonom i fod yn llawdrwm, ond y mae'r ffaith bod yr iaith honno wedi'i defnyddio yn y modd hwnnw yn arwyddocaol.

Yr ydych chi a Jenny wedi cyfeirio at un peth sydd o bryder mawr imi, ac yr wyf wedi datgan hyn yn rheolaidd yn y gorffennol, sef bod Estyn wedi ein hatgoffa sawl gwaith am safon dysgu Cymraeg ail iaith. Nid wyf am droedio'r un hen dir eto gan ein bod oll yn gwybod am y diffygion. Serch hynny, yr wyf yn falch eich bod wedi cydnabod ac adnabod y maes hwnnw. Caf ar ddeall, o ddarllen y strategaeth, mai amcan strategol 3.04 ydyw, sydd i'w groesawu oherwydd gallwn ganolbwyntio ar yr union wendid hwn, hyd y gwelaf i. Yn y gweithgaredd y dymunwch ei weld a'i annog yn ein hysgolion, lle y mae'n anodd o ran perfformiad neu lle nad ydyw'r perfformiad gystal â'r disgwyl, mae'r gweithredu yn dibynnu ar ryw ymagwedd feddal. Hynny yw, mae gofyn i ysgol hunan-arfarnu neu edrych ar arfer da mewn ysgolion eraill a'i fabwysiadu. Nid oes elfen o orfodaeth, ac efallai mai da o beth yw hynny oherwydd, wedi'r cyfan, yr ydym am i'r Gymraeg gael ei dysgu mewn modd sy'n gwneud y plant yn hapus i wneud hynny, a chyda'r athrawon yn fwy na pharod a brwd i wneud hynny hefyd. Credaf eich bod am

including its emphasis on effective planning, the setting of targets, and monitoring. You note that you want to establish a unit to monitor the strategy's progress. I very much hope that that unit, which will be set up in your department, will be proactive rather than one that sees only weaknesses and strengths. That is, where there are weaknesses, I hope that the unit can be constructive and creative by responding to what is required rather than letting things stand before, in time, trying to do something about them, so that it will be actively and proactively involved in the process. I would like to think that that would be an integral part of the strategy.

I also welcome the fact that local authorities will have to plan carefully. It is clear that the Government is serious in this regard, as are you, given your readiness to consider the use of further measures, including legislation, to ensure progress in this area. That is a bold statement. I know that it is in neither your nature nor any one of us to be heavy handed, but the fact that such language has been used to such effect is significant.

You and Jenny have referred to something that is of great concern to me, and it is something that I have stated regularly in the past, namely that Estyn has repeatedly reminded us about the standard of second language Welsh teaching. I do not wish to go over the same ground, as we all know about the failings. However, I am glad that you acknowledge and recognise that field. As I understand it from my reading of the strategy, that is dealt with in strategic objective 3.04, which is to be welcomed as we can then concentrate on precisely that weakness, as far as I can see. In the activity that you wish to see and promote in our schools, where things are difficult with regard to performance or where performance does not meet expectations, the action to be taken depends on some form of soft approach. That is, a school will be required to self-assess or observe and adopt good practice from other schools. There is no element of compulsion, and that may be a good thing because, after all, we want Welsh to be taught in such a way that children will be happy to learn it and teachers more than willing and keen to teach

ystyried 2012 a 2015 ar gyfer rhyw fath o asesiad ar y cynnydd yn y maes hwn. Y cyfan y gallaf ei ofyn ichi yw, os nad ydyw'r ymagwedd a nodwyd yn y strategaeth yn dwyn ffrwyth, a wnewch chi ei hailystyried o ddiffrif i weld a oes modd ei chryfhau neu'i grymuso fel ein bod yn llwyddo lle nad ydym yn llwyddo ar hyn o bryd?

Leighton Andrews: Diolch i Gareth am ei eiriau caredig a'i gefnogaeth i'r strategaeth hon. Yn ystod y datganiad, dywedasom ei bod yn bwysig i'r strategaeth hybu cydweithio rhwng awdurdodau lleol ar lefel consortiwm rhanbarthol er mwyn cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ein bwriad yw sefydlu uned cyngor a chymorth i hwyluso gwell cynllunio cyfrwng Cymraeg yn rhanbarthol ac ar lefel awdurdod. Yr ydym yn cydweithio â phawb i sefydlu'r uned. Mae'n bwysig cofio hefyd bod y strategaeth yn gweithio gyda fframwaith effeithiolrwydd ysgolion.

4.00 p.m.

Mae'n bwysig bod y fframwaith yn cefnogi'r strategaeth. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn gweithio gydag ysgolion, consortia ac awdurdodau lleol i roi'r prosiect ar waith.

There are many issues to which we will have to return over the next few years. When you start with a strategy, you often set targets that you have to revisit. At the end of the day, what is more important to me than the strategy is the implementation plan. I suspect that we will have to revisit the implementation plan, which is why we have set down targets, as well as a process for annual reports, and the ability to look again at the targets for 2020 in 2015.

it. I believe that you are considering 2012 and 2015 for some sort of assessment of progress made in this field. All I ask is that if the approach outlined in the strategy does not bear fruit, will you subject it to serious reappraisal to see if it can somehow be strengthened or reinvigorated so that we succeed where we currently do not?

Leighton Andrews: I thank Gareth for his kind words and for his support for this strategy. During the statement, we said how important it is for the strategy to promote co-operation between local authorities at the regional consortium level to plan Welsh-medium provision. Our intention is to establish a support and advice centre to facilitate better Welsh-medium planning, at regional and authority level. We are working with everyone to establish this unit. It is important to remember that the strategy also works with the school effectiveness framework.

It is important that the framework supports the strategy. It is also important that we work with schools, consortia and local authorities to implement the project.

Bydd sawl mater y bydd yn rhaid inni ddychwelyd atynt yn ystod y blynyddoedd nesaf. Wrth ichi ddechrau gyda strategaeth, byddwch yn aml yn pennu targedau y bydd yn rhaid ichi eu hailystyried. Yn y pen draw, yr hyn sy'n bwysicach i mi na'r strategaeth yw'r cynllun gweithredu. Yr wyf yn amau y bydd yn rhaid inni edrych eto ar y cynllun gweithredu, a dyna pam yr ydym wedi pennu targedau, yn ogystal â phroses ar gyfer adroddiadau blynyddol, a'r gallu i edrych eto ar y targedau ar gyfer 2020 yn 2015.

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu
Segur 2008 (Cyfyngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010
Approval of the Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008
(Prescribed Restrictions) (Wales) Order 2010**

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Cynigaf fod

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): I move that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.4:

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 24.4:

yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 (Cyfyngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2010. (NDM4454)

Yr wyf yn falch o allu agor y ddadl hon ar Orchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 (Cyfyngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010. Dyma benllanw proses hir a gychwynnodd dros ddwy flynedd yn ôl, pan gyflwynwyd y Mesur Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 7 Tachwedd 2007. Yn y cyfnod rhwng cyflwyno'r Mesur a'r ddadl heddiw, yr wyf i, fy nghyd-Weinidogion, a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn brysyr yn paratoi'r mecanweithiau polisi a deddfwriaethol angenrheidiol i sicrhau bod y cynllun hwn yn llwyddiant yng Nghymru. Bu ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2008, a daeth y ddeddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008, i rym ym mis Tachwedd o'r un flwyddyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn blaenoriaethu gwariant mewn dau faes sy'n bwysig i ffyniant Cymru yn y dyfodol. Y cyntaf o'r rhain yw pobl ifanc, a'r ail yw newid yn yr hinsawdd. Bydd 80 y cant o'r arian a ddaw i law yng Nghymru drwy'r cynllun cyfrifon segur yn cael ei ddefnyddio i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial, gan weithio drwy gyfrwng y trydydd sector a'r sector gwirfoddol i hybu cynhwysiant cymdeithasol. Drwy'r Gronfa Loteri Fawr byddwn yn gweithio gyda'r trydydd sector i sicrhau bod prosiectau arloesol i gefnogi ac i ailgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dieithrio o'r system addysg neu hyfforddiant, ac sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith.

Bydd yr 20 y cant sy'n weddill yn cael ei wario ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a hybu datblygu cynaliadwy ehangach drwy weithgarwch penodol yn y gymuned. Bydd yr arian hwn yn cyfrannu i gydweithrediad cymdeithasol i ymdrechu

approves that the draft the Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008 (Prescribed Restrictions) (Wales) Order 2010 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 5 March 2010. (NDM4454)

I am pleased to be able to open this debate today on the Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008 (Prescribed Restrictions) (Wales) Order 2010. This is the culmination of a lengthy process that began more than two years ago, with the Dormant Bank and Building Society Accounts Bill being introduced to the House of Lords on 7 November 2007. In the period between the introduction of the Bill and this debate today, my ministerial colleagues, Assembly Government officials and I have been busy putting in place the policy and legislative machinery necessary to support this scheme's successful implementation in Wales. A public consultation in Wales took place from August to November 2008, and the primary legislation—the Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008—passed into law in November 2008.

This Order identifies spending priorities in two distinct areas that are important to the future prosperity of Wales. The first of these is young people and the second is tackling climate change. Of the money acquired in Wales through the dormant accounts scheme, 80 per cent will be used to support children and young people to achieve their full potential, working through the third and voluntary sectors to promote social inclusion. Through the Big Lottery Fund, we will be working with the third sector to deliver innovative projects to support and re-engage young people who are at risk of becoming alienated from education or training, and who are in danger of being unemployed.

The remaining 20 per cent will go towards tackling climate change and promoting wider sustainable development through focused community-based activity. This money will contribute to community action to help achieve clean, healthy and sustainable

tuag at amgylchfydoedd glân, iachus a environments.
chynaliadwy.

Drwy gydol y broses hon yr wyf wedi cydweithio'n agos â'm cyd-Weinidogion, Jane Davidson, Leighton Andrews, a'i ragflaenydd Jane Hutt, ar faterion newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy a phobl ifanc. Gwn eu bod hefyd yn cefnogi'r Gorchymyn hwn i'r carn. Yr ydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Gronfa Loteri Fawr, a fydd yn gweinyddu'r cynllun grantiau cyfrifon segur. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad eisoes berthynas dda iawn gyda'r Gronfa Loteri Fawr yn sgîl ei gwaith ardderchog o ddsbarthu arian achosion da y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Bydd y berthynas hon yn sylfaen gref i'n gwaith ar y cyd ar y cynllun cyfrifon segur.

Throughout this process, I have worked closely with my colleagues, Jane Davidson, Leighton Andrews, and his predecessor, Jane Hutt, on the climate change, sustainable development and young people agendas. I know that they offer their full support to this Order. We have also worked closely with the Big Lottery Fund, which will administer the dormant accounts grant scheme. The Assembly Government already has a very strong relationship with the Big Lottery Fund, through its excellent work distributing the National Lottery good causes money in Wales. This relationship will provide a solid foundation for our future work together on the dormant accounts scheme.

Y Llywydd: Gan nad oes siaradwyr eraill ar y cynnig hwn, a chan nad ydwyf wedi gweld unrhyw arwydd bod awydd i bleidleisio yn ei erbyn, gosodaf y cwestiwn bod y cynnig i'w gytuno. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

The Presiding Officer: As there are no other speakers on this motion, and as I have seen no indication of a desire to vote against it, I put the question that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.04 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.04 p.m.*

**Penderfyniad Ariannol yn ymwneud â'r Mesur Arfaethedig Cynulliad
Cenedlaethol Cymru (Taliadau)
Financial Resolution in relation to the Proposed National Assembly for Wales
(Remuneration) Measure**

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): I move that

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Cynigiad fod

the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order No. 23.80(ii)(b) arising in consequence thereof. (NDM4450)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), yn cytuno unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 23.80(ii)(b) sy'n codi o ganlyniad iddi. (NDM4450)

The Deputy Presiding Officer: We have no other speakers, so, obviously, you will not want to wind up, Minister.

Y Dirprwy Lywydd: Nid oes gennym ragor o siaradwyr, felly, mae'n amlwg na fyddwch am ddirwyn i ben, Weinidog.

The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Cynhwysiant Ariannol Financial Inclusion

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I move that

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

notes the progress made against the financial inclusion strategy for Wales in tackling financial exclusion and improving financial capability. (NDM4455)

yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth cynhwysiant ariannol Cymru o ran mynd i'r afael ag allgáu ariannol a chynnyddu gallu ariannol. (NDM4455)

Our first ever financial inclusion strategy, 'Taking Everyone into Account', was launched in July 2009. Almost one year on, this debate provides us with an opportune time to report on progress.

Lansiwyd ein strategaeth cynhwysiant ariannol gyntaf erioed 'Mae Pawb yn Cyfrif', ym mis Gorffennaf 2009. A bron blwyddyn wedi mynd heibio, mae'r ddadl hon yn gyfle da inni sôn am y cynnydd a fu.

Given the economic context, a clear and immediate priority for the strategy was to respond to the financial difficulties that people in our communities were and are experiencing. Not surprisingly, we have seen an unprecedented increase in levels of demand for debt advice services throughout Wales. Citizens Advice is now dealing with an average of 9,300 new debt cases every day.

O gofio'r cyd-destun economaidd, un o flaenoriaethau clir y strategaeth oedd ymateb yn ddi-oed i'r anawsterau ariannol yr oedd pobl yn ein cymunedau yn eu hwynebu ac y maent yn dal i'w hwynebu. Nid yw'n syndod inni weld cynnydd na welwyd ei debyg ledled Cymru yn y galw am wasanaethau cyngor ynglŷn â dyledion. Erbyn hyn, mae Cyngor ar Bopeth yn ymdrin â 9,300 o achosion dyled newydd ar gyfartaledd bob dydd.

We wanted to ensure that we were supporting Citizens Advice Cymru to enable it to meet these new demands. In November 2009, we provided £747,000 to Citizens Advice Cymru to establish a single-number advice line to integrate all bureaux in Wales into a virtual call centre by the end of 2010. The economies of scale resulting from this new system will bring huge benefits to clients, while still retaining a local presence for debt

Yr oeddem am sicrhau ein bod yn cefnogi Cyngor ar Bopeth Cymru i'w alluogi i ymateb i'r gofynion newydd hyn. Ym mis Tachwedd 2009, rhoddasom £747,000 i Gyngor ar Bopeth Cymru i sefydlu llinell gymorth un rhif i uno'r holl ganolfannau yng Nghymru a chreu canolfan alwadau rithwir erbyn diwedd 2010. Bydd yr arbedion maint yn sgîl y system newydd hon yn dwyn manteision enfawr i gleientiaid, gan barhau i

advice.

Keeping people in their homes during the recession has also been a key priority for the Government and we took quick steps to assist home owners who have found themselves struggling to meet the cost of keeping up with payments on their mortgages.

The Deputy Minister for Housing and Regeneration has made available £28.5 million since June 2008, through the mortgage rescue scheme, enabling housing associations to buy the home, or a share of a home, of a homeowner who is facing repossession due to mortgage arrears. In Wales, the scheme has, so far, prevented 609 adults and 319 children from becoming homeless. This scheme will be continued this year and will be complemented by the housing debt helpline, which offers telephone-based counselling to anyone at risk of losing their home, helping them to find sustainable long-term solutions to their problem.

An important part of our response has also been to ensure that people can access advice and support to ensure that they receive the financial help that they are entitled to. Our support for Citizens Advice Cymru includes its delivery of the Better Advice: Better Health initiative, which will improve general health by tackling causes of non-medical problems such as debt, poor housing and relationship issues. Our support for this project has assisted over 60,000 people, and has resulted in £33,000 of additional benefits gained since 2001-02. Sorry, I should have said £33 million, not £33,000. Those figures are quite different.

Building on the success of this initiative, Citizens Advice Cymru is also delivering our £0.5 million pilot campaign to increase benefit take-up by families with disabled children. Since the launch of the scheme in July 2009, an extra £278,000 was paid to 415 families with disabled children, with considerably more likely to be provided once benefit decisions have been made.

ddarparu gwasanaeth cyngor ynglŷn â dyledion yn lleol.

Mae sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi yn ystod y dirwasgiad hefyd wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth a chymerasom gamau'n gyflym i gynorthwyo perchenogion tai sydd wedi'u cael eu hunain yn straffaglu i dalu costau ad-daliadau eu morgeisi.

Mae'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio wedi darparu £28.5 miliwn ers mis Mehefin 2008, drwy'r cynllun achub morgeisi, gan alluogi cymdeithasau tai i brynu cartref, neu gyfran o gartref perchennog y mae ei dŷ am gael ei adfeddiannu oherwydd ôl-ddyledion morgais. Yng Nghymru, hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi atal 609 o oedolion a 319 o blant rhag mynd yn ddigartref. Parheir â'r cynllun hwn eleni ac fe'i hategir gan y llinell gymorth dyledion tai, sy'n cynnig gwasanaeth cwnsela dros y ffôn i unrhyw un y mae perygl iddo golli ei gartref, gan ei gynorthwyo i ddod o hyd i atebion hirdymor i'w broblem.

Rhan bwysig o'n hymateb hefyd oedd sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth er mwyn iddynt gael y cymorth ariannol y mae ganddynt yr hawl iddo. Mae ein cymorth i Gyngor ar Bopeth Cymru'n cynnwys cyflwyno'r cynllun Cyngor Da: Iechyd Da ganddo, cynllun a fydd yn gwella iechyd cyffredinol pobl drwy fynd i'r afael ag achosion problemau nad ydynt yn broblemau meddygol megis dyled, tai gwael a phroblemau mewn perthynas. Mae ein cymorth i'r prosiect hwn wedi cynorthwyo dros 60,000 o bobl, ac wedi arwain at ennill £33,000 o fudd-daliadau ers 2001-02. Mae'n ddrwg gennyf, dylaswn ddweud £33 miliwn, nid £33,000. Mae tipyn o wahaniaeth rhwng y ffigurau hynny.

Gan adeiladu ar lwyddiant y cynllun hwn, mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd yn rhoi ein hymgyrch beilot ar waith a honno'n werth £0.5 miliwn er mwyn cynyddu nifer y teuluoedd a chanddynt blant anabl sy'n manteisio ar fudd-daliadau. Ers dechrau'r cynllun ym mis Gorffennaf 2009, talwyd £278,000 yn ychwanegol i 415 o deuluoedd a chanddynt blant anabl, ac mae'n debyg i

darperir swm uwch o lawer ar ôl i'r penderfyniadau gael eu gwneud ynglŷn â budd-daliadau.

In supporting our most vulnerable people, we have also met our commitment to help pensioners with their council tax. Through a range of schemes, funded by the Government and delivered by local authorities, some of the poorest pensioners are receiving additional help with their council tax, complementing initiatives that we have already taken to increase benefit take-up among this group. This has resulted in an increase in benefit take-up of approximately 5.3 per cent. Over 16,000 more pensioners and families with children have taken up council tax or housing benefits and an estimated £10 million has been paid in additional benefits.

Wrth gefnogi'n pobl fwyaf agored i niwed, yr ydym hefyd wedi gwireddu'n hymrwymiad i gynorthwyo pensïynwyr gyda'u treth gyngor. Drwy amrywiaeth o gynlluniau, a noddir gan y Llywodraeth ac a ddarperir gan awdurdodau lleol, mae rhai o'r pensïynwyr tlotaf yn cael cymorth ychwanegol gyda'u treth gyngor, gan ategu cynlluniau yr ydym wedi'u sefydlu eisoes i gynyddu'r nifer ymhlith y grŵp hwn sy'n manteisio ar fudd-daliadau. Mae hyn wedi golygu bod y nifer sy'n cael budd-daliadau wedi cynyddu tua 5.3 y cant. Mae cynnydd o fwy na 16,000 o bensiynwyr a theuluoedd a chanddynt blant wedi bod yn y nifer sy'n cael y budd-dal treth gyngor neu'r budd-dal tai ac amcangyfrifir bod gwerth £10 miliwn o fudd-daliadau ychwanegol wedi'u talu.

We must acknowledge that many of the issues involved in over-indebtedness and the potential solutions are not devolved—for example, the regulation of the credit industry and funding of specialist debt advice. However, we have worked closely with the UK Government to develop and deliver our financial inclusion strategy and we welcome its plans to reform how credit and store cards are offered, to provide financial advice for people on low incomes, and to incentivise a savings habit for those on low incomes. While our immediate priority has been to help the most vulnerable people come through this recession, our strategy is to look at long-term need to ensure that people develop financial competence and have access to responsible lending.

Rhaid inni sylweddoli bod llawer o'r materion sydd ynghlwm wrth orddyled a'r atebion posibl yn faterion nad ydynt wedi'u datganoli—er enghraifft, rheoleiddio'r diwydiant credyd ac ariannu cyngor arbenigol ynglŷn â dyledion. Fodd bynnag, yr ydym wedi gweithio'n glòs gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu a gwireddu'n strategaeth cynhwysiant ariannol ac yr ydym yn croesawu ei chynlluniau i ddiwygio'r ffordd y cynigir cardiau credyd a chardiau siopau, i ddarparu cyngor ariannol i bobl ar incwm isel, ac i gymell y rhai sydd ar incwm isel i arfer cynilo. Er mai ein blaenoriaeth gyntaf oedd cynorthwyo'r bobl fwyaf agored i niwed i oroesi'r dirwasgiad hwn, ein strategaeth yw edrych ar anghenion yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod pobl yn meithrin gallu ariannol a'u bod yn gallu cael benthyg arian gan fenthycwyr cyfrifol.

In support of our aim to increase access to accessible and affordable sources of credit and saving opportunities, we are currently supporting 18 credit unions through contracts worth over £600,000.

I gefnogi'n nod o'i gwneud yn haws i bobl gael gafael ar ffynonellau credyd a chyfleoedd cynilo sy'n hygyrch ac yn fforddiadwy, yr ydym ar hyn o bryd yn cefnogi 18 o undebau credyd drwy gontractau gwerth dros £600,000.

4.10 p.m.

As a result of Assembly Government and European funding over the past decade, we

Yn sgîl nawdd gan Lywodraeth y Cynulliad ac Ewrop dros y degawd diwethaf, mae nifer

have seen a fivefold increase in credit union membership. Membership continues to rise in spite of the recession, but with a tendency now for members to accumulate savings rather than borrow as they might have done in previous years.

We are working to help credit unions to provide the best possible service to their members. We are currently supporting five credit unions in north Wales to merge to form the largest credit union in Wales, which could offer a better service to clients, such as the credit union current account—commonly known as CUCA. The roll-out of the CUCA has already been hugely successful in Llandudno, where, in just over a year, 430 new CUCAs have been opened, with an impressive 42 per cent of accounts being opened by previously non-banking members.

In addition to our work with credit unions, we have also continued to support post offices in Wales, as we believe they also have a central role to play in promoting financial inclusion, having a wider presence in communities than banks and building societies, and often providing the only free access to cash.

As well as the assistance that post offices received through our business rate relief scheme, we have supported 140 post offices with grants totalling £2.7 million, enabling them to enhance their services by, for example, opening internet cafes. Almost all of the post offices have seen an increase in customer numbers and there are indications that the extra business generated has created around 112 additional jobs. The recent announcement by the UK Government will enable post offices to offer new financial services, which will assist in improving the viability of their business while improving their links with credit unions, which is to be welcomed.

Looking ahead, we are also addressing the need to improve attitudes and abilities around financial management and understanding. We want to ensure that young people understand

aelodau undebau credyd wedi cynyddu bum gwaith. Mae'r nifer yn dal i gynyddu er gwaethaf y dirwasgiad, ond y duedd yn awr yw bod aelodau'n cronni cynilion yn hytrach na benthycu fel y byddent wedi gwneud o bosibl mewn blynyddoedd cynt.

Yr ydym yn gweithio i gynorthwyo undebau credyd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w haelodau. Ar hyn o bryd, yr ydym yn cynorthwyo pum undeb credyd yn y gogledd i uno i ffurfio'r undeb credyd mwyaf yng Nghymru, a allai gynnig gwell gwasanaeth i gleientiaid, megis cyfrif cyfredol yr undebau credyd—a elwir yn CUCA fel rheol. Mae cyflwyno'r CUCA eisoes wedi bod yn llwyddiant mawr yn Llandudno. Yno, mewn ychydig dros flwyddyn, agorwyd 430 o CUCAs newydd a chanran glodwiw, sef 42 y cant o'r cyfrifon hynny, wedi'u hagor gan aelodau nad oeddent yn bancio gynt.

Yn ogystal â'n gwaith gydag undebau credyd, yr ydym hefyd wedi parhau i gefnogi swyddfeydd post yng Nghymru, gan ein bod yn credu bod ganddynt hwythau ran ganolog i'w chwarae o ran hybu cynhwysiant ariannol, gan fod mwy ohonynt i'w gweld mewn cymunedau na banciau a chymdeithasau adeiladu. Yn aml, dyma'r unig le y gall pobl godi arian parod heb dalu.

Yn ogystal â'r cymorth a roddwyd i swyddfeydd post drwy ein cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau, yr ydym wedi cefnogi 140 o swyddfeydd post drwy roi grantiau gwerth £2.7 miliwn, gan eu galluogi i wella'u gwasanaethau drwy agor caffis rhyngwrwyd, er enghraifft. Mae nifer cwsmeriaid bron pob un o'r swyddfeydd post wedi cynyddu a'r arwyddion yw bod y busnes ychwanegol a grëwyd wedi creu tua 112 o swyddi ychwanegol. Bydd y cyhoeddiad a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn galluogi swyddfeydd post i gynnig gwasanaethau ariannol newydd, a fydd yn gymorth i wneud eu busnesau'n fwy hyfyw ac, ar yr un pryd, yn cryfhau eu cysylltiad â'r undebau credyd. Mae hyn i'w groesawu.

Ac edrych tua'r dyfodol, yr ydym hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i wella agweddau a galluoedd ym maes rheolaeth a dealltwriaeth ariannol. Yr ydym am sicrhau bod pobl ifanc

the importance of financial capability to prevent them from entering into financial problems as they enter adulthood. Working closely with the Financial Services Authority, we are rolling out the UK Government's financial capability programme in Wales, which is improving the nation's financial capability through financial education, information and advice—reaching further into schools, further education and higher education institutions, the workplace and organisations that help young people and excluded adults. Already, over 3,000 employees in Wales have attended financial capability seminars and the majority of FE and HE institutions engage students actively on the subject of money before they get into difficulties. Through our Welsh financial education unit, training has been delivered to teachers in over 130 secondary schools, from 14 local education authorities, to enable them to deliver financial education as part of the curriculum.

While there are no quick fixes to the problem of financial exclusion, which is deeply embedded in our society, our strategy is already starting to make a big difference in Wales by supporting people to come through financial difficulties and, most importantly, to provide education and support to prevent these difficulties from occurring in the first place. It is, I hope, taking everyone and everything into account. I urge Members to support the motion and to reject amendment 1 tabled in the name of Alun Cairns.

Mark Isherwood: I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add a new point at the end of the motion:

regrets that income inequality has reached the highest levels since record began and calls on the Welsh Assembly Government to prioritise working with the Financial Services Authority, voluntary sector and education providers in delivering the financial inclusion strategy.

Gordon Brown's boom and bust was driven by consumer debt and Government borrowing. Going into recession, Wales and

yn deall pwysigrwydd gallu ariannol i'w hatal rhag wynebu problemau ariannol wrth iddynt groesi'r trothwy i fyd oedolion. Drwy weithio'n glòs gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, yr ydym yn cyflwyno rhaglen gallu ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru, sy'n gwella gallu ariannol y genedl drwy ddarparu addysg, gwybodaeth a chyingor ariannol—gan ymestyn ymhellach i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, y gweithle a sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl ifanc ac oedolion sydd wedi'u hallgáu. Mae dros 3,000 o weithwyr yng Nghymru eisoes wedi mynychu seminarau gallu ariannol a bydd mwyafrif y sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn cynnal trafodaeth ynghylch arian gyda myfyrwyr cyn iddynt fynd i drafferthion. Drwy ein huned addysg ariannol yng Nghymru, darparwyd hyfforddiant i athrawon mewn dros 130 o ysgolion uwchradd, o 14 o awdurdodau addysg lleol, i'w galluogi i ddarparu addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm.

Er nad oes ateb rhwydd i broblem allgáu ariannol, gan ei bod wedi bwrw gwreiddiau dwfn yn ein cymdeithas, mae ein strategaeth eisoes yn dechrau dwyn ffrwyth o ddifrif yng Nghymru wrth iddi gynorthwyo pobl i ddatrys eu problemau ariannol, ac yn anad dim, drwy eu haddysgu a'u cynorthwyo er mwyn atal yr anawsterau hyn rhag codi yn y lle cyntaf. Yr wyf yn gobeithio ei bod yn rhoi sylw i bawb a phopeth. Yr wyf yn pwysu ar yr Aelodau i gefnogi'r cynnig ac i wrthod gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Alun Cairns.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu bod anghydraddoldeb incwm wedi cyrraedd y lefelau uchaf ers dechrau cadw cofnodion ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i flaenoriaethu gweithio gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, y sector gwirfoddol a darparwyr addysg i gyflawni'r strategaeth cynhwysiant ariannol.

Dyled defnyddwyr a benthyca gan y Llywodraeth a sbardunodd gylch ffynnu a'r methu Gordon Brown. Wrth inni suddo i'r

the UK's consumer debt was the highest in the G7. As a consequence, it is now more difficult to borrow in order to spend. Last week, the Prime Minister admitted that he had made a mistake in not introducing tougher bank regulation when he was the Chancellor of the Exchequer. In his first budget, he removed powers from the Bank of England to control the amount of debt in the economy. He scrapped the mortgage code compliance board in 2004 and handed statutory responsibility for the regulation of mortgages to the Financial Services Authority, which admitted that it failed to act on signals that Northern Rock was acting recklessly. The fall-out reverberated across the sector, leading to banking bust and taxpayer bailout.

If there was a Conservative UK Government, it would put the Bank of England back in charge of prudential provision and create a powerful consumer protection agency to take over the Financial Services Authority's consumer protection role. It would give that agency new powers to: define and ban excessive borrowing on store cards; launch Britain's first free national financial advice service, which would be funded in full through a new social responsibility levy on the financial services sector; introduce a seven-day cooling-off period for store cards; require credit card companies to provide clear information; and ensure that no-one is forced to sell their home to pay unsecured debts of less than £25,000.

At the devolved level, Labour's pledge to halve child poverty by 2010 is now in tatters, and income inequality has reached the highest levels since records began. Therefore, amendment 1 regrets that income inequality has reached such high levels, and calls on the Welsh Government to prioritise working with the Financial Services Authority, the voluntary sector and education providers to deliver the financial inclusion strategy. By implication, that includes a successor consumer protection agency.

dirwasgiad, dyled Cymru a'r Deyrnas Unedig oedd yr uchaf yn y G7. Yn sgîl hynny, mae bellach yn anos cael benthyg arian er mwyn gwario. Yr wythnos diwethaf, cyfaddefodd y Prif Weinidog iddo wneud camgymeriad wrth beidio â chyflwyno trefn lymach i reoleiddio'r banciau pan oedd yn Ganghellor y Trysorlys. Yn ei gyllideb gyntaf, dileodd bwerau Banc Lloegr i reoli faint o ddyled a oedd yn yr economi. Cafodd wared ar y bwrdd cydymffurfio â'r cod morgeisi yn 2004 a rhoddodd gyfrifoldeb statudol dros reoleiddio morgeisi i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Cyfaddefodd hwnnw iddo fetu gweithredu ar sail yr arwyddion bod Northern Rock yn ymddwyn yn ddi-hid. Atseiniodd y canlyniadau drwy'r sector; aeth yr hwch drwy'r siop yn y banciau a bu'n rhaid i'r trethdalwr fynd i'w boced.

Petai'r Ceidwadwyr yn llywodraethu'r Deyrnas Unedig, byddent yn gwneud Banc Lloegr yn gyfrifol unwaith eto am ddarpariaeth ddarbodus. Byddent yn creu asiantaeth bwerau i warchod defnyddwyr a byddai honno'n ysgwyddo rôl gwarchod defnyddwyr yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Byddent yn rhoi pwerau newydd i'r asiantaeth honno wneud y canlynol: diffinio a gwahardd benthyca gormodol ar gardiau siopau; lansio gwasanaeth cyngor ariannol cenedlaethol am ddim cyntaf Prydain, a ariennid yn llawn drwy godi ardoll cyfrifoldeb cymdeithasol newydd ar y sector gwasanaethau ariannol; cyflwyno cyfnod ailfeddwl saith niwrnod ar gyfer cardiau siopau; mynnu bod cwmnïau cardiau credyd yn darparu gwybodaeth glir; a sicrhau nad oes neb yn cael ei orfodi i werthu ei gartref i dalu dyledion sydd heb eu gwarantu sy'n llai na £25,000.

Ar y lefel ddatganoledig, mae addewid Llafur i haneru tlodi plant erbyn 2010 bellach yn deilchion, ac mae anghydraddoldeb incwm yn uwch nag ers inni ddechrau cadw cofnodion. Felly, mae gwelliant 1 yn gresynu bod anghydraddoldeb incwm wedi cynyddu cymaint ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu gweithio gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, y sector gwirfoddol a darparwyr addysg i wireddu'r strategaeth cynhwysiant ariannol. Mae hynny'n amlwg yn cynnwys sefydlu asiantaeth i warchod defnyddwyr yn lle'r un flaenorol.

Wales has the highest levels of child poverty in the UK: 192,000 children, one in three, are affected, including 96,000 in severe poverty. It is impossible to improve the flow of funding, be more lenient with borrowers, and improve the capital position of banks all at the same time. Politicians stating otherwise cannot be trusted. I welcome bank initiatives to offer free impartial financial guidance to everyone, and I call on other banks to do the same. Too many young people leave school with low financial capability. Plans by the Welsh Government for financial education in schools are therefore welcome.

The Institute for Fiscal Studies school of finance has already established financial school-based qualifications aimed at 14 to 19-year-olds, available to all schools and colleges in the United Kingdom. Material for younger pupils is available from other providers. Where introduced, students have shown a good understanding of personal finance. This contrasts with the Ofsted findings in England: when personal finance education was taught across several areas of the curriculum, the result was often a lack of coherence, and schools and colleges often failed to identify what they expected students to achieve at a particular age. Let us learn from that.

More than 200 citizens advice bureaux across England and Wales are now involved in financial capability education, and I welcome Carl's comments about that. This preventative service for money problems helps 250,000 people across England and Wales each year. The importance of that was highlighted by a 2004 MORI poll—and it may have been six years ago, but it is still pertinent—which found that one in three people in the UK lacked any confidence in handling money, and only 30 per cent could calculate correctly the interest on £2,000 at 4 per cent over two years.

We have witnessed the disturbing decline of savings, with a buy-now, pay-later culture where once we used to save money to buy an

Yng Nghymru y mae tlodi plant ar ei uchaf yn y Deyrnas Unedig: effeithir ar 192,000 o blant, un o bob tri phlentyn, gan gynnwys 96,000 sydd yn ddifrifol dlawd. Mae'n amhosibl gwella llif yr ariannu, bod yn llai llym gyda'r rhai sy'n benthyg, a gwella sefyllfa gyfalaf y banciau i gyd ar yr un pryd. Ni ellir ymddiried mewn gwleidyddion sy'n dadlau'n wahanol. Yr wyf yn croesawu cynlluniau rhai banciau i gynnig arweiniad ariannol diduedd i bawb, ac yn galw ar y banciau eraill i wneud yr un peth. Mae gormod o bobl ifanc yn ymadael â'r ysgol heb fawr o allu ariannol. Felly, croesewir cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg ariannol mewn ysgolion.

Mae ysgol cyllid y Sefydliad Astudiaethau Ariannol eisoes wedi sefydlu cymwysterau ariannol mewn ysgolion a'r rheini wedi'u hanelu at rai rhwng 14 ac 19 oed. Byddant ar gael i bob ysgol a choleg yn y Deyrnas Unedig. Mae deunyddiau ar gyfer disgyblion iau ar gael gan ddarparwyr eraill. Lle y cyflwynwyd y rhain, mae myfyrwyr wedi dangos dealltwriaeth dda o gyllid personol. Mae hyn yn groes i ganfyddiadau Ofsted yn Lloegr: pan ddysgwyd addysg cyllid personol ar draws sawl maes yn y cwricwlwm, y canlyniad yn aml oedd diffyg cydlynad, a byddai ysgolion a cholegau'n aml yn methu diffinio'r hyn yr oeddent yn disgwyl i fyfyrwyr o oedran penodol ei gyflawni. Gadewch inni ddysgu yn sgîl hynny.

Bellach, mae dros 200 o ganolfannau cyngor ar bopeth ledled Cymru a Lloegr yn ymwneud ag addysg gallu ariannol, ac yr wyf yn croesawu sylwadau Carl am hynny. Mae'r gwasanaeth ataliol hwn ar gyfer problemau ariannol yn cynorthwyo 250,000 o bobl ledled Cymru a Lloegr bob blwyddyn. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd hynny mewn pŵl gan Mori yn 2004—ac er bod hynny chwe blynedd yn ôl, mae'n dal yn berthnasol. Canfu fod un o bob tri yn y Deyrnas Unedig yn ddihyder wrth ymdrin ag arian, ac mai dim ond 30 y cant a allai gyfrifo'n gywir faint fyddai'r llog ar £2,000 ar gyfradd o 4 y cant dros ddwy flynedd.

Mae'n destun pryder inni weld cynilion yn edwino yn y diwylliant prynu'n awr, talu wedyn pryd y byddem ers talwm yn cynilo

asset. Unless there is a considerable change in the attitude to saving, the situation will only get worse.

The Welsh Government's financial inclusion strategy outlines support for post offices and credit unions to develop new services and affordable financial products, embracing a policy first proposed by the Conservatives as we fought Labour's post office closure programme. However, with fuel poverty and excess winter deaths rising, we must link financial inclusion and fuel poverty strategies if we are to meet the needs of vulnerable and older people who are reluctant to take out loans for energy efficiency improvements. As the Centre for Social Justice stated, we need to enable consumers to take on credit without taking on unmanageable debt, allow debtors to access the type of debt advice that is right for them, give every consumer the opportunity to learn how to manage their money effectively, and encourage Britain, including Wales, to develop a savings culture again.

Val Lloyd: I am grateful to be able to participate in this debate. I wish to address my comments towards increasing financial literacy and helping families to get out and stay out of debt. Since 1997, we have seen a large increase in the number of Government initiatives at Westminster and here that have sought to promote credit unions. Credit unions are an important tool in tackling financial exclusion, but they are not the only ones that must be used. Education also plays a great role.

One of the most recent innovations that has assisted with that education role is the child trust fund, which offers young people across Wales and the rest of the UK the opportunity to grow up with a tangible asset, which will provide the young people with not only a financial benefit, but also an educational one. Rather than simply learning passively about savings and financial management in schools, young people will soon be conducting these lessons and will be able to relate this to their

arian er mwyn prynu rhywbeth. Oni fydd pobl yn newid eu hagwedd yn sylweddol at gynilo, gwaethygu a wnaiff pethau.

Mae strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru'n sôn am gynorthwyo swyddfeydd post ac undebau credyd i ddatblygu gwasanaethau newydd a chynnyrch ariannol fforddiadwy, gan goleddu polisi a gynigiwyd gyntaf gan y Ceidwadwyr pan oeddem yn brwydro yn erbyn rhaglen Llafur i gau swyddfeydd post. Serch hynny, wrth i dlodi tanwydd a marwolaethau ychwanegol y gaeaf gynyddu, rhaid inni gysylltu strategaethau cynhwysiant ariannol â strategaethau tlodi tanwydd er mwyn diwallu anghenion pobl agored i niwed a phobl hŷn sy'n gyndyn o gael benthyg arian i wella effeithlonrwydd ynni. Fel y dywedodd y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, mae angen inni alluogi defnyddwyr i gael credyd heb iddynt ysgwyddo dyled nad oes modd ei rheoli, rhoi cyfle i ddyledwyr gael gafael ar y math o gyngor ynglŷn â dyledion sy'n iawn iddynt, rhoi'r cyfle i bob defnyddiwr ddysgu sut y mae rheoli ei arian yn effeithiol, ac annog Prydain, gan gynnwys Cymru, i ddatblygu diwylliant cynilo unwaith eto.

Val Lloyd: Yr wyf yn ddiolchgar am gael cymryd rhan yn y ddafl hon. Yr wyf am sôn am wella llythrennedd ariannol a chynorthwyo teuluoedd i ddianc rhag dyled a chadw rhagddi. Ers 1997, yr ydym wedi gweld cynnydd mawr yn nifer cynlluniau'r Llywodraeth yn San Steffan ac yma sydd wedi ceisio hyrwyddo undebau credyd. Mae undebau credyd yn gyfrwng pwysig i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, ond nid dyna'r unig gyfrwng y mae'n rhaid ei ddefnyddio. Mae i addysg ran fawr yn hyn hefyd.

Un o'r cynlluniau arloesol diweddaraf sydd wedi bod o gymorth gyda'r rôl addysgu honno yw'r gronfa ymddiriedolaeth plant. Mae'n cynnig cyfle i bobl ifanc ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig dyfu gydag ased pendant, a fydd yn cynnig budd addysgol iddynt, yn ogystal â budd ariannol. Yn hytrach na dim ond dysgu'n oddefol am gynilo a rheoli arian yn yr ysgol, bydd pobl ifanc cyn bo hir yn cynnal y gwersi hyn ac yn gallu gweld y berthynas rhyngddynt a'u

child trust fund.

cronfa ymddiriedolaeth plant.

4.20 p.m.

In 2020, the first group of 18-year-olds will be accessing the first wave of child trust funds. That means that, from 2013, these students will learn how to manage their personal finances competently and how to recognise the link between savings and financial independence in their personal and social education lessons. In maths, they will be taught how to deal with and solve problems relating to budgeting, saving and spending—and I wish that I had been taught that at a much earlier age, rather than having to learn for myself. They will build on these skills as their studies progress. The child trust fund offers an opportunity to improve financial literacy, while holding an asset to which these skills can be applied. This is just one benefit to come from the child trust fund, and it cannot be put at risk by abolishing the policy, as some Members advocate.

Yn 2020, bydd y grŵp cyntaf o bobl ifanc 18 oed yn gallu defnyddio'r don gyntaf o gronfeydd ymddiriedolaeth plant. Bydd hynny'n golygu, o 2013 ymlaen, y bydd y myfyrwyr hyn yn dysgu sut y mae rheoli eu materion ariannol personol yn fedrus a sut y mae gweld y cysylltiad rhwng cynilo ac annibyniaeth ariannol yn eu gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Mewn mathemateg, dysgir iddynt sut y mae ymdrin â phroblemau sy'n gysylltiedig â chyllidebu, cynilo a gwario a sut y mae datrys y problemau hynny—ac o na fyddwn wedi cael dysgu hynny'n iau o lawer, yn hytrach na gorfod dysgu amdano fy hun. Byddant yn datblygu'r sgiliau hyn wrth i'w hastudiaethau fynd rhagddynt. Mae'r gronfa ymddiriedolaeth plant yn cynnig cyfle i bobl ifanc wella'u llythrennedd ariannol, a hwythau'n berchen ar ased y gellir defnyddio'r sgiliau hyn ar ei gyfer. Dim ond un o fanteision y gronfa ymddiriedolaeth plant yw hyn ac ni ellir ei pheryglu drwy gael gwared ar y polisi, sef yr hyn a argymhellir gan rai Aelodau.

While that policy approach is important for tackling future financial exclusion, there is a need to tackle the exclusion faced by many in Wales today. One successful way in which that has been achieved is through a specific credit union scheme: the debt redemption and money advice scheme—or DRAMA, which is much easier to say. DRAMA is designed to tackle debt by enabling participating credit unions to buy out the existing debt, or settle the priority debts of any individual who agrees to become a member of the union. However, these individuals are also offered support to negotiate their debt repayments with creditors. This support is provided through effective partnerships with the citizens' advice bureaux and the Consumer Credit Counselling Service. People who have pressing debts are offered support in negotiating with creditors to help to repay their debts. DRAMA offers hope to people by settling priority debts through the credit union, and making them a member so that they build their savings while repaying their credit union loan. It also offers the practical

Er bod gweithredu drwy'r polisi hwnnw'n bwysig er mwyn mynd i'r afael ag allgáu ariannol yn y dyfodol, mae angen mynd i'r afael â'r allgáu a wynebir gan lawer yng Nghymru heddiw. Un ffordd lwyddiannus a ddefnyddiwyd i wneud hynny yw cynllun penodol gan yr undebau credyd: y cynllun adbrynu dyledion a chyngor ynglŷn ag arian—neu DRAMA, sy'n haws o lawer ei ddweud. Nod DRAMA yw mynd i'r afael â dyled drwy alluogi undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y cynllun i brynu'r dyled sy'n bod eisoes, neu i setlo dyledion y rhoddir blaenoriaeth iddynt gan unrhyw unigolyn sy'n cytuno i ddod yn aelod o'r undeb. Serch hynny, cynigir cymorth hefyd i'r unigolion hyn i negodi ad-dalu eu dyledion gyda chredydwyr. Darperir y cymorth hwn drwy bartneriaethau effeithiol gyda'r canolfannau cyngor ar bopeth a'r Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr. Cynigir cymorth i bobl sydd â dyledion mawr negodi â'u credydwyr er mwyn eu cynorthwyo i ad-dalu eu dyledion. Mae DRAMA yn cynnig gobaith i bobl drwy

advice necessary to help people to manage different debts, prioritise those debts, and work towards their full repayment. This collaborative working between credit unions and financial advice services has not yet spread across the whole of Wales and perhaps the Assembly Government should give serious consideration to that.

Eleanor Burnham: The financial inclusion strategy has some admirable aims, but we live in the real world and, unfortunately, because of the Labour Government at Westminster and the former Chancellor's ineptitude, the banking crisis has placed huge extra burdens on people who had nothing to do with it personally. We have all been enmeshed in this, and it is frightening. I cannot remember by how much we are all in hock to the Government. I think that I am right to say that it is something outrageous like £20,000 each. I welcome this opportunity to speak up for those who are struggling to manage financially and who have been badly let down by that Government and—I hasten to add—by this Labour-Plaid Government.

We will support the Conservatives' amendment 1, as we have to wonder how the Government defines 'progress'. It is sad to think that the banking crisis was brought upon us by its ineptitude, but also to think about what the Westminster Labour Government has done to our post offices. I am absolutely delighted that our new Minister, Carl, has seen the light. It is a shame that his Westminster colleagues did not listen to him in time, which would have meant that we did not have to go through the charade of losing post offices in areas where many people are genuinely vulnerable and have never held a bank account. I do not have the exact statistics to hand. I am talking from my heart at the moment, because I feel for people. We are fortunate that we have sufficient funds to manage our resources, but

setlo dyledion y rhoddir blaenoriaeth iddynt drwy'r undeb credyd, a'u gwneud yn aelodau er mwyn iddynt gynyddu eu cynilion wrth iddynt ad-dalu eu benthychiad i'r undeb credyd. Mae hefyd yn cynnig y cyngor ymarferol angenrheidiol er mwyn cynorthwyo pobl i reoli gwahanol ddyledion, blaenoriaethu'r dyledion hynny, a gweithio tuag at eu had-dalu'n llawn. Nid yw'r cydweithio hwn rhwng undebau credyd a gwasanaethau cyngor ariannol wedi lledu ar draws Cymru i gyd eto ac efallai y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried hynny o ddifrif.

Eleanor Burnham: Mae nifer o nodau clodwiw'n perthyn i'r strategaeth cynhwysiant ariannol, ond yr ydym yn byw yn y byd go iawn ac, yn anffodus, oherwydd y Llywodraeth Lafur yn San Steffan ac anallu'r cyn Ganghellor, mae argyfwng y banciau wedi rhoi beichiau ychwanegol enfawr ar bobl nad oedd a wnelont ddim â'r peth yn bersonol. Yr ydym i gyd wedi'n dal yn y rhwyd hon, ac mae'n peri dychryn. Ni allaf gofio faint o ddyled sydd arnom i gyd i'r Llywodraeth. Credaf fy mod yn iawn yn dweud ei fod yn swm gwarthus megis £20,000 y pen. Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i siarad ar ran y rhai sy'n ei chael yn anodd ymdopi'n ariannol ac sydd wedi cael cam difrifol gan y Llywodraeth honno, a chan y Llywodraeth hon, Llywodraeth Llafur a Phlaid Cymru—yr wyf yn brysio i ychwanegu hynny.

Cefnogwn welliant 1 y Ceidwadwyr, oherwydd rhaid inni holi sut y mae'r Llywodraeth yn diffinio 'cynnydd'. Mae'n drist meddwl mai anallu oedd yn gyfrifol am argyfwng y banciau, ond mae'n drist hefyd meddwl beth y mae Llywodraeth Lafur San Steffan wedi'i wneud i'n swyddfeydd post. Yr wyf wrth fy modd bod ein Gweinidog newydd, Carl, wedi gweld y goleuni. Mae'n bechod na wrandawodd ei gyd-Weinidogion yn San Steffan arno mewn pryd. Byddai hynny wedi golygu na fuasai'n rhaid inni orfod mynd drwy'r sioe o gollu swyddfeydd post mewn ardaloedd lle y mae llawer o bobl sy'n wirioneddol agored i niwed ac na fu ganddynt erioed gyfrif banc. Nid yw'r union ystadegau gennyf. Siarad o'r galon yr wyf ar hyn o bryd, oherwydd fy mod yn teimlo dros bobl. Yr ydym yn ffodus bod gennym ddigon

consider people who are living on £15,000 to £25,000 a year. They are exactly the reason why the Liberal Democrats' would-be Chancellor wants the first £10,000 of income to be free of tax. It is absolutely diabolical that people are in such a terrible situation.

We talk about crisis management for people but, ironically, as the banks withdraw the use of cheques, we suddenly find that an awful lot of vulnerable people are using the credit card cheques that come through the post. They are a tease to some vulnerable people who do not understand the implications of using them. In many respects, the banks have been immoral and have been preying on vulnerable people, as have loan sharks. I hope that our Minister, Carl, can also address that issue, and maybe he could let me know how he is to outlaw loan sharks. I thought that the Consumer Credit Act 2006 was to do that, as loan sharks can charge outrageous interest rates, sometimes more than 1,000 per cent. However, I am heartened by any partnership work that is happening, and the credit unions are certainly a huge success. I commend anybody who is able to support them, including our Minister.

Let us not forget that an awful lot of people do not have the wherewithal to buy a computer, and therefore they cannot access some of the wonderful possibilities for getting material goods or whatever at a lower cost by shopping on the internet. Even that is a problem. We have seen recently the difficulties experienced by farmers in rural areas, who could not pay their VAT returns online without computers. If they do not do that, they face penalties. There are all kinds of subtle issues that perhaps the Minister is not in control of here, but they are issues that we certainly need to address.

The uncertainty in today's climate is compounded by illness and old age, redundancy and all kinds of dreadful issues that befall people. I hope that the

o arian i reoli'n hadnoddau, ond meddylwch am bobl sy'n byw ar rhwng £15,000 a £25,000 y flwyddyn. Dyma'r union reswm pam mae darpar Ganghellor y Democratiaid Rhyddfrydol am i'r £10,000 cyntaf o incwm fod yn ddi-dreth. Mae'n gwbl gythreulig bod pobl mewn sefyllfa mor ofnadwy.

Yr ydym yn sôn am reoli argyfwng i bobl ond, mae'n eironig, wrth i'r banciau roi'r gorau i ddefnyddio sieciau, ein bod yn gweld yn sydyn fod llawer iawn o bobl agored i niwed yn defnyddio'r sieciau cerdyn credyd sy'n dod drwy'r post. Maent yn hudo rhai pobl agored i niwed nad ydynt yn deall goblygiadau eu defnyddio. Mewn sawl ffordd, mae'r banciau, a benthycwyr didrwydded hefyd, wedi bod yn anfoesol ac wedi bod yn manteisio ar bobl agored i niwed. Gobeithio y gall ein Gweinidog, Carl, fynd i'r afael â hynny hefyd, a rhoi gwybod imi efallai sut y mae'n bwriadu gwahardd benthycwyr didrwydded. Yr oeddwn yn meddwl mai dyna oedd un o amcanion Deddf Credyd Defnyddwyr 2006, gan fod benthycwyr didrwydded yn gallu codi cyfraddau llog gwarthus, mwy na 1,000 y cant weithiau. Fodd bynnag, mae unrhyw waith partneriaeth sydd ar y gweill yn fy nghalonogi ac mae'r undebau credyd yn sicr yn llwyddiant enfawr. Yr wyf yn cymeradwyo unrhyw un sy'n gallu eu cefnogi, gan gynnwys ein Gweinidog.

Gadewch inni beidio ag anghofio bod llawer iawn o bobl na allant fforddio prynu cyfrifiadur, ac felly ni allant fanteisio ar rai o'r posibiladau gwych o ran cael nwyddau materol neu beth bynnag y bo yn rhatach drwy siopa ar y rhyngwrld. Mae hyd yn oed hynny'n broblem. Yr ydym wedi gweld yn ddiweddar yr anawsterau a gafodd ffermwyr mewn ardaloedd gwledig, nad oeddent yn gallu talu eu TAW ar lein am nad oedd ganddynt gyfrifiadur. Oni wnânt hynny, byddant yn wynebu cosbau. Mae pob math o fân faterion nad ydynt o bosibl o dan reolaeth y Gweinidog yn y fan hon, ond maent yn sicr yn faterion y mae angen inni fynd i'r afael â hwy.

Mae'r ansicrwydd yn yr hinsawdd sydd ohoni'n waeth yn sgîl salwch a henaint, colli gwaith a phob math o bethau erchyll sy'n dod i ran pobl. Yr wyf yn gobeithio y gall y

Government can do something to help—

Llywodraeth wneud rhywbeth i gynorthwyo—

Jeff Cuthbert: You have been speaking now for four minutes, and I have been listening very hard to see how your party would change the strategy. What would you do differently? What are your policies?

Jeff Cuthbert: Yr ydych wedi bod yn siarad yn awr ers pedair munud, ac yr wyf wedi bod yn gwranddo'n astud iawn i weld sut y byddai eich plaid yn newid y strategaeth. Beth y byddech yn ei wneud yn wahanol? Beth yw'ch polisiau?

Eleanor Burnham: We have lots of important policies that, unfortunately, I do not have the time to discuss in detail. My understanding is that Vince Cable has looked very carefully at this. At least we have costed our manifesto; there are certain parties that have not even costed theirs, so do not give me any of that tosh. If we had more time, we could engage in a proper debate about our manifestos, but unfortunately I do not. I will only say that I am not on trial here; you, the Government, are. Therefore, in my role in opposition, I am trying to tease out all kinds of issues regarding how serious you are, bearing in mind that we now have more child poverty, more fuel poverty, and more general poverty. You are in Government, so you answer my questions, please.

Eleanor Burnham: Mae gennym lawer o bolisiau pwysig nad oes gennyf yr amser i'w trafod yn fanwl, yn anffodus. Yn ôl a ddeallaf, mae Vince Cable wedi edrych yn ofalus iawn ar hyn. O leiaf yr ydym wedi costio'n maniffesto; mae rhai pleidiau nad ydynt hyd yn oed wedi costio'u rhai hwy, felly, nid wyf am glywed y lol honno. Petai gennym fwy o amser, gallem gynnal dadl iawn am ein maniffestos, ond yn anffodus, nid yw'r amser gennyf. Y cyfan a ddywedaf yw nad fi sydd ar brawf yma; chi y Llywodraeth sydd. Felly, yn fy rôl yn yr wrthblaid, yr wyf yn ceisio tynnu sylw at bob math o faterion ynglŷn â pha mor o ddifrif yr ydych, o gofio bod gennym erbyn hyn fwy o dlodi plant, mwy o dlodi tanwydd, a mwy o dlodi'n gyffredinol. Chi sy'n llywodraethu, felly atebwch chi fy nghwestiynau, os gwelwch yn dda.

Chris Franks: I welcome the financial inclusion strategy, 'Taking Everyone into Account'. Plaid Cymru sees fairness as a core value, and this strategy is about fairness for all. I will outline some of the issues regarding financial exclusion and some of the steps that we can take to tackle it.

Christ Franks: Yr wyf yn croesawu'r strategaeth cynhwysiant ariannol, 'Mae Pawb yn Cyfrif'. Mae tegwch yn un o werthoedd craidd Plaid Cymru, ac mae a wnelo'r strategaeth hon â thegwch i bawb. Soniaf am rai o'r materion ynglŷn ag allgáu ariannol a rhai o'r camau y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael ag ef.

Many of the poorest members of our society still do not have a bank account, but the benefits that that brings, such as providing access to credit and allowing the direct payment of bills, often result in a reduction in costs. The basic bank accounts introduced by the UK Government can still be intimidating and strange for people who do not have a bank or building society account.

Nid oes gan rai o aelodau tlotaf ein cymdeithas gyfrif banc o hyd, ond mae'r manteision a ddaw yn sgîl hynny, megis gallu cael gafael ar gredyd a gallu talu biliau'n uniongyrchol, yn aml yn golygu llai o gostau. Gall y cyfrifon banc sylfaenol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddal i beri dychryn ac ymddangos yn ddieithr i bobl nad oes ganddynt gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu.

Then, there is the issue of automated teller machines that charge for making cash withdrawals. The charge can be as much as £2.50 per transaction, and the ATMs are

Yna, ceir problem y peiriannau twll yn y wal sy'n codi tâl am godi arian parod. Gall y tâl fod yn gymaint â £2.50 y tro, ac mae'r peiriannau hyn yn aml yn yr ardaloedd

often in the most deprived areas, such as the Valleys, in my region. Those who are financially excluded are often unable to access cheap credit and are forced to use doorstep lenders and loan sharks at truly exorbitant rates of interest. My colleague, Adam Price, introduced a Bill in Parliament calling for these interest rates to be capped.

Plaid Cymru wants to see an end to child poverty and pensioner poverty. Tackling social exclusion is part of that process, and, as a member of the Plaid Cymru credit union and of the all-party group on co-operatives, I want to put on record my support for the sterling work done by credit unions in working for the financially excluded. Plaid Cymru particularly welcomes the work of the Welsh Government in giving credit unions a higher profile. It is disappointing that the proposed legislative reform Order for credit unions, which would have extended what credit unions could do, failed to pass through Parliament before dissolution.

4.30 p.m.

While Plaid Cymru continues to deplore the increasing gap between rich and poor, there is no evidence that a Cameron-led Government would be any better. In their excitement for cutting back public services, such a Government would create a bigger gap in Wales, so we will not be supporting the motion put forward by the Conservatives.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I thank Members for their contributions, and will pick up on a few of the points that were raised. The Conservative amendment, supported by the Liberal Democrats, fails to recognise our work with the UK Government, the FSA, Citizens Advice and credit unions. We cannot, therefore, support this amendment, as it does not recognise the fact that we are already working with these organisations. I was pleased that Mark welcomed some of our policies; that is unusual, but I am happy that he welcomed the school education programmes that we are

mwyaf difreintiedig, megis y Cymoedd, yn fy rhanbarth i. Yn aml, bydd y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol yn methu cael gafael ar gredyd rhad ac fe'u gorfodir i ddefnyddio benthycwyr dros y rhiniog a benthycwyr didrwydded gan dalu cyfraddau llog gwirioneddol afresymol. Cyflwynodd fy nghyd-Aelod, Adam Price, Fesur yn y Senedd yn galw am gapio'r cyfraddau llog hyn.

Mae Plaid Cymru am weld diwedd ar dlodi plant ac ar dlodi pensïynwyr. Mae mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yn rhan o'r broses honno, ac, a minnau'n aelod o undeb credyd Plaid Cymru ac o'r grŵp trawsbleidiol ar fentrau cydweithredol, yr wyf am gofnodi fy nghefnogaeth i'r gwaith rhagorol a wneir gan undebau credyd yn gweithio ar ran y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol. Mae Plaid Cymru'n croesawu'n benodol waith Llywodraeth Cymru'n rhoi delwedd amlycach i'r undebau credyd. Mae'n siomedig bod y Gorchymyn diwygio deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer undebau credyd, a fyddai wedi ehangu'r hyn y gallai undebau credyd ei wneud, wedi methu mynd drwy'r Senedd cyn ei diddymu.

Er bod Plaid Cymru'n dal i waredu rhag y bwlc cynyddol rhwng y cefnog a'r tlawd, nid oes tystiolaeth y byddai Llywodraeth o dan arweiniad Cameron ddim gwell. Yn ei hawydd i docio gwasanaethau cyhoeddus, byddai Llywodraeth o'r fath yn creu mwy o fwlc yng Nghymru, felly ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig gan y Ceidwadwyr.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau, a chyfeiriai at ychydig o'r pwyntiau a godwyd. Nid yw gwelliant y Ceidwadwyr, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, yn cydnabod ein gwaith gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, Cyngor ar Bopeth a'r undebau credyd. Felly, ni allwn gefnogi'r gwelliant hwn, gan nad yw'n cydnabod y ffaith ein bod eisoes yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn. Yr oeddwn yn falch bod Mark yn croesawu rhai o'n polisiau; mae hynny'n beth anghyffredin, ond

rolling out in Wales. I am particularly interested in Mark's comments on the links between fuel poverty and poverty in general; this issue is cause for concern, and Mark might wish to reflect on it further, because his party is considering amending the winter fuel allowance should it be elected on 6 May.

Mark Isherwood: Our party has pledged to retain the winter fuel allowance and many other benefits, about which some are, unfortunately, choosing to spread misinformation.

Carl Sargeant: Thank you, Val, for your contribution today. We are keen to work closely with financial literacy initiatives, and I am interested in the DRAMA project that you mentioned. Financial literacy and skills are key, because far too many of our young people do not have the ability or the skills to deal with money or the role of finance in our lives. It is very important to develop these skills through the personal and social education curriculum for 17 to 19-year-olds, and, since 2008, for 7 to 16-year-olds. With this in mind, primary schools have been given advisers to help young people through these difficult programmes. I would, however, be very interested in looking closer at the DRAMA project that you referred to.

Thank you, Chris, for your comments. I believe that you said 'a future fair for all' in your contribution, although I am not quite sure; it was interesting, nevertheless. ATMs that are free to use are also one of my concerns. While this is not a devolved issue, I have made representations on the outrageous cost to vulnerable people who want to withdraw £10 from an ATM and find that it costs £2.50 for them to do so. I have written to the UK Government about this, and will continue to push my concerns.

Eleanor raised many points, particularly on what we are doing with post offices in Wales.

yr wyf yn falch iddo groesawu'r rhaglenni addysg mewn ysgolion yr ydym yn eu cyflwyno yng Nghymru. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn sylwadau Mark am y cysylltiadau rhwng flodi tanwydd a thlodi'n gyffredinol; mae hyn yn destun pryder, ac efallai y byddai Mark yn hoffi meddwl rhagor am hyn, oherwydd bod ei blaid yn ystyried diwygio'r lwfans tanwydd gaeaf pe câi ei hethol ar 6 Mai.

Mark Isherwood: Mae ein plaid wedi addo cadw'r lwfans tanwydd gaeaf a llawer o fudd-daliadau eraill, er bod rhai, yn anffodus, yn dewis lledaenu camwybodaeth yn eu cylch.

Carl Sargeant: Diolch ichi, Val, am eich cyfraniad heddiw. Yr ydym yn awyddus i weithio'n glòs gyda chynlluniau llythrennedd ariannol, ac mae gennyf ddiddordeb yn y prosiect DRAMA a grybwyllwyd gennych. Mae llythrennedd a sgiliau ariannol yn allweddol, oherwydd y mae gormod o lawer o'n pobl ifanc heb na'r gallu na'r sgiliau i ymdrin ag arian nac â rôl cyllid yn ein bywydau. Mae'n bwysig iawn datblygu'r sgiliau hyn drwy'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol i'r rhai rhwng 17 ac 19 oed, ac, ers 2008, i'r rhai rhwng 7 ac 16 oed. Felly, rhoddwyd cynghorwyr i ysgolion cynradd i gynorthwyo pobl ifanc gyda'r rhaglenni anodd hyn. Fodd bynnag, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn edrych yn fwy gofalus ar y prosiect DRAMA y cyfeiriasoch ato.

Diolch ichi, Chris, am eich sylwadau. Credaf ichi ddweud 'dyfodol teg i bawb' yn eich cyfraniad, er nad wyf yn gwbl sicr; yr oedd yn ddiddorol, beth bynnag. Mae sicrhau peiriannau twll yn y wal i bobl eu defnyddio heb dalu hefyd yn un o'r pethau yr wyf yn poeni amdano. Er nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, yr wyf wedi cyflwyno sylwadau ynglŷn â'r gost warthus i bobl agored i niwed sydd am godi £10 o beiriant ac yn canfod bod hynny'n costio £2.50 iddynt. Yr wyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â hyn, a byddaf yn dal i bwysu arni ynglŷn â'm pryderon.

Codwyd llawer o bwyntiau gan Eleanor, yn enwedig ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud

I am proud of this Government's record on post offices; we have introduced the post office rate relief scheme, which gives 100 per cent relief to post offices with a rateable value under £9,000, while the post office diversification fund has helped many post offices locally, bringing around 112 new jobs to Wales.

Lorraine Barrett: Will you join me in welcoming the new post office that was opened recently in Lavernock in my constituency? One post office closed due to retirement, but thanks to the efforts of Alun Michael MP and me, a new one has opened. Eleanor mentioned a joint-agency strategy; can you assure me that that joint-agency work on debt counselling will involve Citizens Advice as well as the Consumer Credit Counselling Service, a wonderful charity that helps people to get out of debt?

Carl Sargeant: I acknowledge your work, and that of your colleague Alun Michael, in helping to establish a new post office. In terms of the advice that you referred to, I am keen that members of the public have access to good quality advice and services, so I will look into the programme that you mentioned.

This debate has helped me to understand the concerns of Members. I am pleased that Members recognise the way that our strategy is promoting financial inclusion across Wales. Again, I urge Members to support the motion and to reject amendment 1.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are objections, so voting is deferred until voting time. The Business Committee has agreed that voting time should be at 5 p.m.; we have not reached 5 p.m., so I propose to bring voting time forward. Does any Member object? I see that no-one does. Does anyone wish the bell to be rung? I see that no-one does, so we will move straight to the vote.

gyda'r swyddfeydd post yng Nghymru. Yr wyf yn falch o'r hyn y mae'r Llywodraeth hon wedi'i wneud gyda'r swyddfeydd post; yr ydym wedi cyflwyno'r cynllun rhyddhad ardrethi i swyddfeydd post a chanddynt werth trethiannol is na £9,000, ac mae'r gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post wedi cynorthwyo llawer o swyddfeydd post yn lleol, gan ddod â rhyw 112 o swyddi newydd i Gymru.

Lorraine Barrett: A wnewch ymuno â mi i groesawu'r swyddfa bost newydd a agorwyd yn Larnog yn fy etholaeth yn ddiweddar? Caedd un swyddfa bost oherwydd i rywun ymddeol, ond diolch i ymdrechion Alun Michael AS a minnau, mae un newydd wedi agor. Soniodd Eleanor am strategaeth gyd-asiantaethol; a allwch fy sicrhau y bydd gwaith cyd-asiantaethol ar gwmsela ynglŷn â dyledion yn cynnwys Cyngor ar Bopeth yn ogystal â'r Gwasanaeth Cwmsela ar Gredyd Defnyddwyr, elusen wych sy'n cynorthwyo pobl i ddianc rhag dyled?

Carl Sargeant: Yr wyf yn cydnabod eich gwaith, a gwaith eich cyd-Aelod Alun Michael, yn cynorthwyo i sefydlu swyddfa bost newydd. O ran y cyngor y cyfeiriasoch ato, yr wyf yn awyddus i'r cyhoedd allu cael cyngor a gwasanaethau o safon, felly edrychaf ar y rhaglen a grybwyllwyd gennyh.

Mae'r ddadl hon wedi fy nghynorthwyo i ddeall pryderon yr Aelodau. Yr wyf yn falch bod yr Aelodau'n cydnabod sut y mae ein strategaeth yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol ledled Cymru. Unwaith eto, pwysaf ar yr Aelodau i gefnogi'r cynnig a gwrthod gwelliant 1.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohirir y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid cynnal y bleidlais am 5 p.m.; nid yw'n 5 p.m. eto, felly cynigaf ein bod yn dwyn y cyfnod pleidleisio yn ei flaen. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. A oes unrhyw un yn dymuno imi ganu'r gloch? Gwelaf nad oes, felly awn ati'n syth i bleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4455: O blaid 10, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Amendment 1 to NDM4455: For 10, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4455: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 10.
Motion NDM4455: For 28, Abstain 0, Against 10.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Randerson, Jenny

James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close. **Y Dirprwy Lywydd:** Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.35 p.m.
The meeting ended at 4.35 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Neges o Gydimdeimlad gan y Llywydd i Lysgennad Gwlad Pwyl
Message of Condolence from the Presiding Officer to the Polish Ambassador

My dear Ambassador Barbara,

Fy annwyl Lysgennad Barbara,

When we first met in such joyful circumstances at Pwllheli, I did not imagine I would be sending you this message.

Wrth inni gyfarfod am y tro cyntaf o dan amgylchiadau mor llawen ym Mhwllheli, nid oeddwn yn dychmygu y byddwn yn anfon y neges hon atoch.

On behalf of the National Assembly for Wales I would like to extend to you and the people of the Republic of Poland our deepest sympathy and expressions of solidarity following the recent tragic loss. We can only imagine in sympathy with you, and knowing something of your history, what such a circumstance can be. I was deeply moved by your interview on BBC radio 4 earlier this week.

Ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, hoffwn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i chi ac i bobl Gweriniaeth Gwlad Pwyl, gan ddweud ein bod yn sefyll gyda chi yn sgîl eich profedigaeth drist yn ddiweddar. Ni allwn ond dychmygu mewn cydymdeimlad â chi ddwyster eich profiad gan wybod rhywfaint am eich hanes. Fe'm cyffyrddwyd yn fawr gan eich cyfweiliad ar BBC radio 4 yn gynharach yr wythnos hon.

When we convene as a National Assembly after Easter, I will inform Members of this message and express my sympathy with the people of Poland and on behalf of the long-standing Polish community in Wales.

Pan fydd ein Cynulliad Cenedlaethol yn ymgynnull ar ôl y Pasg, rhoddaf wybod i'r Aelodau am y neges hon gan fynegi fy nghydymdeimlad â phobl Gwlad Pwyl ac ar ran cymuned y Pwyliaid yng Nghymru sydd wedi hen fwrw gwreiddiau yma.

Most sincerely,

Yn gywir iawn,

Dafydd

Dafydd